



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales  
(The Official Record)**

**Dydd Mawrth 22 Mehefin 1999**

**Tuesday 22 June 1999**

## Cynnwys Contents

2	Datganiadau gan y Llywydd <i>Statements by the Presiding Officer</i>
2	Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd <i>Questions to the First Secretary</i>
12	Datganiad Busnes <i>Business Statement</i>
13	Datganiad Cyllid <i>Finance Statement</i>
24	Diwygio Tŷ'r Arglwyddi <i>The Reform of the House of Lords</i>
65	Dadl Fer: Llaeth a'r Diwydiant Llaeth yng Nghymru <i>Short Debate: Milk and the Dairy Industry in Wales</i>

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.*

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda Llywydd y Cynulliad yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer of the Assembly in the Chair.*

### **Datganiadau gan y Llywydd Statements by the Presiding Officer**

**Y Llywydd:** Yr wyf yn galw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn. Mae gennyf ddatganiad i'w wneud ar gwestiynau'r Cynulliad. Gofynnwyd a ddylid caniatáu mwy na 15 munud ar gyfer cwestiynau llafar. Fe godwyd hynny yn un o'r dadleuon yn y Sesiwn Llawn. Nid oedd y Pwyllgor Busnes am weld y 15 i 20 munud a neilltuwyd ar gyfer cwestiynau llafar yn cael ei ymestyn. Tra'n derbyn hynny, yr wyf am dynnu eich sylw at yr angen i gadw cwestiynau'n fyr, yn gryno ac yn berthnasol, yn enwedig y cwestiynau atodol. Bydd yn ddefnyddiol hefyd pe bai modd cadw'r atebion mor fyr ag sy'n bosibl. Byddai hynny'n caniatáu inni ymdrin â mwy o gwestiynau a rhoi mwy o gyfle i Aelodau gymryd rhan yn y sesiynau hyn.

**The Presiding Officer:** I call the National Assembly for Wales to order. I have a statement to make on Assembly questions. We were asked if we should grant more than 15 minutes for oral questions. This was raised in one of our debates in Plenary. The Business Committee did not want the 15 to 20 minutes set aside for oral questions extended. However, while I accept that, I want to draw your attention to the need to keep questions brief, succinct and relevant, particularly the supplementary questions. It would also be useful to keep replies as brief as possible. This would allow us to deal with more questions and provide more opportunity for Members to participate in these sessions.

### **Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary**

#### **Busnes i Gefn Gwlad Cymru Business in Rural Wales**

**Q1 Nick Bourne:** What measures are being promoted to attract business into rural Wales? (OAQ142VB)

**C1 Nick Bourne:** Pa fesurau sy'n cael eu hyrwyddo i ddenu busnes i gefn gwlad Cymru? (OAQ142VB)

**The First Secretary:** I am sorry to be brief when there is so much to say.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'n ddrwg gennyf fod yn fyr pan fo cymaint i'w ddweud.

I attach considerable importance to attracting inward investment and to supporting emerging and growing indigenous companies in rural Wales. Christine Gwyther emphasised my strategic guidance to the Welsh Development Agency to give high priority to the development of the rural economy, focusing on areas of most need. The agency's all-Wales investment strategy now targets sections of business that could be attracted to these areas.

Yr wyf yn rhoi cryn bwys ar ddenu buddsoddiad o'r tu allan ac ar gefnogi cwmnïau cynhenid sy'n datblygu ac yn tyfu yn y Gymru wledig. Tynnodd Christine Gwyther sylw at yr arweiniad strategol a roddais i Awdurdod Datblygu Cymru i roi blaenoriaeth uchel i ddatblygu'r economi gwledig, gan ganolbwyntio ar yr ardaloedd lle y mae'r angen mwyaf. Bellach mae strategaeth buddsoddi Cymru gyfan yr awdurdod yn targedu adrannau o fusnes y gellid eu denu i'r ardaloedd hyn.

**Nick Bourne:** Over the last 18 months, the

**Nick Bourne:** Dros y 18 mis diwethaf, mae

towns of mid and west Wales have experienced considerable job losses, for example, Lucas SEI Wiring Systems Ltd in Ystradgynlais, Bookers in Builth, and Montgomery Thermostats Ltd in Montgomery. Will the First Secretary consider the importance of improving east-west communication particularly along the A44 into mid Wales to increase job prospects and help promote tourism in this area?

**The First Secretary:** Road communications are important, and Peter Law commented on that recently.

We must consider all the opportunities to strengthen the rural economy. For example, the Agri-Food Partnership is very important in considering ways of getting added value back into the communities. There are other positive aspects. I recently opened an extension to a factory in Newtown, representing part of the inward investment to that area. There are signs of success, reflected in the figures, in moving inward investment further west. There are also considerable successes in small businesses building themselves up. You are right to underline the importance of communications, but there is good news as well as bad news.

**Dafydd Wigley:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn derbyn mai rhai o'r busnesau pwysicaf yng nghefn gwlad yw'r busnesau amaethyddol, sef y ffermydd a'r busnesau sy'n dibynnu'n uniongyrchol ar y ffermydd? Yn y cyd-destun hwn, bydd wedi sylwi ar yr ateb a roddwyd imi yr wythnos diwethaf ynglŷn â lefel incwm net ffermydd. Mae'r ffigur ar gyfer 1998-99 yn cael ei amcangyfrif i fod, ar gyfartaledd, yn £6,800 y flwyddyn yn unig, i lawr o £11,000 y flwyddyn gynt a £18,000 y flwyddyn cyn hynny. Gyda'r math hwn o ostyngiad mewn incwm net ffermydd, beth mae'r Llywodraeth am wneud i newid y sefyllfa er mwyn rhoi gobaith i'r ffermydd ac i'r busnesau hynny sy'n dibynnu arnynt?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Y mae'r gostyngiad hwnnw yn bwysig iawn ac mae wedi achosi

treffi canolbarth a gorllewin Cymru wedi colli nifer sylweddol o swyddi, er enghraifft, Lucas SEI Wiring Systems Ltd yn Ystradgynlais, Bookers yn Llanfair ym Muallt, a Montgomery Thermostats Ltd yn Nhrefaldwyn. A yw'r Prif Ysgrifennydd yn fodlon ystyried pwysigrwydd gwella'r cyfathrebu rhwng dwyrain a gorllewin yn enwedig ar hyd yr A44 i ganolbarth Cymru er mwyn gwella'r rhagolygon am swyddi a helpu i hybu twristiaeth yn yr ardal hon?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae cyfathrebu ar hyd y ffyrdd yn bwysig, a rhoddwyd sylw ar hynny gan Peter Law yn ddiweddar.

Rhaid inni ystyried yr holl gyfleoedd i gryfhau'r economi gwledig. Er enghraifft, mae'r Bartneriaeth Bwyd-Amaeth yn bwysig iawn wrth ystyried dulliau i ddod â gwerth ychwanegol yn ôl i'r cymunedau. Ceir agweddau cadarnhaol eraill. Yn ddiweddar, agorais estyniad i ffatri yn y Drenewydd a oedd yn cynrychioli rhan o fuddsoddiad o'r tu allan yn yr ardal honno. Fe geir arwyddion o lwyddiant, a welir yn y ffigurau, wrth symud buddsoddiad o'r tu allan yn bellach i'r gorllewin. Fe welir llwyddiannau sylweddol hefyd mewn busnesau bychain sy'n ymgryfhau. Yr ydych yn iawn i danlinellu pwysigrwydd cyfathrebu, ond mae yna newyddion da yn ogystal â newyddion drwg.

**Dafydd Wigley:** Does the First Secretary accept that some of the most important businesses in the rural areas are the agricultural businesses, such as the farms and the businesses depending directly on those farms? In that context, he will have noticed from the answer that I received last week on the net income levels of farms, that the figure for 1998-99 is now estimated on average at £6,800 per annum only, down from £11,000 in the previous year and £18,000 in the year before that. With that level of decrease in net income for farms, what are the Government's plans to improve the situation to give some hope to farms and businesses depending on them?

**The First Secretary:** That decrease is very important and has caused serious problems

problemau difrifol iawn i rai ffermwyr. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yr ydym wedi buddsoddi arian i geisio helpu'r ffermwyr yn y tymor byr, ond yr ydym hefyd wedi cydweithio â'r ffermwyr i ddatblygu cynlluniau bwyd-amaeth sydd yn canolbwyntio, yn y tymor hir, ar gael arian ychwanegol i helpu'r ffermwyr a'r cymunedau hynny sydd wedyn yn creu arian yn yr ardaloedd gwledig.

**Mick Bates:** Today marks the Wales final of the Young Enterprise Company of the Year. Those of you present to see the talent and enterprise of young people in Wales would be inspired and I offer my congratulations to those who took part and organised this event.

What action is the First Secretary taking to encourage this spirit of enterprise in schools enabling us to keep young people in our rural areas, perhaps in starter units, and build on indigenous talent to build indigenous industry?

**The First Secretary:** I returned from the Young Enterprise presentations in City Hall a few minutes ago, and I brought a friend with me—this toy. I am not sure why the company from a Welsh school felt that the First Secretary needed a stress-related toy, but I am willing to share this facility with all Assembly Members.

It was one example, among many, of young people in school taking the opportunity to work with businesses supported by Welsh companies, to which I pay tribute. The amount of initiative and ideas and freshness is a tribute to our young people. I am delighted to pay tribute to schools from the city and rural areas, demonstrating their initiative and capacity and doing so with humour and style.

In terms of encouraging this spirit of enterprise, the Education and Training Action Group report, which the Post-16 Education Committee will be considering, and other White Papers are looking at encouraging enterprise in the economy

for many farmers. During the last year, we have invested money to try and help farmers in the short term. We have also worked with the farmers to develop agri-food schemes that focus, in the long term, on getting additional money to help those farmers and communities that are generating money in the rural areas.

**Mick Bates:** Heddiw gwelir rownd derfynol Cymru o Gwmni Menter Ifanc y Flwyddyn. Byddai'r rhai ohonoch oedd yn bresennol i weld talent a menter pobl ifanc yng Nghymru wedi'ch ysbrydoli ac estynnaf fy llongyfarchion i'r rhai a gymerodd ran ac a drefnodd y digwyddiad hwn.

Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i annog yr ysbryd mentergarwch hwn mewn ysgolion a fydd yn ein galluogi i gadw pobl ifanc yn ein hardaloedd gwledig, efallai mewn unedau cychwyn, ac i adeiladu ar sail doniau brodorol er mwyn adeiladu diwydiant brodorol?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe ddychwelais o gyfarfod gwobrwyo Menter yr Ifanc yn Neuadd y Ddinas ychydig funudau'n ôl a deuthum a ffrind gyda mi—y tegan hwn. Nid wyf yn sicr pam yr oedd y cwmni o ysgol yng Nghymru yn teimlo bod ar y Prif Ysgrifennydd angen tegan lleddfu straen, ond yr wyf yn fodlon rhannu'r cyfleuster hwn â holl Aelodau'r Cynulliad.

Yr oedd yn un enghraifft, ymhlith llawer, o bobl ifanc yn yr ysgol yn manteisio ar y cyfle i weithio gyda busnesau a gefnogir gan gwmnïau Cymreig, ac yr wyf yn talu teyrnged iddynt. Mae maint y fenter a'r syniadau a'r ffresni yn deyrnged i'n pobl ifanc. Yr wyf yn falch o dalu teyrnged i ysgolion yn y ddinas a'r ardaloedd gwledig, sydd yn dangos eu menter a'u gallu ac yn gwneud hynny â hiwmor ac mewn steil.

O ran annog yr ysbryd mentergarwch hwn, mae adroddiad y Grŵp Gweithredu Adysg a Hyfforddiant, a gaiff ei ystyried gan y Pwyllgor Addysg Ôl-16, a Phapurau Gwyn eraill yn rhoi sylw i annog menter yn yr economi yn gyffredinol ac ymysg pobl ifanc

generally but particularly among young yn arbennig people.

### **Gwaith Lled-ddargludyddion Semi-conductor Plant**

**Q2 Michael German:** What current information is known about the future of the semi-conductor plant, formerly owned by LG, at their site in Newport? (OAQ156VB)

**The First Secretary:** The current position is that Hyundai Electronics Limited has begun its due diligence review of all the facilities owned by LG Semicon Limited. That process is likely to take a few more weeks. No announcement is expected before that review is finished, but I remain optimistic that Hyundai Electronics will recognise the significant advantages offered by the facility at Newport.

**Mike German:** What has the First Secretary done, and is proposing to do to ensure that the promised high-tech jobs, for which Wales contributed significantly in public money, are attracted into the Newport area?

**The First Secretary:** The officers of the WDA with the support of officials at the Welsh Office are ensuring that everything is done to outline the advantages of proceeding with the facilities in Newport to both companies. I have met the Ambassador to make clear that we cannot interfere with commercial decisions. The welcome in Wales is a very strong one, as many companies have discovered.

It is worth mentioning that the facility at Newport is being constructed with the most modern technology in mind. Grant assistance is available to help equip the plant but, to date, none of the regional assistance offered in support of the LGS development has been paid. If the project proceeds, it should create 1,700 new jobs. It is very important not to write this off, although we understand the difficulty and sensitivity of the current

**C2 Michael German:** Beth yw'r diweddaraf am ddyfodol y gwaith lled-ddargludyddion, a oedd gynt yn eiddo i LG, ar eu safle yng Nghasnewydd? (OAQ156VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Y sefyllfa bresennol yw bod Hyundai Electronics Limited wedi dechrau ei adolygiad sylw priodol ar yr holl gyfleusterau sydd yn eiddo i LG Semicon Limited. Mae'r broses honno yn debygol o barhau am ychydig wythnosau eto. Ni ddisgwylir cyhoeddiad cyn cwblhau'r adolygiad, ond yr wyf yn dal yn hyderus y bydd Hyundai Electronics yn cydnabod y manteision sylweddol a gynigir gan y cyfleuster yng Nghasnewydd.

**Mike German:** Beth a wnaeth y Prif Ysgrifennydd, a beth y mae'n bwriadu ei wneud i sicrhau y bydd y swyddi mewn uwch-dechnoleg a addawyd, ac y cyfrannodd Cymru'n sylweddol tuag atynt mewn arian cyhoeddus, yn cael eu denu i ardal Casnewydd?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae swyddogion Awdurdod Datblygu Cymru gyda chefnogaeth swyddogion yn y Swyddfa Gymreig yn sicrhau y gwneir popeth i amlinellu manteision symud ymlaen â'r cyfleusterau yng Nghasnewydd i'r ddau gwmmi. Yr wyf wedi cyfarfod â'r Llysgennad i roi ar ddeall na allwn ymyrryd mewn penderfyniadau masnachol. Mae'r croeso yng Nghymru yn un mawr iawn, fel y darganfu llawer o gwmmiau.

Mae'n werth crybwyll bod y cyfleuster yng Nghasnewydd yn cael ei adeiladu â'r dechnoleg ddiweddaraf mewn golwg. Mae cymorth grant ar gael i helpu i gyfarparu'r gwaith ond, hyd yn hyn, ni thalwyd dim o'r cymorth rhanbarthol a gynigiwyd i gefnogi datblygiad LGS. Os â'r prosiect ymlaen, fe ddylai greu 1,700 o swyddi newydd. Mae'n bwysig iawn peidio â'i gyfrif yn fethiant, er ein bod yn deall anhawster a sensitifrwydd y

situation.

sefyllfa bresennol.

2:08 p.m.

**Geraint Davies:** Is the First Secretary aware that the LG investment was financed partly by the Welsh Development Agency by postponing urgently needed land reclamation schemes in the Valleys, such as Coedely. When will he make resources available so that these schemes can begin as soon as possible?

**Geraint Davies:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn gwybod bod buddsoddiad LG wedi ei ariannu'n rhannol gan Awdurdod Datblygu Cymru drwy ohirio cynlluniau adfer tir yr oedd angen brys amdanynt yn y Cymoedd, fel yr un yng Nghoed-elái. Pa bryd y bydd yn sicrhau bod adnoddau ar gael fel y gellir dechrau'r cynlluniau hyn cyn gynted ag y bo modd?

**The First Secretary:** I am not sure that I fully understand the question. Perhaps I could have a word afterwards. I would not want to give a misleading answer or one that misinterprets the question. I indicated earlier that the regional selective assistance has not been paid on this project. Payment comes as a second part of the development and I understand that there is interlinking between different projects. I would be happy to go into some of the details outside the Chamber.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid wyf yn sicr fy mod yn llwyr ddeall y cwestiwn. Efallai y gallwn gael gair wedyn. Ni fyddwn am roi ateb camarweiniol neu un sy'n camddechongli'r cwestiwn. Fe nodais yn gynharach nad yw'r cymorth rhanbarthol dethol wedi ei dalu ar y prosiect hwn. Fe ddaw'r taliad fel ail ran o'r datblygiad a deallaf fod cydgysylltiadau rhwng gwahanol brosiectau. Byddwn yn falch o fynd i rai o'r manylion y tu allan i'r Siambr.

**William Graham:** Would the First Secretary welcome the opportunity to comment on the excellent work done by LG electronics on the same site, particularly in providing an impetus for 1,700 much needed jobs in the area, and congratulate the company on winning export orders of some significance?

**William Graham:** A fyddai'r Prif Ysgrifennydd yn croesawu'r cyfle i grybwyll y gwaith rhagorol a wneir gan LG electronics ar yr un safle, yn enwedig wrth ddarparu symbyliad ar gyfer 1,700 o swyddi sydd mawr eu hangen yn yr ardal, ac i longyfarch y cwmni ar ennill archebion allforio sylweddol?

**The First Secretary:** Your point is well-made. The LG electronics project has made excellent headway and over 2,000 jobs have been created to date. That is why I always point out that we need inward investment as well as support for indigenous business. We have to get the balance right. I say again what I have said elsewhere, once an overseas company invests in Wales, then it becomes one of ours and we should welcome its success and exports as you suggest.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gwnaethoch eich pwynt yn dda. Mae prosiect LG electronics wedi gwneud cynnydd rhagorol ac mae dros 2,000 o swyddi wedi eu creu hyd yn hyn. Dyna pam y byddaf bob amser yn nodi bod arnom angen buddsoddi o'r tu allan yn ogystal â chefnogaeth i fusnesau cynhenid. Rhaid inni gael y cydbwysedd cywir. Fe ddywedaf eto yr hyn a ddywedais mewn manau eraill: wedi i gwmni tramor fuddsoddi yng Nghymru, fe ddaw'n un o'n rhai ni ac fe ddylem groesawu ei lwyddiant a'i allforion fel yr ydych yn awgrymu.

### Gostyngiad Carbon Deuocsid Carbon Dioxide Cuts

**Q3 Phil Williams:** What cuts in the carbon

**C3 Phil Williams:** Faint o ostyngiad o dan

dioxide emission from Wales does the First Secretary anticipate will take place under present Government plans over the next 10 years and does he believe this is an adequate contribution by an advanced western country to stabilising the world climate? (OAQ165BVB)

**The First Secretary:** I expect Wales to make a significant contribution towards the UK commitment to reduce carbon dioxide and other greenhouse gas emissions. The UK has played a leading and exemplary role in climate change negotiations. Our domestic target of a 20 per cent reduction in carbon dioxide emissions by 2010 exceeds the UK's international obligations. We can always be more ambitious and push things forward but we should not belittle the contribution that the UK has made in this.

**Phil Williams:** The UK needs to be far more ambitious to meet international obligations. On behalf of my former profession, do you recognise that the consensus of opinion among atmospheric physicists is that the cuts negotiated in Kyoto were inadequate and only welcome as a first step setting up the framework for more drastic cuts? Also, to come to the good news, do you agree that this gives Wales an important opportunity to develop our wide-ranging potential for renewable non-polluting energy?

**The First Secretary:** I accept the question in the spirit in which it was asked. It is always the case that where there are problems and a nation state and international community need to balance different interests, the resulting compromise ends up disappointing some. However, it is a major step forward compared with the lack of previous progress. There are opportunities and challenges for Wales and the Assembly, and the Assembly will have an important part to play in delivering the climate change programme. I am sure that Phil will frequently encourage us to do that. We are starting a study in Wales to provide an overview of existing information about the impact of major

gynlluniau presennol y Llywodraeth y mae'r Prif Ysgrifennydd yn ei ddisgwyl mewn carbon deuocsid dros y 10 mlynedd nesaf ac a yw'n credu bod hyn yn gyfraniad digonol gan wlad orllewinol flaengar at sefydlogi hinsawdd y ddaear? (OAQ165BVB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn disgwyl y bydd Cymru'n cyfrannu'n sylweddol at ymrwymiad y DU i leihau gollyngiadau o garbon deuocsid a nwyon tŷ-gwydr eraill. Mae'r DU wedi chwarae rhan flaenllaw a chanmoladwy yn y trafodaethau ar y newid yn yr hinsawdd. Mae ein targed domestig o ostyngiad o 20 y cant mewn gollyngiadau carbon deuocsid erbyn 2010 yn uwch na rhwymedigaethau rhyngwladol y DU. Gallwn bob amser fod yn fwy uchelgeisiol a rhoi hwb ymlaen i bethau ond ni ddylem fychanu'r cyfraniad a wnaed at hyn gan y DU.

**Phil Williams:** Mae angen i'r DU fod yn fwy uchelgeisiol o lawer i gyflawni ei rhwymedigaethau rhyngwladol. Ar ran fy nghyn-broffesiwn, a ydych yn cydnabod mai'r consensws barn ymysg ffisegyddion atmosfferig yw bod y toriadau a negodwyd yn Kyoto yn annigonol ac ond i'w croesawu fel cam cyntaf tuag at sefydlu fframwaith ar gyfer toriadau llymach? Hefyd, gan ddod at y newyddion da, a ydych yn cytuno bod hyn yn rhoi cyfle pwysig i Gymru, i ddatblygu ein potensial eang ar gyfer ynni adnewyddadwy dilygredd?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn derbyn y cwestiwn yn yr un ysbryd ag y'i gofynnwyd. Mae bob amser yn wir, pan geir problemau a chenedl-wladwriaeth a chymuned ryngwladol yn gorfod cydbwyso gwahanol fuddiannau, fod y cyfaddawd a geir o ganlyniad yn siom i rai. Fodd bynnag, mae'n gam pwysig ymlaen o'i gymharu â'r diffyg cynnydd cyn hynny. Mae yna gyfleoedd a sialensau i Gymru ac i'r Cynulliad, a bydd gan y Cynulliad ran bwysig i'w chwarae wrth gyflawni'r rhaglen ar y newid yn yr hinsawdd. Yr wyf yn sicr y bydd Phil yn ein hannog yn aml i wneud hynny. Yr ydym yn dechrau astudiaeth yng Nghymru i roi uwcholwg ar yr wybodaeth bresennol am effaith y newid mawr yn yr



climate change on economic activities and natural resources. I believe the Assembly can take its responsibility seriously and play an important part.

**Peter Black:** When we come to draw up our sustainable development schemes for the Assembly, will clear targets on carbon dioxide emissions and other such indicators be set?

**The First Secretary:** We should set clear targets. This morning Christine Gwyther, myself and several colleagues from various parties, were present when I received on behalf of the Assembly two important reports assessing the environmental situation in Wales. Those reports will be available to the appropriate Committee and to the Assembly as a whole to help us consider what targets should be set in the future. We have to be careful not to want to do everything in the first day or week. These are early days. However, I am certain that the Assembly shares the ambition implicit in the question to set realistic, achievable but challenging targets for the years ahead.

**John Griffiths:** Could I make it clear that I withdraw my second question, listed as question 6, in the light of the all-party agreement that Members should only ask one question each.

hinsawdd ar weithgareddau economaidd ac adnoddau naturiol. Credaf y gall y Cynulliad ymgymryd â'i ddyletswydd o ddifrif a chwarae rhan bwysig.

**Peter Black:** Pan ddaw'n amser inni lunio ein cynlluniau datblygu cynaliadwy i'r Cynulliad, a fydd targedau eglur ar ollyngiadau carbon deuocsid a dangosyddion eraill o'r fath yn cael eu gosod?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe ddylem osod targedau eglur. Fore heddiw yr oedd Christine Gwyther a minnau a sawl cydweithiwr o wahanol bleidiau, yn bresennol pan dderbyniais ddau adroddiad pwysig ar ran y Cynulliad oedd yn asesu'r sefyllfa amgylcheddol yng Nghymru. Bydd yr adroddiadau hynny ar gael i'r Pwyllgor priodol ac i'r Cynulliad cyfan i'n helpu i ystyried pa dargedau y dylid eu gosod yn y dyfodol. Rhaid inni fod yn ofalus i beidio â bod am wneud pob dim yn y diwrnod neu'r wythnos gyntaf. Megis dechrau yr ydym ni. Fodd bynnag, yr wyf yn sicr bod y Cynulliad yn rhannu'r dyhead sydd ymhlyg yn y cwestiwn i osod targedau sy'n ymarferol, yn gyraeddadwy ond sydd hefyd yn cynnig her ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

**John Griffiths:** A allwn roi ar ddeall fy mod yn tynnu'n ôl fy ail gwestiwn, a restrwyd fel cwestiwn 6, yng ngoleuni'r cytundeb rhwng yr holl bleidiau na ddylai'r Aelodau ond gofyn un cwestiwn yr un.

### **Cnydau sydd wedi'u Haddasu yn Enetig Genetically Modified Crops**

**Q4 John Griffiths:** What measures are in place to regulate genetically modified crops in Wales? (OAQ155JS)

**The First Secretary:** There is a comprehensive European Union-wide regulatory framework covering stages of work with genetically modified organisms, or GMOs, which is designed to protect human health and the environment. This is implemented in the UK through legislation. Before a GMO can be released into the UK environment, consent is required from the Secretary of State. In future, the Assembly

**C4 John Griffiths:** Pa fesurau sydd yn eu lle i reoleiddio cnydau sydd wedi eu haddasu'n enetig yng Nghymru? (OAQ155JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae yna fframwaith rheoleiddio cynhwysfawr ar draws yr Undeb Ewropeaidd sy'n cwmpasu camau gwaith gydag organeddau sydd wedi eu haddasu'n enetig, neu GMOs, er mwyn gwarchod iechyd dynol a'r amgylchedd. Mae hwn wedi ei weithredu yn y DU drwy ddeddfwriaeth. Cyn y gellir rhyddhau GMO i'r amgylchedd yn y DU, rhaid cael caniatâd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn y dyfodol, y

will have responsibility.

**John Griffiths:** There is much consumer concern about GM foods and crops. It is notable that the supermarkets are beginning to act on that concern in line with their business interests. One area of public concern is cross-contamination between GM crops and crops in neighbouring fields. I understand that contamination can take place over a considerable distance. Is there any thought on how those problems may be addressed in Wales?

**The First Secretary:** The current system for regulating GM products is rigorous and effective, and the new measures that are in place were the result of the review of the GMO regulative framework. The review included a report from the Government's chief medical officer and chief scientific officer and an in-depth consultation with the public through the People's Panel. Those measures were announced by the Government on 21 May. I am not an expert in this field but I think that we must ensure that the Assembly, in considering its responsibilities, has the best possible information, is aware of any fears and criticisms but also looks carefully at the parameters laid down in European legislation and international trade agreements. We will be advised by the Advisory Committee on releases to the environment, and other relevant expert committees, in the same way as central Government departments are. The Assembly will have the professional advice to debate and reach judgments.

**Rhodri Glyn Thomas:** Codais y cwestiwn hwn yr wythnos diwethaf wrth drafod yr angen i reoli'r cnydau a dyfir, ac awgrymais y gallai'r Cynulliad ddilyn arweiniad Senedd yr Alban, lle rhoir ystyriaeth i gynlluniau cydsyniol. Hynny yw, byddai'n rhaid cydsynio cyn bod modd tyfu'r cnydau. Mae hyn yn cystylltu â'r pwynt a gododd John ynglŷn â'r modd y mae'r cnydau hyn yn gallu llygru cnydau eraill a dyfir mewn caeau cyfagos.

Cynulliad fydd yn gyfrifol.

**John Griffiths:** Mae llawer o bryder ymysg defnyddwyr am fwydydd a chnydau a addaswyd yn enetig. Mae'n werth nodi bod yr archfarchnadoedd yn dechrau gweithredu ar sail y pryder hwnnw yn unol â'u buddiannau busnes. Un maes sy'n peri pryder ymysg y cyhoedd yw croes-heintio rhwng cnydau a addaswyd yn enetig a chnydau mewn caeau cyfagos. Deallaf fod heintio yn gallu digwydd dros gryn bellter. A roddwyd unrhyw ystyriaeth i'r modd y gellir ymdrin â'r problemau hyn yng Nghymru?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r system bresennol ar gyfer rheoleiddio cynhyrchion sydd wedi eu haddasu'n enetig yn gadarn ac yn effeithiol, ac mae'r mesurau newydd a sefydlwyd yn ganlyniad i adolygiad ar y fframwaith rheoleiddio GMOs. Yr oedd yr adolygiad yn cynnwys adroddiad gan brif swyddog meddygol y Llywodraeth ac ymgynghoriad manwl â'r cyhoedd drwy Banel y Bobl. Cyhoeddwyd y mesurau hynny gan y Llywodraeth ar 21 Mai. Nid wyf yn arbenigwr yn y maes hwn ond credaf fod rhaid inni sicrhau bod gan y Cynulliad yr wybodaeth orau posibl, o ystyried ei gyfrifoldebau, a'i fod yn ymwybodol o unrhyw ofnau a sylwadau beirniadol ond ei fod hefyd yn edrych yn ofalus ar y terfynau a osodwyd mewn deddfwriaeth Ewropeaidd a chytundebau masnach rhyngwladol. Fe gawn ein cynghori gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar ollyngiadau i'r amgylchedd, a phwyllgorau arbenigol perthnasol eraill, yn yr un modd ag adrannau Llywodraeth ganol. Fe gaiff y Cynulliad y cyngor proffesiynol er mwyn trafod a dyfarnu.

**Rhodri Glyn Thomas:** I raised this question last week when discussing the need to control the crops grown, and suggested that the Assembly could follow the lead of the Scottish Parliament, where consideration is given to consensual schemes. That is, consent would need to be given before the crops could be grown. This ties in with the point John raised about how these crops can contaminate other crops grown in nearby fields.

A fyddai'n cytuno y gallai'r Cynulliad gael cynllun o labelu bwyd a dyfir ac a ddosbarthir yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gwbl glir ynglŷn â'r cynnyrch hwn?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Deyrnas Unedig yn dal i roi pwysau ar Ewrop i gael mwy o weithredu angenrheidiol ar labelu bwyd. Cafwyd gweithredu mewn perthynas â bwytai, er enghraifft, ar ôl i'r DU gymryd y cyfrifoldeb. Rhaid sicrhau ein bod yn gweithredu mewn partneriaeth â'r Llywodraeth, sydd yn ceisio ymdrin â'r ffordd y gwneir penderfyniadau ar y materion hyn yn Ewrop.

**Christine Humphreys:** Like the two previous speakers, I share the concerns of many people about the unanswered question of the effect of cross-pollination of GM and ordinary crops in field tests. Could the First Secretary indicate the number of sites in Wales where GM crops are undergoing field tests?

**The First Secretary:** There are no GM crops being grown in Wales and no applications under consideration to release GMOs at specific sites in Wales. I understand your concerns. That is as reassuring as I can be.

2:18 p.m.

### **Polisi Ynni Strategol Strategic Energy Policy**

**Q5 Peter Black:** What steps are being taken to develop a strategic energy policy for Wales? (QAQ146VB)

**The First Secretary:** Energy policy remains a matter for the UK Government because it is not a devolved matter. We have strong interests in energy developments, especially in respect of their economic opportunities, environmental impacts and planning aspects. The Assembly may wish to consider

Would he agree that the Assembly could have a scheme to label food grown and distributed in Wales, to ensure that the public is completely clear about these products?

**The First Secretary:** The UK continues to press Europe for more essential action on food labelling. Some action was taken in relation to restaurants, for example, after the UK took responsibility for the situation. We must ensure that we work in partnership with the Government, which is endeavouring to address the way in which decisions on these issues are made in Europe.

**Christine Humphreys:** Fel y ddau siaradwr diwethaf, yr wyf yn rhannu'r pryderon sydd gan lawer o bobl ynghylch y cwestiwn anatebedig am effaith croesbeillio rhwng cynydau a addaswyd yn enetig a rhai cyffredin. A oes modd i'r Prif Ysgrifennydd nodi nifer y safleoedd yng Nghymru lle y mae profion maes ar gnydau a addaswyd yn enetig?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid oes unrhyw gnydau a addaswyd yn enetig yn cael eu tyfu yng Nghymru ac nid oes unrhyw geisiadau o dan ystyriaeth i ryddhau GMOs mewn safleoedd penodol yng Nghymru. Yr wyf yn deall eich pryderon. Dyna faint y sicrwydd y gallaf ei roi i chi.

**C5 Peter Black:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddatblygu polisi ynni strategol ar gyfer Cymru? (QAQ146VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae polisi ynni yn dal yn fater i Lywodraeth y DU am nad yw'n fater a ddatganolwyd. Mae gennym ddiddordebau cryf mewn datblygiadau ynni, yn enwedig mewn perthynas â'u cyfleoedd economaidd, eu heffeithiau amgylcheddol a'u hagweddau cynllunio. Efallai y bydd y

developing a strategic framework for energy developments in Wales. I expect the consultation on the national development strategy will give us the opportunity to explore some of the associated issues.

**Peter Black:** I welcome the First Secretary's response. When we come to contribute to the energy strategy, what role will renewable energy be playing in that contribution?

**The First Secretary:** Renewable energy is something that everybody is happy to support in theory. It will be helpful if the Assembly looks at this issue, as it will inform what we do in terms of industrial policy and planning applications. The general principle is that renewable energy should be used as much as possible. Questions were asked about the use of fast growing wood and the burning of it. These are matters that we need to address but I do not think that there is a simple answer.

**Janet Davies:** Alun Michael suggested that there are always protests when new proposals for any form of energy production arise. Does he recognise a need for widespread public consultation in the development of such a strategy, so that people understand the energy requirements and the options that may be available in our pursuit of energy production?

**The First Secretary:** That is a very good point because the word 'consultation' is sometimes understood as asking for people's comments and then doing what you intended anyway. It is important that this Assembly demonstrates that we are capable of properly dealing with consultation. The way to do that is not just to deal with things when there is a crisis but to try to develop long-term strategies. That is an area where the environmental reports that I referred to earlier are important. They take work from environmental agencies, showing what has gone on over years, to demonstrate trends and to show improvements and deterioration. The Assembly can then be well informed. I

Cynulliad yn dymuno ystyried datblygu fframwaith strategol ar gyfer datblygiadau ynni yng Nghymru. Rhagwelaf y bydd yr ymgynghoriad ar y strategaeth datblygu genedlaethol yn rhoi cyfle inni edrych ar rai o'r materion cysylltiedig.

**Peter Black:** Yr wyf yn croesawu ymateb y Prif Ysgrifennydd. Pan ddaw'n amser inni gyfrannu at y strategaeth ynni, pa rôl fydd ar gyfer ynni adnewyddadwy yn y cyfraniad hwnnw?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae ynni adnewyddadwy yn rhywbeth y mae pawb yn falch o'i gefnogi mewn damcaniaeth. Bydd o gymorth os bydd y Cynulliad yn ystyried y mater hwn, oherwydd bydd yn goleuo'r hyn a wnawn o ran polisi diwydiannol a cheisiadau cynllunio. Yr egwyddor gyffredinol yw y dylid defnyddio ynni adnewyddadwy i'r graddau mwyaf posibl. Gofynnwyd cwestiynau am ddefnyddio coed sy'n tyfu'n gyflym a'i losgi. Mae'r rhain yn faterion y bydd raid inni ymdrin â hwy ond nid wyf yn credu bod ateb syml.

**Janet Davies:** Fe awgrymodd Alun Michael fod protestiadau bob amser pan fydd cynigion newydd am unrhyw ffurf ar gynhyrchu ynni yn codi. A yw'n gweld angen am ymgynghori eang â'r cyhoedd wrth ddatblygu strategaeth o'r fath, fel y bydd pobl yn deall yr anghenion am ynni a'r dewisiadau a allai fod ar gael wrth inni ymchwilio i ddulliau cynhyrchu ynni?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae hynny'n bwynt da iawn oherwydd yr ystyr a roddir i'r gair 'ymgynghori' weithiau yw gofyn am sylwadau pobl ac wedyn gwneud yr hyn yr oeddech yn ei fwriadu beth bynnag. Mae'n bwysig i'r Cynulliad hwn ddangos ein bod yn gallu ymdrin ag ymgynghori yn briodol. Y ffordd i wneud hynny yw peidio ag ymdrin â phethau dim ond pan fydd argyfwng ond ceisio datblygu strategaethau tymor-hir. Mae hynny'n faes lle y mae'r adroddiadau amgylchedd y cyfeiriais atynt gynnu yn bwysig. Maent yn dyfynnu o waith gan asiantaethau amgylcheddol, gan ddangos yr hyn a ddigwyddodd dros y blynyddoedd, er mwyn dangos tueddiadau a dangos

think that applies in the field of energy use as well.

gwelliannau a dirywiad. Gall y Cynulliad wedyn gael gwybodaeth lawn am hynny. Credaf fod hynny'n wir ym maes defnydd ynni hefyd.

### **Datganiad Busnes Business Statement**

**The Business Secretary (Andrew Davies):** The details of the next three weeks of business and Plenary is on the Chamberweb. Attention is drawn to the following additional items of business that were agreed in Business Committee this morning.

**Y Trefnydd (Andrew Davies):** Mae manylion busnes a Sesiynau Llawn y tair wythnos nesaf ar We'r Siambr. Tynnir eich sylw at yr eitemau busnes ychwanegol a ganlyn a gytunwyd yn y Pwyllgor Busnes fore heddiw.

On Wednesday the Secretary for Health and Social Services, Jane Hutt, will make a statement on the E-Coli outbreak in north Wales and this will be followed by a short debate.

Ddydd Mercher bydd yr Ysgrifennydd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Jane Hutt yn gwneud datganiad am y digwyddiad o E-Coli yng ngogledd Cymru a bydd dadl fer ar ôl hynny.

On Tuesday 29 June the First Secretary will make a statement on delegated functions, in response to the amendment to last week's document by John Marek. The Health Bill has completed its final Parliamentary stage and we have therefore scheduled a motion to delegate the functions set out in the Health Bill. This will be followed by a debate on social exclusion.

Ddydd Mawrth 29 Mehefin bydd y Prif Ysgrifennydd yn gwneud datganiad ar swyddogaethau a ddirprwyir, mewn ymateb i welliant i ddogfen yr wythnos diwethaf gan John Marek. Mae'r Mesur Iechyd wedi cwblhau ei gwrs drwy'r Senedd ac yr ydym felly wedi amserlennu cynnig i ddirprwyo'r swyddogaethau a restrir yn y Mesur Iechyd. Ar ôl hynny bydd dadl fer ar eithrio cymdeithasol.

On Tuesday 6 July, there will be an opportunity to discuss the recommendations and reports of the Welsh Affairs Select Committee and Childcare Services in Wales. The Welsh Affairs Select Committee was in this building yesterday presenting its report. We had a fruitful discussion with Committee Members, one that we hope to develop.

Ddydd Mawrth 6 Gorffennaf, bydd cyfle i drafod argymhellion ac adroddiadau'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar Wasanaethau Gofal Plant yng Nghymru. Yr oedd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn yr adeilad hwn ddoe yn cyflwyno ei adroddiad. Cawsom drafodaeth fuddiol gydag Aelodau'r Pwyllgor, ac un yr ydym yn gobeithio ei datblygu.

Finally, oral questions. Assembly questions will be taken next Wednesday by Peter Law, the Secretary for the Environment and Local Government. Arrangements will be made after Plenary today to place a copy of this statement on both the internet and the intranet.

Yn olaf, cwestiynau llafar. Derbynnir cwestiynau'r Cynulliad ddydd Mercher nesaf gan Peter Law, Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol. Gwneir trefniadau ar ôl y Sesiwn Llawn heddiw i roi copi o'r datganiad hwn ar y rhyngwrdd ac ar y fewnwrdd.

*Business Statement adopted.*

*Derbyniwyd y Datganiad Busnes.*

## **Datganiad Cyllid Finance Statement**

**The Finance Secretary (Edwina Hart):** I would like to make a statement on the arrangements of this year's budget planning round. These are in accordance with Standing Order No. 19 on finance procedures. I also want to share with Members my intention to prepare a strategic plan for the Assembly and my initial thoughts on delivering effective and efficient services.

Later this week I shall write to the Subject Committees, the Regional Committees and the Partnership Council inviting their views and priorities on the Assembly's expenditure for the next three years.

I intend, with the First Secretary and my Cabinet colleagues, to extend the discussion wider than the Assembly and to hear the views of other organisations in Wales. Building on the practice of the Welsh Office in the last two years, I will shortly issue a consultation paper to invite the opinions of our partners in Wales about priorities. It will be for the subject Committees to consider these views when putting forward their priorities.

Following consultation with my Cabinet colleagues during early autumn, I shall present a preliminary draft budget in October or early November for the Assembly's consideration. However, it would be remiss of me not to take this opportunity to spell out a few facts that Members, committees and our partners will need to bear in mind when considering the budget for the next three years.

This budgeting round cannot operate in a vacuum. In his statement last week, the First Secretary set out our values and priorities. These are the first steps towards establishing a robust corporate planning system for the Assembly.

The primary role of the Assembly must be to

**Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart):** Hoffwn wneud datganiad ar y trefniadau ar gyfer y rownd cynllunio cyllidebau eleni. Mae'r rhain yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 19 ar weithdrefnau cyllid. Yr wyf hefyd am roi gwybod i'r Aelodau am fy mwriad i baratoi cynllun strategol ar gyfer y Cynulliad a'm barn gychwynnol ar gyflenwi gwasanaethau effeithiol ac effeithlon.

Yn ddiweddarach yr wythnos hon byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgorau Pwnc, y Pwyllgorau Rhanbarthol a'r Cyngor Partneriaeth i ofyn am eu barn a'u blaenoriaethau ynghylch gwariant y Cynulliad ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Fy mwriad, gyda'r Prif Ysgrifennydd a'm cydweithwyr yn y Cabinet, yw ymestyn y drafodaeth ymhellach na'r Cynulliad a chlywed barn cyrff eraill yng Nghymru. Gan adeiladu ar sail ymarfer y Swyddfa Gymreig yn y ddwy flynedd diwethaf, cyn hir byddaf yn cyhoeddi dogfen ymgynghorol i ofyn barn ein partneriaid yng Nghymru am flaenoriaethau. Lle'r Pwyllgorau pwnc fydd ystyried y safbwyntiau hyn wrth gyflwyno eu blaenoriaethau.

Ar ôl ymgynghori â'm cyd-weithwyr yn y Cabinet yn ystod dechrau'r hydref, byddaf yn cyflwyno cyllideb ddrafft ragarweiniol ym mis Hydref neu yn gynnar yn Nhachwedd i'w hystyried gan y Cynulliad. Fodd bynnag, byddwn ar fai pe na bawn yn manteisio ar y cyfle hwn i egluro ychydig o ffeithiau y bydd raid i'r Aelodau, y pwyllgorau a'n partneriaid eu cofio wrth ystyried y gyllideb ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Nid oes modd i'r rownd pennu cyllideb hon ddigwydd mewn gwagle. Yn ei ddatganiad yr wythnos diwethaf, fe gyflwynodd y Prif Ysgrifennydd ein gwerthoedd a'n blaenoriaethau. Y rhain yw'r camau cyntaf tuag at sefydlu system cynllunio corfforaethol gadarn i'r Cynulliad.

Prif rôl y Cynulliad o reidrwydd fydd gosod

set out the overall framework which, in the main, others deliver at a local level. This implies that there is a clear understanding about the Assembly's strategic priorities over the coming years and how we will implement these priorities. The Assembly cannot do everything itself, nor should it. The political, economic and social environment is far too complex and the interactions too numerous for a command-and-control approach. We need the vibrancy and experience of the other players in Wales to make policies work, but we do have a responsibility to set a clear direction within which others can work. We cannot develop policies without a clear established framework [*Interruption.*]

Can that mobile phone be switched off please? It is very distracting.

**The Presiding Officer:** Mobile phones are out of order in this Chamber.

**Edwina Hart:** We need to challenge the policies regularly to ensure that they are delivering our objectives because only then can we be confident that we are on the right track.

We intend to produce a strategic plan for the Assembly. This will set out our main objectives and targets for the next few years and how we intend to achieve them.

It is important that we seek to develop the plans by consensus. I want to emphasise the word consensus. We need to feel ownership of the plan and to begin this process the consultation paper that I mentioned earlier, will not only cover our priorities for the next few years, but also our objectives for the next three to five years. We want to know what people want to achieve through the Assembly and how they are going to contribute towards those aims. The responses will inform not only this year's budgetary process but also the final strategic plan that we intend to publish next year.

y fframwaith cyffredinol lle y gall eraill, gan mwyaf, gyflawni ar lefel leol. Mae hyn yn golygu y bydd dealltwriaeth eglur ynghylch blaenoriaethau strategol y Cynulliad dros y blynyddoedd sydd i ddod a'r modd y byddwn yn gweithredu'r blaenoriaethau hyn. Ni all y Cynulliad wneud pob dim ei hun, ac ni ddylai wneud. Mae'r amgylchedd gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol yn rhy gymhleth o lawer a'r rhyngweithrediadau'n rhy niferus ar gyfer dull gweithredu gorchymyn-a-rheoli. Mae arnom angen bywiogrwydd a phrofiad y cyfranwyr eraill yng Nghymru i sicrhau bod polisiau'n gweithio, ond mae arnom gyfrifoldeb i bennu cyfeiriad eglur lle y gall eraill weithio. Ni allwn ddatblygu polisiau heb fframwaith sefydledig eglur [*Torrwyd ar draws.*]

A oes modd diffodd y ffôn symudol yna, os gwelwch yn dda? Mae'n tynnu sylw'n arw.

**Y Llywydd:** Nid yw ffonau symudol yn dderbyniol yn y Siambr hon.

**Edwina Hart:** Mae angen inni herio'r polisiau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cyflenwi ein blaenoriaethau oherwydd dim ond bryd hynny y gallwn fod yn hyderus ein bod ar y llwybr cywir.

Bwriadwn gynhyrchu cynllun strategol ar gyfer y Cynulliad. Bydd hwnnw'n nodi ein prif amcanion a thargedau ar gyfer y blynyddoedd nesaf hyn a'r modd y bwriadwn eu cyflawni.

Mae'n bwysig inni geisio datblygu'r cynlluniau drwy gonsensws. Yr wyf am bwysleisio'r gair consensws. Mae angen inni deimlo mai'n heiddo ni yw'r cynllun ac er mwyn dechrau'r broses hon bydd y ddogfen ymgynghorol a grybwyllais gynnau yn cynnwys nid yn unig ein blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd nesaf hyn, ond hefyd ein hamcanion ar gyfer y tair i bum mlynedd nesaf. Yr ydym am wybod beth y mae pobl am ei gyflawni drwy'r Cynulliad a sut y byddant yn cyfrannu at y nodau hynny. Bydd yr ymatebion yn goleuo'r broses pennu cyllidebau eleni a hefyd y cynllun strategol terfynol y bwriadwn ei gyhoeddi y flwyddyn nesaf.

The First Secretary has emphasised the need to use the strategic plan to ensure that all programmes and policies work together. We need to get away from the traditional functional boundaries where these impede the delivery of services or result in inefficiency. This will involve new ways of working and I hope we can look at this aspect in developing our policies over the next month.

The plan will provide a structure within which the annual budgeting round will take place, and place a discipline on those discussions. This brings me to the reality facing us in the coming budget round. The total Welsh budget was fixed in last year's comprehensive spending review. It will next be reviewed in the comprehensive spending review scheduled for the year 2000. This means that we know where we are next year. Indicative baselines for 2000 to 2001 and 2001 to 2002 were issued last December. I do not think that this information will surprise many in this Chamber. There are no spare resources available within the total budget to supplement these baselines. We also need to keep in mind that, as spending in Wales per head is 18 per cent higher than in England, the Barnett Formula—which is based on a population share rather than on an assessment of needs—means that spending in Wales will converge over time with English levels. As I said in the Devolution White Paper, Barnett will remain the basis on which changes to the Welsh budget are calculated and there are no plans to alter the arrangements. Nevertheless, we shall need to keep the basis on which funding is allocated in Wales under review.

2:28 p.m.

It follows that any additional funds to some programmes can only be met by offsetting savings elsewhere. The Transfer of Functions Order does not allow me or the Assembly to manufacture pound notes or even euros, so

Mae'r Prif Ysgrifennydd wedi pwysleisio'r angen i ddefnyddio'r cynllun strategol i sicrhau y bydd yr holl raglenni a pholisïau'n gweithio gyda'i gilydd. Rhaid inni symud oddi wrth y ffiniau swyddogaethol traddodiadol lle y mae'r rhain yn llesteirio cyflenwi gwasanaethau neu'n arwain at aneffeithlonrwydd. Bydd hyn yn cynnwys dulliau gweithio newydd a gobeithio y gallwn edrych ar yr agwedd hon wrth ddatblygu ein polisïau dros y mis nesaf.

Bydd y cynllun yn darparu fframwaith lle y bydd y rownd pennu cyllidebau flynyddol yn digwydd, ac yn cadw trefn ar y trafodaethau hynny. Mae hynny'n dod â mi at y realiti sy'n ein hwynebu yn y rownd pennu cyllidebau sydd ar ddod. Fe bennwyd cyllideb gyfan Cymru yn yr adolygiad cynhwysfawr ar wariant llynedd. Fe'i hadolygir nesaf yn yr adolygiad cynhwysfawr ar wariant a amserlennwyd ar gyfer y flwyddyn 2000. Mae hyn yn golygu ein bod yn gwybod beth fydd ein sefyllfa y flwyddyn nesaf. Fe gyhoeddwyd lefelau isaf dangosol ar gyfer 2000 i 2001 a 2001 i 2002 fis Rhagfyr diwethaf. Ni chredaf y bydd yr wybodaeth hon yn peri syndod i lawer yn y Siambr hon. Nid oes unrhyw adnoddau dros ben ar gael o fewn y gyllideb gyfan i'w hychwanegu at y lefelau isaf hyn. Rhaid inni hefyd gofio, gan fod gwariant y pen yng Nghymru yn 18 y cant yn uwch nag yn Lloegr, fod Fformiwla Barnett—sy'n seiliedig ar gyfrannau o'r boblogaeth yn hytrach nag ar asesiad o anghenion—yn golygu y bydd gwariant yng Nghymru yn cydgyfarfod ymhen amser â'r lefelau yn Lloegr. Fel y dywedais yn y Papur Gwyn ar Ddatganoli, bydd Barnett yn parhau i fod yn sail ar gyfer cyfrifo newidiadau yng nghyllideb Cymru ac nid oes bwriad i newid y trefniadau. Er hynny, bydd raid inni barhau i adolygu'r sail ar gyfer dyrannu cyllid yng Nghymru.

Mae'n dilyn o hynny na ellir cael unrhyw gyllid ychwanegol i rai rhaglenni heblaw drwy sicrhau arbedion i'w gydbwysu mewn mannau eraill. Nid yw'r Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau yn caniatáu i



we must ensure that the ones we have are used to the best effect for the people of Wales.

This brings me to my final scheme, good government, which was one of the values stated by the First Secretary last week. One of our main goals must be to ensure that the people of Wales get the services they deserve, the best possible services. To do that, we must ensure that every one of those scarce pound notes is made to work as hard as possible and that we use them to make the difference. I want to see value for money demonstrated in all policies and programmes which the Assembly promotes, and in the way in which the Assembly and its partners—the quangos, the local authorities and the voluntary sector—work to a common agenda.

Ninety per cent of the Assembly's resources go to other bodies. The only way we can make progress in Wales is through all the agencies working alongside each other, bringing both rigour and imagination to the challenges that we collectively face. We must test our spending against priorities. We must test our policies against the impact we want to make. We must ensure that our policy-making is of the highest quality, based on good evidence and analysis, and clear in what it is trying to achieve. We must look hard at our schemes and test them against the need to simplify where possible and ensure value for money. Above all, we must focus on the outputs of our policies, while being aware of the inputs. Only then can we be satisfied that our policies are producing the benefits that we want as an Assembly for Wales.

We must also look hard at public administration in Wales itself, streamlining organisations, including the Assembly itself, to ensure that quality of services, and the efficiency by which they are delivered, are second to none. Good government means effective and efficient government, and we

mi nac i'r Cynulliad gynhyrchu papurau punt nac ewros hyd yn oed, felly rhaid inni sicrhau y caiff y rhai sydd gennym eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol er mwyn pobl Cymru.

Mae hynny'n dod â mi at y cynllun olaf sydd gennyf, sef llywodraeth dda, oedd yn un o'r gwerthoedd a ddatganwyd gan y Prif Ysgrifennydd yr wythnos diwethaf. Un o'r nodau y bydd raid inni wrthynt yw sicrhau y caiff pobl Cymru y gwasanaethau y maent yn eu haeddu, y gwasanaethau gorau posibl. I wneud hynny, rhaid inni sicrhau bod pob un o'r papurau punt prin hynny yn cael ei roi ar waith i'r eithaf a'n bod yn eu defnyddio i wneud gwahaniaeth. Yr wyf am weld gwerth am arian yn cael ei brofi ym mhob polisi a rhaglen a hybir gan y Cynulliad, ac yn y modd y bydd y Cynulliad a'i bartneriaid—y cwangos, yr awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol—yn gweithio yn ôl agenda cyffredin.

Mae naw deg y cant o adnoddau'r Cynulliad yn mynd at gyrff eraill. Yr unig fodd y gallwn sicrhau cynnydd yng Nghymru yw drwy gael yr holl asiantaethau i weithio ochr yn ochr â'i gilydd, gan ddod â chadernid a dychymyg at y sialensau a wynebwn gyda'n gilydd. Rhaid inni brofi ein gwariant yn ôl blaenoriaethau. Rhaid inni brofi ein polisiau yn ôl yr effaith yr ydym am ei gweld. Rhaid inni sicrhau bod ein gwaith llunio polisiau o'r ansawdd uchaf, yn seiliedig ar dystiolaeth a dadansoddi da, yn glir ynghylch yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni. Rhaid inni edrych yn fanwl ar ein cynlluniau a'u profi yn ôl yr angen i symleiddio lle y bo modd a sicrhau gwerth am arian. Uwchlaw popeth, rhaid inni ganolbwyntio ar allbynnau ein polisiau, gan fod yn ymwybodol o'r mewnbynnau. Dim ond bryd hynny y gallwn fod yn sicr bod ein polisiau'n creu'r enillion yr ydym am eu gweld fel Cynulliad dros Gymru.

Rhaid inni hefyd edrych yn ofalus ar weinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru ei hun, gan symleiddio sefydliadau, gan gynnwys y Cynulliad ei hun, er mwyn sicrhau rhagoriaeth yn ansawdd y gwasanaethau, a'r effeithlonrwydd wrth eu cyflenwi. Mae llywodraeth dda yn golygu

must never lose sight of this.

I leave you with three key messages. We need to agree our strategic vision for the Assembly. We intend to do this by bringing it all together in strategic plans which will guide our policies and those of our partners for the future. Any shift in resources into one sector will be at the expense of another during the coming year. We all bear collective responsibility to secure value for money in all that we do.

**Dafydd Wigley:** May I ask for some clarification on one or two aspects of what you have just said, Edwina? First, as 90 per cent of the money that we deal with goes on to other agencies outside this Assembly for the application of the funds, would you accept that it underlines the need for a very strong audit function and for the Audit Committee of this Assembly to look at the way in which that money is used by those to whom we transfer the money. It is not enough to look at the use of the money within this Assembly; we also need to ensure that it is being properly used outside. Secondly, you referred to the Barnett Formula. Would you accept that the Barnett Formula, when it was established in 1978, took the position as it then was in the relationship between England and Wales? Would you accept also that the increases in the block grant for Wales in the years since have been proportionate to the increase in England, but have not made any adjustment whatsoever to the change in circumstances between Wales and England? To that extent, there is a need to revisit the Barnett Formula to make sure that we are getting what is necessary, on an objective basis, to meet our needs. Finally, would you accept that, in recognising that there is a limit on the amount of money available for the work of any Committee within this Assembly, that there may be strategic options that have to be made between the resources that go to one Committee and another? What do you see as the mechanism whereby an all-party inclusive approach can be taken to that strategic question, as no committee exists to

llywodraeth effeithiol ac effeithlon, ac ni ddylem byth golli golwg ar hynny.

Mae gennyf dair neges wrth orffen. Mae angen inni gytuno ar ein gweledigaeth strategol ar gyfer y Cynulliad. Bwriadwn wneud hynny drwy ddod â'r cyfan at ei gilydd mewn cynlluniau strategol a fydd yn llywio ein polisiau ni a rhai ein partneriaid i'r dyfodol. Bydd unrhyw symud ar adnoddau i un sector yn digwydd ar draul un arall yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Mae arnom oll gydgysfrifoldeb i sicrhau gwerth am arian ym mhob dim a wnawn.

**Dafydd Wigley:** A allwn ofyn am rywffaint o eglurhad ar un neu ddwy agwedd ar yr hyn yr ydych newydd ei ddweud, Edwina? Yn gyntaf, gan fod 90 y cant o'r arian a drafodir gennym yn mynd ymlaen at asiantaethau eraill y tu allan i'r Cynulliad hwn er mwyn defnyddio'r cyllid, a fydddech yn derbyn bod hynny'n tanlinellu'r angen am swyddogaeth archwilio gryf iawn a'r angen i'r Pwyllgor Archwilio a'r Cynulliad hwn edrych ar y modd y defnyddir yr arian hwnnw gan y rhai y byddwn yn trosglwyddo'r arian iddynt. Nid yw'n ddigon ond i edrych ar y defnydd ar yr arian o fewn y Cynulliad hwn; mae angen inni hefyd sicrhau y caiff ei ddefnyddio'n briodol y tu allan. Yn ail, yr oeddech wedi cyfeirio at Fformiwla Barnett. A fydddech yn derbyn bod Fformiwla Barnett, pryd y'i sefydlwyd yn 1978, yn cymryd y sefyllfa fel yr oedd bryd hynny yn y berthynas rhwng Cymru a Lloegr? A fydddech hefyd yn derbyn bod y codiadau yn y bloc grant i Gymru yn y blynyddoedd ers hynny wedi bod yn gymesur â'r cynnydd yn Lloegr, ond heb eu cymhwyso o gwbl at y newid yn yr amgylchiadau rhwng Cymru a Lloegr? I'r graddau hynny, mae angen inni ailsytyried Fformiwla Barnett er mwyn sicrhau ein bod yn derbyn yr hyn sy'n angenrheidiol, ar sail gwrthrychol, i ateb ein hanghenion. Yn olaf, a fydddech yn derbyn, o gydnabod bod terfyn ar faint yr arian sydd ar gael i waith unrhyw Bwyllgor o fewn y Cynulliad hwn, y bydd raid o bosibl ffurfio dewisiadau strategol rhwng yr adnoddau sy'n mynd i un Pwyllgor neu'r llall? Beth a ystyriwch fydd y mecanwaith ar gyfer dull gweithredu cynhwysol rhwng yr holl bleidiau ar y

deal with it.

**Edwina Hart:** If I can deal first with the very important role of the Audit Committee in this. The Audit Committee will have a key role, looking not only at what may have happened but also at the best practice for the future. I have had initial discussions with the proposed Chair of Audit, and I have also had the opportunity of meeting other people involved with the Audit Commission and the National Audit Office. I think it is important that the relationship continues. I see audit as a very valuable role for us in terms of the lessons that can be learned and the inquiries that can be made. With regard to the Barnett Formula, I think that we have to accept that changes to the Welsh budget are determined by the Barnett Formula, which of course is based on population. It does not take into account the relative needs of Wales. As Government spending per head in Wales is higher than in England, the formula will, over time, result in a necessary convergence. I mentioned the commitment expressed in the Devolution White Paper to continue to use the formula. I believe that I said that we need to keep the basis for allocating funds in Wales under review. The Assembly must keep it under review. However, we must get this first budgeting process out of the way. We will then see how money and funds work.

I think it is important that the budget process that I have just started, which involves discussion of strategy with Committees and then with the Assembly Secretaries, holds the key to the points that you have made about how we can deliver strategy objectives with consensus across the parties.

**Nick Bourne:** I thank Edwina Hart for setting out her initial thoughts on the budgeting process and the strategic plans for

cwestiwn strategol hwnnw, gan nad oes pwyllgor yn bodoli i ymdrin â hyn.

**Edwina Hart:** Os gallaf ymdrin yn gyntaf â rôl bwysig iawn y Pwyllgor Archwilio yn hyn o beth. Bydd gan y Pwyllgor Archwilio rôl allweddol, gan edrych nid yn unig ar yr hyn a allai fod wedi digwydd ond hefyd ar yr ymarfer gorau ar gyfer y dyfodol. Yr wyf wedi cael trafodaethau dechreuol â Chadeirydd bwriedig y Pwyllgor Archwilio, ac wedi cael cyfle hefyd i gyfarfod â phobl eraill sy'n ymwneud â'r Comisiwn Archwilio a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Credaf ei bod yn bwysig i'r berthynas barhau. Fe welaf archwilio fel rôl werthfawr iawn i ni o ran y gwersi y gellir eu dysgu a'r ymholiadau y gellir eu gwneud. Gyda golwg ar Fformiwla Barnett, credaf fod rhaid inni dderbyn bod newidiadau yng nghyllideb Cymru yn cael eu penderfynu drwy Fformiwla Barnett, sydd yn seiliedig ar boblogaeth wrth gwrs. Nid yw'n cymryd i ystyriaeth anghenion cymharol Cymru. Gan fod gwariant y pen y llywodraeth yng Nghymru yn uwch nag ydyw yn Lloegr, fe fydd y fformiwla, dros amser, yn arwain o reidrwydd at gydgyfarfod. Yr oeddwn wedi crybwyll yr ymrwymiad a fynegwyd yn y Papur Gwyn ar Ddatganoli i barhau i ddefnyddio'r fformiwla. Yr wyf yn credu imi ddweud bod angen inni barhau i adolygu'r sail ar gyfer dyrannu cyllid yng Nghymru. Bydd raid i'r Cynulliad barhau i'w adolygu. Fodd bynnag, rhaid inni gwblhau'r broses pennu cyllidebau gyntaf hon. Wedyn gallwn weld sut y mae'r arian a'r cronfeydd yn gweithio.

Credaf ei bod yn bwysig gweld mai'r broses gyllideb yr wyf newydd ei dechrau, sy'n golygu trafod strategaeth gyda Phwyllgorau ac wedyn gydag Ysgrifenyddion y Cynulliad, yw'r ateb i'r pwyntiau a wnaethoch ynghylch y modd y gallwn gyflawni amcanion y strategaeth drwy gonsensws ar draws y pleidiau.

**Nick Bourne:** Diolchaf i Edwina Hart am gyflwyno ei syniadau cychwynnol ar y broses pennu cyllidebau a'r cynlluniau strategol ar

the next three to five years. We certainly welcome extensive consultation within this Assembly and outside it on priorities. Clearly, there are no shortage of priorities. There is, however, a shortage of resources. I would like to press Edwina on four or five questions. The first is a precise date or an indication of when the strategic plan will be published. Secondly, to take up Dafydd's point about the Barnett Formula, can she give some reassurance that the Barnett Formula will continue to apply, because of course the convergence means less money for Wales? Thirdly, on the EU funding position, is it intended within the three to five year period that there should be any top slicing of budgets for match fund purposes? Fourthly, can she say something about any savings that have been made through reform and abolition of the quangos? I know there was much talk of this, and any additional resource from it could of course be used elsewhere. Fifthly, will she accept the necessity of a cap on the figures set out in the Government's White Paper on the revenue and capital costs of running the Assembly. That cap would be a reassurance that the administrative and bureaucratic costs that one accepts are necessary for running the Assembly would be that finite amount, and there would be no dipping into other budgets.

**Edwina Hart:** I will try to answer your questions in reverse order. I am quite content about the arrangements that have been made for the Assembly budget. I am aware of the responsibility to ensure that the Assembly budget remains in order, and that is as far as I am prepared to be drawn at present. However, I assure you that, as Finance Secretary, I am interested in what happens in all budgets, and any likelihood of overspend. I will certainly keep everything under review.

On your point of savings from the quangos, you are aware that several quangos have been wound up. Tai Cymru has been brought back into the department, the Development Board

gyfer y tair i bum mlynedd nesaf. Yr ydym yn sicr yn croesawu ymgynghori helaeth o fewn y Cynulliad hwn a'r tu allan ar flaenoriaethau. Mae'n amlwg nad oes prinder blaenoriaethau. Fodd bynnag, mae yna brinder adnoddau. Hoffwn bwysu am ateb gan Edwina i bedwar neu bump o gwestiynau. Y cyntaf yw union ddyddiad neu awgrym ynghylch pa bryd y cyhoeddir y cynllun strategol. Yn ail, gan ddilyn pwynt Dafydd ynghylch Fformiwla Barnett, a yw'n gallu rhoi rhywfaint o sicrwydd y bydd Fformiwla Barnett yn dal i gael ei defnyddio, am fod y cydgyfarfod wrth gwrs yn golygu llai o arian i Gymru? Yn drydydd, ynghylch sefyllfa ariannu'r UE, a oes bwriad i gymryd tafelli uchaf o gyllidebau o fewn y cyfnod tair i bum mlynedd i ddibenion arian cyfatebol? Yn bedwerydd, a oes modd iddi ddweud rhywbeth am unrhyw arbedion a wnaethant drwy ddiwygio a dileu'r cwangos? Yr wyf yn gwybod bod llawer o sôn am hynny, ac wrth gwrs fe ellid defnyddio unrhyw adnoddau ychwanegol oddi wrth hynny mewn manau eraill. Yn bumed, a yw'n fodlon derbyn y rheidrwydd i bennu uchafswm i'r ffigurau a nodir ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth ar gostau refeniw a chyfalaf rhedeg y Cynulliad. Byddai uchafswm o'r fath yn rhoi sicrwydd mai dyna fyddai maint cyfyngedig y costau gweinyddol a biwrocraataidd y derbynnir eu bod yn angenrheidiol i redeg y Cynulliad, ac na fyddai arian yn mynd o gyllidebau eraill.

**Edwina Hart:** Fe geisiaf ateb eich cwestiynau yn y drefn wrthol. Yr wyf yn eithaf bodlon ynghylch y trefniadau a wnaed ar gyfer cyllideb y Cynulliad. Yr wyf yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb i sicrhau y bydd cyllideb y Cynulliad yn aros mewn trefn, ac nid wyf yn barod i ddweud mwy na hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, fe allaf eich sicrhau fy mod, fel Ysgrifennydd Cyllid, yn ymddiddori yn yr hyn sy'n digwydd ym mhob cyllideb, ac mewn unrhyw debygolrwydd o orwario. Byddaf yn sicr o gadw popeth dan sylw.

Ynglŷn â'ch pwynt am arbedion o'r cwangos, fe wyddoch fod sawl cwango wedi ei ddirwyn i ben. Mae Tai Cymru wedi ei wneud yn rhan o'r adran eto, mae Bwrdd

for Rural Wales and the Land Authority for Wales have been subsumed into the Welsh Development Agency and the Residuary Body for Wales, and Cardiff Bay Development Corporation is in its wind-up phase. Taking all this into account, it represents about 20 per cent of the funds spent by non-departmental government bodies in 1997-98. Of course, at the same time, we have reduced the number of Training and Enterprise Councils from six to four and have merged Health Promotion Wales and the Welsh Health Common Services Authority. I cannot be more specific about those figures. With regard to EU funding I refer you to the responses that have been given by the First Secretary. Until we have a developed strategic plan, and know how things are going to work out, and what will come out of Brussels, this is not an issue that I have actually got responsibility for at this stage. Any fundamental changes to the Barnett Formula would have to be subject of a full study of relevant spending needs, but a commitment was given in the devolution White Paper, 'A Voice for Wales'. I cannot be more specific than that about dates, but I hope it will be in the new year.

Datblygu Cymru Wledig ac Awdurdod Tir Cymru wedi eu cynnwys yn Awdurdod Datblygu Cymru a'r Corff Gweddilliol dros Gymru, ac mae Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd yn cael ei dirwyn i ben ar hyn o bryd. Gyda'i gilydd, mae hyn yn cynrychioli tua 20 y cant o'r arian a wariwyd gan gyrrff llywodraethol anadrannol yn 1997-98. Wrth gwrs, ar yr un pryd, yr ydym wedi lleihau nifer y Cynghorau Hyfforddi a Menter o chwech i bedwar ac wedi cyfuno Hybu Iechyd Cymru ac Awdurdod Gwasanaethau Cyffredin Iechyd Cymru. Ni allaf fod yn fanylach ynghylch y ffigurau hynny. Gyda golwg ar ariannu gan yr UE, yr wyf yn eich cyfeirio at yr atebion a roddwyd gan y Prif Ysgrifennydd. Hyd nes bydd gennym gynllun strategol, ac yn gwybod sut y bydd pethau'n datblygu, a beth a ddaw o Frwsel, nid yw hyn yn fater y mae gennyf gyfrifoldeb gwirioneddol amdano ar hyn o bryd. Byddai'n rhaid i unrhyw newidiadau sylfaenol yn Fformiwla Barnett fod yn ddarostyngedig i astudiaeth lawn ar yr anghenion gwariant perthnasol, ond fe roddwyd ymrwymiad yn y Papur Gwyn ar ddatganoli, 'Llais dros Gymru'. Ni allaf fod yn fanylach na hynny am ddyddiadau, ond gobeithio y bydd hynny yn y flwyddyn newydd.

2:38 p.m.

**Peter Black:** Can I support the need for a subject Committee for finance. The Audit Committee will play a very valuable role but clearly, there should be a more detailed scrutiny and an appropriate way would have been to have that subject Committee. I welcome the Finance Secretary's statement that the budget is to go out for consultation. As she stated, that happened in previous years and, having been a member of a local council which was the subject of that consultation, I am aware that once the consultation has taken place and responses gone in, some frustration was felt by local council officers and local councillors that they did not get any feedback as to the effect their responses actually had. Would she give an undertaking that once the budget process is over, she will be giving appropriate feedback to respond to that consultation, so

**Peter Black:** Hoffwn ategu'r angen am Bwyllgor pwnc ar gyfer cyllid. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn chwarae rôl werthfawr iawn ond mae'n amlwg bod angen rhoi sylw manylach a byddai sefydlu'r Pwyllgor pwnc hwnnw'n fodd priodol i wneud hynny. Yr wyf yn croesawu datganiad yr Ysgrifennydd Cyllid y bydd y gyllideb yn mynd allan ar gyfer ymgynghori. Fel y dywedodd, fe ddigwyddodd hynny mewn blynyddoedd blaenorol ac, wedi bod yn aelod o gyngor lleol oedd yn destun i'r ymgynghoriad hwnnw, yr wyf yn gwybod bod rhywfaint o rwystredigaeth ymhlith swyddogion cynghorau lleol a chynghorwyr lleol, ar ôl cwblhau'r ymgynghori a chyflwyno'r ymatebion, am nad oeddent wedi derbyn unrhyw adborth ynghylch gwir effaith eu hymatebion. A yw'n fodlon ymrwymo i roi adborth priodol, ar ôl

they can understand better the effect their responses have had on the budget process and inform them of to how they may respond better in future years.

**Edwina Hart:** Thank you very much for that contribution Peter. I know that many local authorities and other organisations were absolutely frustrated when you sent your views in and were not quite sure what happened to them. It is certainly a point that I will take on board for discussions and I will advise you about my intentions.

**Alison Halford:** Could the Secretary fully clarify the situation regarding the future of quangos: it was mentioned by Nick Bourne. The reason I ask this question is that at a recent top drawer briefing, a clear message was given that little or no change was needed to quangos. They are expensive and they were in a certain manifesto, so would it be possible that the future of the quangos be clearly shared with us.

**Edwina Hart:** I think I will have to go into a little bit of detail on this and give some background. We obviously, as an Assembly are committed to building a relationship between the Assembly and quangos on the basis of full accountability and strategic direction. All the elements of the national Government machine must be driven in the same direction. The current arrangements for monitoring quangos involves scrutiny of all their corporate plans, agreement of their targets, scrutiny of their annual accounts and audit reports and various compliance mechanisms built around the management statement and financial memorandum, which define the relationship in each Assembly sponsored public body and the Department. Of course, there are reviews ongoing all the time. I do think that it is essential that we recognise that some steps have been taken in looking at the ways in which the quangos work. I am sure that the Assembly Committees themselves will wish to discuss

cwblhau proses y gyllideb, i ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw, fel y gallant ddeall yn well yr effaith a gafodd eu hymatebion ar broses y gyllideb a rhoi gwybod iddynt sut y gallant ymateb yn well ym mlynnyddoedd y dyfodol.

**Edwina Hart:** Diolch yn fawr i chi am y cyfraniad hwnnw, Peter. Fe wn fod llawer o awdurdodau lleol a chyrrff eraill yn teimlo'n gwbl rwystredig pan oeddech yn cyflwyno'ch sylwadau a chithau heb fod yn sicr beth a ddigwyddodd iddynt. Mae'n sicr yn bwynt y byddaf yn ei gynnwys ar gyfer trafodaethau a rhoddaf wybod i chi am fy mwriad.

**Alison Halford:** A oes modd i'r Ysgrifennydd roi gwedd gwbl eglur ar y sefyllfa ynglŷn â dyfodol y cwangos: fe grybwyllwyd hyn gan Nick Bourne. Y rheswm sydd gennyf dros ofyn y cwestiwn yw bod neges eglur wedi ei rhoi mewn cyfarfod cyfarwyddo ar y lefel uchaf yn ddiweddar nad oedd angen dim neu ond ychydig o newid i'r cwangos. Maent yn ddrud ac yr oeddent yn rhan o fanifesto penodol, felly a fyddai modd dweud yn eglur wrthym beth fydd dyfodol y cwangos.

**Edwina Hart:** Credaf y bydd raid imi roi ychydig o fanylion am hyn a rhoi rhywfaint o'r cefndir. Mae'n amlwg ein bod fel Cynulliad wedi ymrwymo i adeiladu perthynas rhwng y Cynulliad a'r cwangos ar sail atebolrwydd llwyr a chyfeiriad strategol. Rhaid gyrru holl elfennau peiriant y Llywodraeth genedlaethol i un cyfeiriad. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer monitro cwangos yn cynnwys archwilio eu holl gynlluniau corfforaethol, cytuno ar eu targedau, archwilio eu cyfrifon blynyddol a'u hadroddiadau archwilio a gwahanol fecanweithiau cydymffurfio sydd wedi eu hadeiladu o gwmpas y datganiad rheoli a'r memorandwm cyllid, sy'n diffinio'r berthynas ym mhob corff cyhoeddus dan nawdd y Cynulliad a'r Adran. Wrth gwrs, mae adolygiadau'n mynd ymlaen drwy'r amser. Yr wyf yn meddwl ei bod yn hanfodol inni gydnabod bod rhai camau wedi eu cymryd wrth edrych ar y modd y bydd y cwangos yn gweithio. Yr wyf yn sicr y bydd

aspects of their work and relationships when they actually look at the role and functions of quangos. Obviously, this is an ongoing process.

**Pauline Jarman:** I declare my interest here, Presiding Officer, as a leader of a local authority which is so strapped for cash we were half tempted in the week to apply for charitable status! I was interested Edwina, to hear you plan for the next three years and concerned to learn that from the years 2000-2002 there will be no spare money. Good government, effective and efficient, is something else which we have been starved of in the authority which I now represent. Obviously a key player among those partners will be the Welsh Local Government Association, which is holding a meeting this week. Can you confirm that your statement will be made available to the WLGA, so it can provide a steer as far as the financial intentions of the Assembly are concerned?

**Edwina Hart:** Thank you for that Pauline. I was not aware that there was a meeting of the WLGA. My statement is now in the public domain if they want to avail themselves of the opportunity to read it. I believe that you have taken very much to heart value for money, best value and the way in which local authorities think about how they actually use their resources. I want to ensure that we look for best value in local government and that is my intention when we discuss these issues.

**David Melding:** Can the Secretary assure us that the capital cost of the new Assembly building will be capped at £17 million?

**Edwina Hart:** I spoke in detail about the Assembly building last week. As I pointed out there were certain changes in the budget in that they went from £17 million to £20 million in respect of the arrangements for the Assembly, including Crickhowell House and the new Assembly building. The only thing

Pwyllgorau'r Cynulliad eu hunain am drafod agweddau ar eu gwaith a'u cysylltiadau pan fyddant yn ystyried rôl a swyddogaethau cwangos. Yn amlwg, mae hyn yn broses sy'n parhau.

**Pauline Jarman:** Yr wyf yn datgan diddordeb yma, Lywydd, fel arweinydd awdurdod lleol sydd mor brin o arian fel y bu bron inni gael ein tentio yn ystod yr wythnos i ymgeisio am statws elusenol! Yr oedd yn ddiddorol imi eich clywed, Edwina, yn cynllunio ar gyfer y tair blynedd nesaf ac yr oedd yn ofid imi wybod na fydd arian dros ben o'r blynyddoedd 2000-2002 ymlaen. Mae llywodraeth dda, sy'n effeithlon ac yn effeithiol, yn rhywbeth arall y cawsom ein hamddifadu ohono yn yr awdurdod yn wyf yn ei gynrychioli yn awr. Mae'n amlwg mai un cyfrannwr allweddol ymysg yartneriaid hynny fydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sydd yn cynnal cyfarfod yr wythnos hon. A ellwch gadarnhau y bydd eich datganiad ar gael i'r Gymdeithas, fel y gall roi arwainiad o ran bwriadau ariannol y Cynulliad?

**Edwina Hart:** Diolch i chi am hynny, Pauline. Nid oeddwn yn ymwybodol bod cyfarfod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae fy natganiad bellach yn y maes cyhoeddus os ydynt am gael cyfle i'w ddarllen. Credaf eich bod yn ymboeni'n wirioneddol am werth am arian, gwerth gorau a'r modd y bydd awdurdodau lleol yn meddwl ynghylch yr union ffordd y defnyddiant eu hadnoddau. Yr wyf am sicrhau ein bod yn chwilio am werth gorau mewn llywodraeth leol a dyna fydd fy mwriad pan drafodwn y materion hyn.

**David Melding:** A oes modd i'r Ysgrifennydd roi sicrwydd i ni y pennir uchafswm o £17 miliwn ar gost cyfalaf adeilad newydd y Cynulliad?

**Edwina Hart:** Siaradais yn fanwl am adeilad y Cynulliad yr wythnos diwethaf. Fel y nodais, yr oedd rhai newidiadau yn y gyllideb i'r graddau eu bod yn codi o £17 miliwn i £20 miliwn mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer y Cynulliad gan gynnwys Tŷ Crucywel ac adeilad newydd y Cynulliad.

which I can say to you David is that it will never be my intention to go over budget.

**Helen Mary Jones:** What proposals are there to have specific budget headings for the statutory schemes which we will be promoting? My own particular interest, of course is the scheme for equal opportunities including sustainable development and the voluntary sector.

**Edwina Hart:** A number of issues arise from your point. In order to ensure good governance of budget we need to have a clearly defined budget and structures so that Assembly Secretaries and committees can function within them. It is also very important that we try to tackle the whole issue of cost cutting which is like equal opportunities, a subject of discussion. When I am in a position to do so, I or the First Secretary will make a statement about how we develop, to which you have alluded, and how we deal with them through the budget.

**Phil Williams:** Edwina, you twice stated that Government spending per head is higher in Wales. I am sure what you really meant to add was that Government spending within the area covered by the Barnett Formula is higher in Wales. Without that qualification there is a false impression because Barnett accounts for rather less than half the total Government spending per head in Wales. With all the items, except social security, that lie outside Barnett there is substantially less spending in Wales. The Ministry of Defence, for instance, probably accounts for only about a third of the capital spending and research and development about 40 per cent. In fact, if one estimated the total Government spending per head in Wales it is comparable with the level in the UK as a whole. So when you talk about convergence, is that referring only to Barnett or also to total Government expenditure? I would like to stress this point because I think a false impression is given when people keep saying that spending is higher in Wales. They should always refer to total Government spending because that means total income, total jobs, total

Yr unig beth y gallaf ei ddweud wrthyhch David yw na fydd byth yn fwriad gennyf fynd dros y gyllideb.

**Helen Mary Jones:** Pa gynigion sydd ar gyfer penawdau cyllideb penodol i'r cynlluniau statudol y byddwn yn eu hybu? Y diddordeb arbennig sydd gennyf fi, wrth gwrs, yw'r cynllun ar gyfer cyfle cyfartal gan gynnwys datblygu cynaliadwy a'r sector gwirfoddol.

**Edwina Hart:** Mae sawl mater yn codi o'r pwynt a wnaethoch. Er mwyn sicrhau rheolaeth dda ar y gyllideb bydd raid inni gael cyllideb a strwythurau a ddiffiniwyd yn eglur fel y gall Ysgrifenyddion a phwyllgorau'r Cynulliad weithredu y tu mewn iddynt. Mae hefyd yn bwysig iawn inni ymdrin â holl fater torri costau sydd, fel cyfle cyfartal, yn bwnc ar gyfer trafodaeth. Pan fyddaf mewn sefyllfa i wneud hynny, byddaf fi neu'r Prif Ysgrifennydd yn gwneud datganiad ynghylch y modd y byddwn yn datblygu, y cyfeiriasoch ato, a'r modd y byddwn yn ymdrin â hwy drwy'r gyllideb.

**Phil Williams:** Edwina, fe ddywedsoch ddwywaith fod gwariant y Llywodraeth y pen yn uwch yng Nghymru. Yr wyf yn sicr mai'r hyn yr oeddech yn bwriadu ei ychwanegu oedd bod gwariant y Llywodraeth o fewn y maes a gynhwysir yn Fformiwla Barnett yn uwch yng Nghymru. Heb yr amod hwnnw fe roddir camargraff oherwydd mae Fformiwla Barnett yn cynnwys ychydig llai na hanner cyfanswm gwariant y Llywodraeth y pen yng Nghymru. Os cynhwysir yr holl eitemau, heblaw am nawdd cymdeithasol, sydd y tu allan i Fformiwla Barnett, mae llawer llai o wariant yng Nghymru. Er enghraifft, mae'n fwy na thebyg bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cyfrif ond am un rhan o dair o'r gwariant cyfalaf ac ymchwil a datblygu am 40 y cant. Mewn gwirionedd, pe bai rhywun yn amcangyfrif cyfanswm gwariant y pen y Llywodraeth yng Nghymru, fe fyddai'n debyg i'r lefel yn y DU gyfan. Felly pan fyddwch yn sôn am gydgyfarfod, ai cyfeirio at Fformiwla Barnett yn unig yr ydych ynteu at gyfanswm gwariant y Llywodraeth hefyd? Hoffwn bwysleisio'r pwynt hwn oherwydd yr wyf yn credu y rhoddir camargraff pan



contracts, and that is the true figure.

fydd pobl yn dweud o hyd fod gwariant yn uwch yng Nghymru. Dylent gyfeirio bob amser at wariant y Llywodraeth oherwydd mae hynny'n golygu cyfanswm yr incwm, cyfanswm y swyddi, cyfanswm y contractau, a dyna yw'r gwir ffigur.

**Edwina Hart:** I was actually referring, of course, to the Welsh budget. In 1999 to 2000 it represents £2,537 for every person in Wales. By 2001 to 2002 we will have increased this by 19 per cent in cash terms up to £3,025. This is a real annual increase of 3.4 per cent over the period. I am aware of course, of expenditure items that are not included within the Welsh budget. When we talk about figures and what figures mean, of course, we could have endless discussions within the Assembly itself.

**Edwina Hart:** Yr oeddwn, wrth gwrs, yn cyfeirio mewn gwirionedd at gyllideb Cymru. Yn 1999 i 2000 mae'n golygu £2,537 ar gyfer pob unigolyn yng Nghymru. Erbyn 2001 i 2002 byddwn wedi cynyddu hynny o 19 y cant, hyd at £3,025 mewn termau ariannol. Mae hyn yn wir gynnydd blynyddol o 3.4 y cant dros y cyfnod. Yr wyf yn ymwybodol, wrth gwrs, o eitemau gwariant sydd heb eu cynnwys yng nghyllideb Cymru. Pan fyddwn yn siarad am ffigurau a'u hystyron, wrth gwrs, fe allem gael dadleuon di-ben-draw o fewn y Cynulliad ei hun.

### **Diwygio Tŷ'r Arglwyddi The Reform of the House of Lords**

**Y Llywydd:** Yr wyf yn awr yn datgan diddordeb yn yr eitem nesaf o fusnes, sef dadl ar ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi. Yr wyf yn ymadael â'r gadair ond gyda phleser mawr, gwahoddaf fy Nirprwy Lywydd, Jane Davidson, i gadeirio yn fy lle.

**The Presiding Officer:** I now declare an interest in the next item of business, namely the debate on the reform of the House of Lords. With great pleasure I invite my Deputy Presiding Officer, Jane Davidson, to take the Chair in my absence.

**The Deputy Presiding Officer:** I am delighted to take the Chair for the first time in Plenary session and am looking forward to the debate on the next item of business on the agenda. Could I ask Members to help me in managing that debate. If you raise points of order, would you refer to the specific Standing Order. The Presiding Officer made a similar announcement in the Chamber two weeks ago.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf yn falch o ddod i'r Gadair am y tro cyntaf mewn Sesiwn Llawn ac edrychaf ymlaen at y ddadl ar yr eitem busnes nesaf ar yr agenda. A fyddai'r Aelodau gystal â'm helpu wrth reoli'r ddadl honno. Os byddwch yn codi materion o drefn, a fyddech cystal â chyfeirio at y Rheol Sefydlog penodol. Gwnaeth y Llywydd gyhoeddiad tebyg yn y Siambr bythefnos yn ôl.

2:48 p.m.

This is a motion on the reform of the House of Lords. An amendment was received to the motion in the name of Rod Richards. However, the Presiding Officer did not select this under Standing Order No. 6.13 (3), as it did not relate to Wales and because the other points in the amendment can be adequately covered in the debate on the main motion or by a vote on it.

Mae hwn yn gynnig ar ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi. Derbyniwyd gwelliant i'r cynnig yn enw Rod Richards. Fodd bynnag, ni ddewiswyd ef gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog Rhif 6.13 (3) am nad oedd yn ymwneud â Chymru ac am fod modd ymdrin yn ddigonol â'r pwyntiau eraill yn y gwelliant yn y ddadl ar y prif gynnig neu drwy bleidlais arno.

**The First Secretary:** I propose:

*that the Assembly welcomes the establishment of the Royal Commission on the reform of the House of Lords and expresses the hope that the Commission, in formulating its proposals, will recognise the need for Wales to be given appropriate representation in a reformed Chamber and that due consideration is given to representation from or by the National Assembly for Wales.*

**John Marek:** Point of order. There is a problem. I was looking for this motion on the intranet all day on Friday because I would have wanted to table an amendment. It was impossible to find out what this motion was before the weekend. Members are not able to consider the matter properly and have no time to table amendments if these motions are not tabled until the last available moment.

**The Deputy Presiding Officer:** I will seek guidance on this.

The Clerk to the Assembly informs me that it was on the intranet on Friday.

**John Marek:** Not before about four or five o'clock as far as I can make out. That is the problem.

**The Deputy Presiding Officer:** We cannot give you the actual time that it was on the intranet on Friday. Standing Orders indicate that it must be on the intranet on Friday and it did achieve that target.

**David Davies:** I had the same problem. I eventually found it on Friday but not until the afternoon. I made a point of staying away from my constituency to wait in my office to see when that motion would appear. I second everything that Mr Marek has said. This is a big problem and we need to solve it.

**The Deputy Presiding Officer:** We will take that back. The Business Committee has considered this matter and we will ensure

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cynigiau:

*fod y Cynulliad yn croesawu sefydlu'r Comisiwn Brenhinol ar ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi ac yn mynegi gobaith y bydd y Comisiwn, wrth ffurfio'i gynigion, yn cydnabod bod angen cynrychiolaeth addas ar Gymru mewn Siambr ddiwygiedig ac yn rhoi ystyriaeth ddyledus i gynrychiolaeth o Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu gynrychiolaeth gan y Cynulliad hwnnw.*

**John Marek:** Mater o drefn. Mae yna broblem. Bŷm yn chwilio am y cynnig hwn ar y fewnrwyd drwy'r dydd ddydd Gwener oherwydd byddwn wedi dymuno cyflwyno gwelliant. Yr oedd yn amhosibl canfod beth oedd y cynnig cyn y penwythnos. Ni all Aelodau ystyried y mater yn briodol ac ni fydd ganddynt amser i gyflwyno gwelliannau os na chaiff y cynigion hyn eu cyflwyno ond ar yr eiliad olaf bosibl.

**Y Dirprwy Lywydd:** Fe ofynnaf am arweiniad ar hyn.

Mae Clerc y Cynulliad yn dweud wrthyf ei fod ar y fewnrwyd ddydd Gwener.

**John Marek:** Nid cyn tua phedwar neu bump o'r gloch hyd y gwelaf. Dyna yw'r broblem.

**Y Dirprwy Lywydd:** Ni allwn roi ichi'r union amser yr oedd ar y fewnrwyd ar ddydd Gwener. Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi bod rhaid iddo fod ar y fewnrwyd ar ddydd Gwener ac fe gyrhaeddodd y nod honno.

**David Davies:** Fe gefais i'r un broblem. Deuthum o hyd iddo yn y diwedd ddydd Gwener ond nid tan y prynhawn. Fe arhosais draw o'm hetholaeth yn unswydd er mwyn disgwyl yn fy swyddfa i weld pa bryd y byddai'r cynnig yn ymddangos. Yr wyf yn ategu popeth a ddywedodd Mr Marek. Mae hon yn broblem fawr a rhaid inni ei datrys.

**Y Dirprwy Lywydd:** Fe awn â hynny'n ôl. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi ystyried y mater hwn ac fe sicrhawn y bydd trafodaeth

that it is discussed again next week.

**The First Secretary:** I congratulate the Deputy Presiding Officer on taking the Chair for the first time. This is with surprise because I did not believe that the removal of hereditary peers would lead to our Presiding Officer declaring an interest.

The point that I was going to make responds to the two points of order in a sense. This debate was scheduled at very short notice with all-party support through the Business Committee. It provides an opportunity for Members to respond to an invitation from the Royal Commission on the Reform of the House of Lords to consider the issues that they are currently studying. We are trying to put new electronic systems in place. It is very much a first for the Assembly and many of us were able to find the information during the weekend. That is the advantage of laptops and being able to access the electronic system. It is not perfect but let us not quibble about it all the time. Let us celebrate the fact that we have a system that, in many ways, is far more flexible and adaptable than those in far more venerable institutions such as the House of Commons.

There was cross-party agreement for this debate today because it is directly relevant to our work. The Commission's letter sent to the Presiding Officer, the other three party leaders and myself states that the Government's White Paper, 'Modernising Parliament—Reforming the House of Lords', and the Commission's terms of reference raised the possibility that reform of the House of Lords could have a part to play in rounding off the current devolution programme.

In his letter, the Secretary of the Commission draws attention to the fact that the White Paper asks whether a reformed House of Lords might have an overt role in representing the regions, or regional bodies, and the Assemblies and Parliaments. He notes that many second chambers around the world are designed to accommodate regional interests. The Secretary of the Commission

arno eto yr wythnos nesaf.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Llongyfarchaf y Dirprwy Lywydd ar ddod i'r Gadair am y tro cyntaf. Yr wyf yn synnu at hynny oherwydd nid oeddwn yn credu y byddai dileu arglwyddi etifeddol yn peri i'n Llywydd ddatgan diddordeb.

Mae'r pwynt yr oeddwn am ei wneud yn ateb i'r ddau fater o drefn ar un ystyr. Fe amserlennwyd y ddadl hon gan roi rhybudd byr iawn gyda chefnogaeth yr holl bleidiau drwy'r Pwyllgor Busnes. Mae'n rhoi cyfle i'r Aelodau ymateb i wahoddiad oddi wrth y Comisiwn Brenhinol ar Ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi i ystyried y materion y maent yn eu hastudio ar hyn o bryd. Yr ydym ni'n ceisio sefydlu systemau electronig newydd. Y Cynulliad yw'r cyntaf i wneud hyn i raddau helaeth ac yr oedd llawer ohonom wedi gallu dod o hyd i'r wybodaeth dros y penwythnos. Dyma fantais cyfrifiaduron pen-glin a'r gallu i gael mynediad i'r system electronig. Nid yw'n berffaith ond na foed inni holli blew am hynny drwy'r amser. Gadewch inni ddathlu'r ffaith bod gennym system sydd, ar lawer ystyr, yn llawer mwy hyblyg ac addasadwy na'r rhai mewn sefydliadau llawer mwy hynafol fel Tŷ'r Cyffredin.

Yr oedd cytundeb ar draws y pleidiau i'r ddadl hon heddiw am ei bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'n gwaith. Mae llythyr y Comisiwn a anfonwyd at y Llywydd, at arweinyddion y tair plaid arall ac ataf fi yn dweud bod Papur Gwyn y Llywodraeth, 'Modernising Parliament—Reforming the House of Lords', a chylch gorchwyl y Comisiwn, yn codi'r posibiliad y gallai diwygio Tŷ'r Arglwyddi chwarae rhan wrth derfynu'r rhaglen datganoli bresennol.

Yn ei lythyr, mae Ysgrifennydd y Comisiwn yn tynnu sylw at y ffaith bod y Papur Gwyn yn gofyn a allai Tŷ'r Arglwyddi ar ôl ei ddiwygio fod â rôl amlwg drwy gynrychioli'r rhanbarthau, neu gyrff rhanbarthol, a'r Cynulladau a'r Seneddau. Mae'n nodi bod llawer o ail siambrau o gwmpas y byd wedi eu bwriadu i gynnwys buddiannau rhanbarthol. Mae Ysgrifennydd y Comisiwn

invited Assembly Members to express a view on this particular point. He pointed out that there are a wide range of other questions posed in the consultation paper on which Assembly Members would be able to comment and that those comments would be welcome.

In order to allow Assembly Members an opportunity to make their views known to the Commission, we facilitated this debate and deliberately phrased a motion that we believed would attract the most wide-ranging support. The aim is to get the views and ideas of Assembly Members onto the Record and into the debate. I propose to send a copy of the Official Record of today's debate to the Commission for their consideration. The views of Assembly Members, rather than the resolution, go forward to the Commission.

I hope that the Record will show all parties entering into lively debate and putting forward various ideas, agreeing on some and differing on others, but generally being positive. It is easy to be partisan but more difficult and more rewarding to engage in constructive debate.

I am proud to be a member of a Government that has delivered on a reform that we have wanted to carry through for 100 years. I was not there for the whole of that time. Reforming the House of Lords and turning it into a modern and progressive second chamber is not a new item on the agenda. By getting rid of the undemocratic stranglehold of hereditary peers we take the biggest single step towards fulfilling that radical agenda.

We are checking the unbridled power of hereditary peers to impede the decisions of a democratic majority in the House of Commons. However, we want to go further as a Government and improve the second chamber. The remit of the Royal Commission is to say how that can be done.

I believe that the new Lords should include a regional element, from the regions of England as well as Wales, Northern Ireland and Scotland. Should the Assembly play a

wedi gofyn i Aelodau'r Cynulliad fynegi barn ar y pwynt penodol hwn. Fe nododd fod amrediad eang o gwestiynau eraill yn cael eu codi yn y ddogfen ymgynghorol y gallai Aelodau'r Cynulliad roi sylwadau arnynt ac y byddai croeso i'r sylwadau hynny.

Er mwyn caniatáu cyfle i Aelodau'r Cynulliad fynegi eu barn i'r Comisiwn, yr ydym wedi hyrwyddo'r ddatl hon ac wedi cyflwyno cynnig a eiriwyd ar ffurf a fyddai, fe gredem, yn ennyn y gefnogaeth ehangaf. Y nod yw cael barn a syniadau Aelodau'r Cynulliad ar y Cofnod ac yn rhan o'r drafodaeth. Bwriadaf anfon copi o'r Cofnod Swyddogol o'r ddatl heddiw at y Comisiwn i'w ystyried ganddynt. Barn Aelodau'r Cynulliad, yn hytrach na'r penderfyniad, fydd yn mynd ymlaen i'r Comisiwn.

Gobeithiaf y bydd y Cofnod yn dangos yr holl bleidiau'n cymryd rhan mewn dadl fywiog ac yn cyflwyno gwahanol syniadau, gan gytuno ar rai ac anghytuno ar eraill, ond mewn ysbryd cadarnhaol ar y cyfan. Mae'n hawdd bod yn bleidgar ond anos a mwy buddiol yw cymryd rhan mewn dadl adeiladol.

Yr wyf yn falch o fod yn aelod o Lywodraeth sydd wedi cyflwyno diwygiad yr ydym yn dymuno ei weithredu ers 100 mlynedd. Nid oeddwn yno ar hyd yr amser hwnnw. Mae diwygio Tŷ'r Arglwyddi a'i droi'n ail siambr fodern a blaengar ymhell o fod yn eitem newydd ar yr agenda. Drwy gael gwared ar afael annemocrataidd yr arglwyddi etifeddol fe gymerwn y cam unigol mwyaf at gyflawni'r agenda radicalaidd hwnnw.

Yr ydym yn ffrwyno gallu penrhydd yr arglwyddi etifeddol i rwystro penderfyniadau mwyafrif democrataidd yn Nhŷ'r Cyffredin. Fodd bynnag, yr ydym am fynd ymhellach fel Llywodraeth a gwella'r ail siambr. Cylch gorchwyl y Comisiwn Brenhinol yw dweud sut y gellir gwneud hynny.

Credaf y dylai Tŷ'r Arglwyddi ar ei newydd wedd gynnwys elfen ranbarthol, o ranbarthau Lloegr yn ogystal â Chymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban. A ddylai'r Cynulliad

part in that? I believe so, but it could be achieved in a variety of ways.

Let us toss ideas around and be constructive. Let it be a real debate. It is right that Assembly Members should express a view. We are part of a constitutional programme of reform, more radical than any attempted by previous governments, embracing the establishment of this Assembly, the Scottish Parliament, the Northern Ireland Assembly, the incorporation of the European Convention of Human Rights into British law and many other reforms.

This programme of democratic renewal cannot be completed without the creation of a reformed second chamber that is relevant to the challenges of parliamentary government in the new millennium. It is fascinating to note that, with the exception of the Bishops and Law Lords, the composition of the House of Lords was purely hereditary until 1958. It is difficult to believe that it is so recent. To this day, hereditary peers constitute the overwhelming majority of Members of the House. Therefore, the House of Lords suffers from a deficiency in legitimacy that limits the extent to which it can contribute as a second chamber.

The Labour Party manifesto in 1997 pledged that the House of Lords would be reformed and, as an initial self-contained reform not dependent on further reform in the future, proposed that the right of hereditary peers to sit and vote in the House of Lords would be ended by statute. That is a radical change, a significant step in modernisation. We propose a far-reaching examination of the long-term future of the House of Lords following the removal of the hereditary peers. Attempting to do it all at once would have been a step too far. An agreement was needed on ending the rights of hereditary peers in order to debate properly what should replace it in the long-term.

We want the examination of the future reform of the Lords to be as open and as

chwarae rhan yn hynny? Fe gredaf y dylai, ond gellid cyflawni hynny mewn amryw o ffyrdd.

Gadewch inni daflu syniadau o gwmpas a bod yn adeiladol. Gadewch iddi fod yn ddadl wirioneddol. Mae'n iawn i Aelodau'r Cynulliad fynegi barn. Yr ydym yn rhan o raglen ddiwygio gyfansoddiadol, sydd yn fwy radicalaidd na dim y ceisiwyd ei gyflawni gan lywodraethau blaenorol, yn cwmpasu sefydlu'r Cynulliad hwn, Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon, a chynnwys y Cytundeb Ewropeaidd ar Iawnderau Dynol yng nghyfraith Prydain a llawer o ddiwygiadau eraill.

Ni ellir cwblhau'r rhaglen hon o adnewyddu democrataidd heb greu ail siambr ddiwygiedig sy'n berthnasol i sialensau llywodraeth seneddol yn y mileniwm newydd. Mae'n ddi-ddorol iawn sylwi bod cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi yn gwbl etifeddol, heblaw am yr Esgobion ac Arglwyddi'r Gyfraith, tan 1958. Mae'n anodd credu iddo fod felly mor ddiweddar â hynny. Hyd heddiw, yr arglwyddi etifeddol yw mwyafrif helaeth Aelodau'r Tŷ. Felly, mae Tŷ'r Arglwyddi yn dioddef o ddiffyg cyfreithlondeb sy'n cyfyngu ar y graddau y gall gyfrannu fel ail siambr.

Ym maniffesto'r Blaid Lafur yn 1997 cafwyd addewid y byddai Tŷ'r Arglwyddi yn cael ei ddiwygio ac, fel diwygiad dechreuol hunangynhwysol nad oedd yn dibynnu ar ddiwygio pellach yn y dyfodol, cynigiwyd terfynu drwy statud hawl arglwyddi etifeddol i eistedd a phleidleisio yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae hynny'n newid radicalaidd, yn gam sylweddol tuag at foderneiddio. Yr ydym yn cynnig archwiliad pellgyrhaeddol o ddyfodol tymor-hir Tŷ'r Arglwyddi ar ôl symud yr arglwyddi etifeddol oddi yno. Byddai'n ormod ceisio cyflawni hyn oll ar yr un pryd. Yr oedd angen cytundeb ar derfynu hawliau arglwyddi etifeddol er mwyn cael trafodaeth briodol ynghylch yr hyn a ddylai gymryd ei le yn y tymor hir.

Yr ydym am i'r archwiliad ar ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi yn y dyfodol fod mor agored ac

responsive as possible. That is why I welcome the opportunity today for all Assembly Members to become involved in the process and why I welcome the Commission's decision to hold a public hearing in Cardiff next month. I hope that it will be well attended by people from Cardiff and the wider area.

We will not arrive at a detailed consensus of view this afternoon. I do not believe we should attempt that and that is why I am not trying to push a particular line in opening this debate. Political parties and a variety of interest groups are already putting their own distinctive views to the Commission. However, we can demonstrate the importance of a second chamber that is representative of the whole nation and debate the way in which a Welsh interest in that development can be put forward.

I hope that we can agree on the motion that seeks a Welsh representation, but debate how that should be achieved, whether through one approach or a combination of approaches.

2:58 p.m.

The relationship between the second chamber and the devolved institutions will need to be a significant part of the Royal Commission's deliberations. I hope that they will look at the way in which we are trying to change the nature of debate, for instance in this Chamber. I believe that we are doing so successfully. The nature of the relationship between the second chamber and this Assembly, the Scottish Parliament and the Northern Ireland Assembly could have a marked impact on the second chamber's functions and how its members are selected. The White Paper recognises that.

In Wales, we need to play an active part in this debate. It is in all our interests that the House of Lords is transformed into a modern, fit and effective second chamber of Parliament for the twenty first century, with Welsh voices contributing to its debates and its contribution to the life of the United Kingdom. We have a unique opportunity to contribute to continuing the modernisation of

ymatebol ag y bo modd. Dyna pam yr wyf yn croesawu'r cyfle heddiw i holl Aelodau'r Cynulliad gymryd rhan yn y broses ac yn croesawu penderfyniad y Comisiwn i gynnal gwrandawriad cyhoeddus yng Nghaerdydd y mis nesaf. Gobeithio y bydd nifer dda o bobl o Gaerdydd a'r ardal o'i chwmpas yn bresennol yno.

Ni fyddwn yn cyrraedd consensws barn manwl brynhawn heddiw. Ni chredaf y dylem geisio gwneud hynny a dyna pam nad wyf yn ceisio hybu safbwynt penodol wrth agor y ddadl hon. Mae pleidiau gwleidyddol ac amryw o grwpiau diddordeb eisoes yn cyflwyno eu safbwyntiau arbennig i'r Comisiwn. Fodd bynnag, fe allwn ddangos pwysigrwydd ail siambr sy'n gynrychioladol o'r genedl gyfan a thrafod y modd y gellir cyflwyno diddordeb Cymreig yn y datblygiad hwnnw.

Gobeithio y gallwn gytuno ar y cynnig sy'n gofyn am gynrychiolaeth o Gymru, ond y byddwn yn dadlau sut y dylid cyflawni hynny, ai drwy un dull gweithredu neu gyfuniad o ddulliau.

Bydd y berthynas rhwng yr ail siambr a'r sefydliadau daganoledig yn gorfod bod yn rhan sylweddol o drafodaethau'r Comisiwn Brenhinol. Gobeithio y byddant yn edrych ar y modd yr ydym yn ceisio newid natur dadleuon, yn y Siambr hon, er enghraifft. Credaf ein bod yn gwneud hynny'n llwyddiannus. Fe allai natur y berthynas rhwng yr ail siambr a'r Cynulliad hwn, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon gael effaith bendant ar swyddogaethau'r ail siambr a'r modd yr etholir ei haelodau. Mae'r Papur Gwyn yn cydnabod hynny.

Yng Nghymru, mae angen inni chwarae rhan fywiog yn y ddadl hon. Mae er budd pawb ohonom i Dŷ'r Arglwyddi gael ei drawsffurfio'n ail siambr o'r Senedd sy'n fodern, yn addas ac yn effeithiol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, gyda lleisiau Cymreig yn cyfrannu at ei dadleuon a'i chyfraniad at fywyd y Deyrnas Unedig. Mae gennym gyfle unigryw i gyfrannu at barhau i foderneiddio

our constitution. Let us seize it today.

**Jonathan Morgan:** I have a number of concerns about some of the Government's proposals. It seems to be a rather haphazard approach to reforming the second chamber. The Government has had a couple of years in which to achieve this and now we have seen the establishment of the Royal Commission. I would like to ask the First Secretary about the involvement of the churches in the second chamber and I ask him to take the matter forward to Cabinet level. The current process involves the Church and we had discussions with representatives of the churches in Wales who are convinced that they need that type of involvement in a reformed second chamber, but perhaps broader on an ecumenical level. I would like the First Secretary to take that consideration to London.

We must also consider the type of second chamber that we want. We are starting from the wrong base. The first question we need to ask is what we want the House of Lords to fulfil as a reformed Chamber. If we wish it to continue as a revision chamber it does not need much reform. However, if we want it to question the authority of the House of Commons and revise legislation in a more considered manner, some form of democratic legitimacy is required. There are many unanswered questions and the haphazard nature of this process does not do the Government any credit. I would rather see some sort of democratic legitimacy that does not involve the second chamber becoming merely a chamber for appointees by the Prime Minister. This two-stage approach does not do the administration any credit and I wish that they had started on this question from a very different base.

**Ieuan Wyn Jones:** Hoffwn groesawu Jane i'r Gadair ac edrychaf ymlaen at drafodaeth fuddiol ac eang ar Dŷ'r Arglwyddi.

Mae'n gamgymeriad i barhau i alw'r Tŷ hwnnw yn Dŷ'r Arglwyddi yng nghyd-destun

ein cyfansoddiad. Gadewch inni afael ynddo heddiw.

**Jonathan Morgan:** Mae gennyf nifer o bryderon ynghylch rhai o gynigion y Llywodraeth. Mae'n ymddangos yn ymagwedd braidd yn ddiidaro at ddiwygio'r ail siambr. Fe gafodd y Llywodraeth ddwy flynedd i gyflawni hyn ac yn awr dyma weld sefydlu'r Comisiwn Brenhinol. Hoffwn holi'r Prif Ysgrifennydd ynghylch cysylltiad yr eglwysi â'r ail siambr a gofyn iddo fynd â'r mater ymlaen at lefel y Cabinet. Mae'r broses gyfredol yn cynnwys yr Eglwys a chawsom drafodaethau â chynrychiolwyr yr eglwysi yng Nghymru sy'n argyhoeddedig bod arnynt angen cysylltiad o'r fath ag ail siambr ddiwygiedig, ond yn ehangach efallai ar lefel ecwmenaidd. Fe hoffwn i'r Prif Ysgrifennydd fynd â'r ystyriaeth honno i Lundain.

Rhaid inni hefyd ystyried y math o ail siambr yr ydym am ei gael. Yr ydym yn dechrau yn y lle anghywir. Y cwestiwn cyntaf y dylem ei ofyn yw beth yr ydym yn dymuno i Dŷ'r Arglwyddi ei gyflawni fel Siambr ddiwygiedig. Os ydym am iddo barhau fel siambr adolygu nid oes angen llawer o ddiwygio arno. Fodd bynnag, os ydym am iddo gwestiynu awdurdod Tŷ'r Cyffredin ac adolygu deddfwriaeth mewn modd mwy ystyriol, mae angen rhyw fath o gyfreithlondeb democrataidd. Mae llawer o gwestiynau heb eu hateb ac nid yw natur ddamweiniol y broses yn glod o gwbl i'r Llywodraeth. Byddai'n well gennyf weld rhyw fath o gyfreithlondeb democrataidd a fyddai'n golygu bod yr ail siambr yn fwy na dim ond siambr i rai a benodir gan y Prif Weinidog. Nid yw'r dull gweithredu dau gam hwn yn glod o gwbl i'r Llywodraeth a byddai'n dda gennyf pe baent wedi dechrau trafod y cwestiwn hwn o fan cychwyn gwahanol iawn.

**Ieuan Wyn Jones:** I welcome Jane to the Chair and I look forward to a constructive and broad debate on the House of Lords.

It is a mistake to continue to call that House the House of Lords in the context of our

ein trafodaeth oherwydd os ceir ail siambr ddiwygiedig o ganlyniad i'r drafodaeth hon, bydd ganddi deitl gwahanol iawn. Yr wyf yn siwr y bydd y mwyafrif ohonom yn cytuno ar hynny.

Derbyniaf fod y drafodaeth hon yn rhan o drafodaeth ehangach o lawer ar newidiadau cyfansoddiadol. Mae Alun eisoes wedi cyfeirio at y newidiadau sylfaenol yr ydym wedi'u gweld eisoes—sefydlu Cynulliad yng Nghymru, Senedd yn yr Alban a Chynulliad yn Ngogledd Iwerddon. Gobeithiaf fod pobl yn Lloegr yn sylweddoli pwysigrwydd datganoli iddynt hwy erbyn hyn ac y byddwn yn gweld datganoli yn Lloegr ar lefel ranbarthol neu genedlaethol—mater iddynt hwy benderfynu arno. Eisoes, yr ydym yn gweld y patrwm yn dechrau yn Lloegr wrth iddynt sefydlu corff strategol arbennig i Lundain a hyderaf y bydd hwn yn rhan o batrwm a fydd yn datblygu.

Yn y sylwadau hyn, ceisiaf ganolbwyntio ar y dystiolaeth y gall y Cynulliad fel corff ei rhoi i'r broses, yn hytrach na rhoi safbwynt Plaid Cymru. Bydd gan y Blaid, ac unrhyw blaid arall, gyfle i roi sylwadau o safbwynt plaid fel rhan o dystiolaeth ehangach. Croesawaf y ffaith y bydd cyfarfod yng Nghymru i gymryd y dystiolaeth honno.

Credaf fod sylfeini y dylem eu sefydlu o safbwynt ein trafodaeth. Tra bod y gyfundrefn bresennol o dan y setliad cyfansoddiadol presennol a thra bod fframwaith deddfwriaeth o safbwynt Cymru yn parhau yn San Steffan, mae'n bwysig bod gan y Cynulliad lais yn Nhŷ'r Cyffredin ac yn yr ail siambr ddiwygiedig. Mae hynny yn hynod bwysig o safbwynt y Cynulliad ac os bydd yr ail siambr yn parhau fel siambr adolygu—ac yr ydym yn ystyried ychwanegu pwerau at y corff hwnnw—mae'n bwysig fod gennym lais o safbwynt cyfansoddiad y Tŷ.

Er bod y Blaid yn rhoi tystiolaeth ar wahân, hoffwn gynnwys rhai materion yn y drafodaeth hon. Credwn fod Tŷ'r Arglwyddi yn siambr anemocrataidd ac

debate because if a reformed second chamber comes into existence following this debate, it will have a very different title. I am sure that most of us would agree on that.

I accept that this debate is part of a much wider debate on constitutional changes. Alun has already referred to the fundamental changes that we have already seen—the establishment of the Assembly in Wales, the Parliament in Scotland and the Assembly in Northern Ireland. I hope that people in England realise the importance of devolution to them by now and that we will see devolution in England on a regional or national basis—it is a matter for them to decide. We already see the pattern beginning to emerge in England with the establishment of a particular strategic body for London and I sincerely hope that this will be part of a pattern that will develop.

In my comments, I will try to concentrate on the evidence that the Assembly as a body could offer to the process, rather than give the Plaid Cymru viewpoint. Plaid Cymru, and any other party, will have an opportunity to put forward its views on a party line as part of wider evidence. I welcome the fact that there will be a meeting in Wales to take that evidence.

I think that there are foundations that we should lay down as regards our discussion. Whilst the current system under the current constitutional settlement exists and whilst the legislative framework for Wales continues to be in Westminster, it is important that the Assembly has a voice in the House of Commons and in the reformed second chamber. That is extremely important from the viewpoint of the Assembly and if this second chamber is to remain as a reviewing body—and we are considering adding powers to that body—it is important that we have a voice as regards the constitution of that House.

Although Plaid Cymru is giving evidence separately, I would like to include some issues in this debate. We believe that the House of Lords is an undemocratic, non-



anghynrychioladol sydd angen ei diwygio llawer mwy na'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei argymhell ar hyn o bryd yn y Mesur. Mae angen mynd llawer ymhellach ac mae'r Comisiwn Brenhinol yn gyfle inni edrych ar fodolau pellach. Credwn, o dan y setliad cyfansoddiadol presennol, fod angen ail siambr fel mater o egwyddor. Mae angen siambr adolygu ac efallai y dylem ystyried pwerau penodol. Dylem anelu at system ddwy-siambr.

Yr unig gwestiwn arall yw sut y dylid penderfynu pwy ddylai eistedd yn y corff diwygiedig a sut y maent yn cael eu hethol neu eu henwebu. Fel grŵp, teimlwn y dylai'r rhan fwyaf o aelodau mewn unrhyw siambr ddiwygiedig gael eu hethol ond derbyniwn y bydd lle i aelodau ychwanegol a enwebir gan y Cynulliad, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon ac unrhyw gyrff rhanbarthol neu genedlaethol yn Lloegr. Mae gennym gysail bwysig yn y maes hwn, sef ein bod yn gwybod mai dyna sydd yn digwydd yn yr ail siambr yn yr Almaen fwy neu lai. Hefyd, bydd yn rhaid inni fel corff ystyried enwebu pobl i gyrff allanol. Mae'r hawl hwnnw yn bodoli eisoes, er enghraifft gyda Phwyllgorau'r Rhanbarthau a chyrrff eraill yn Ewrop. Bydd gan y corff hwn yr hawl i enwebu pobl i eistedd arnynt.

Mae Alun wedi cyfeirio at y ffaith bod gan y Cynulliad rôl yn y cyfansoddiad diwygiedig, yn yr ystyr y bydd yr ail siambr yn gorff adolygu. Bydd fframwaith deddfwriaeth yn parhau yn Llundain ar hyn o bryd ac mae angen inni gael llais yno. Os caiff ei diwygio'n iawn, gall yr ail siambr edrych ar bethau llawer yn ehangach na Thŷ'r Cyffredin. Mae prinder amser yn Nhŷ'r Cyffredin i drafod materion cyfansoddiadol o bwys. Golyga hyn y dylem edrych ar ffyrdd o ddefnyddio'r ail siambr i wneud hynny. Os bydd yr ail siambr yn fwy democrataidd, fel y dylai fod, bydd yn fwy cynrychioladol—etholir llawer o'r aelodau yn uniongyrchol— a galleu ystyried ehangu pwerau yr ail Dŷ.

Hoffwn gyfeirio at dri pheth penodol cyn cloi. Yn gyntaf, galleu roi pŵer arbennig i'r

representative chamber that needs to be reformed far more than the Government proposes at the moment in the Bill. We must go much further and the Royal Commission is an opportunity for us to consider further models. We believe that, under the current constitutional settlement, we need a second chamber as a matter of principle. We need a reviewing body and we could look at specific powers. We should aim for a bi-cameral system.

The only other question is how to decide who should sit in this reformed body and how they will be elected or nominated. As a group, we feel that the majority of members in any reformed chamber should be elected but we accept that there will be room for additional members nominated by the Assembly, the Scottish Parliament, the Northern Ireland Assembly and any regional or national bodies in England. There is an important precedent in this field—we know that this is what happens in the second chamber in Germany more or less. We as a body must also consider nominating people to outside bodies. That right already exists, for example with the Regional Committees and other bodies in Europe. This body will have the right to nominate people to sit on them.

Alun referred to the fact that the Assembly has a role in the reformed constitution in the sense that the second chamber will be a reviewing body. The legislative framework will continue in London at present and we need a voice there. If it is reformed properly, the second chamber can take a much wider view of matters than the House of Commons. There is a shortage of time to deal with important constitutional matters in the House of Commons. This means that we should look at ways of using the second chamber to do that. If the second chamber is going to be more democratic, as it should be, it will be more representative in the sense that many of the members will be elected directly, and we could consider enhancing the powers of the second House.

I wish to refer to three specific points before I bring my comments to a close. First, we

ail siambr i edrych ar faterion cyfansoddiadol. Nid wyf yn sôn yn unig am ystyried y berthynas rhwng gwahanol lefelau yng ngwledydd Prydain ond fe ddylem ystyried, yn ogystal, patrymau y tu allan i gwledydd Prydain ar lefel Ewropeaidd. Dylem edrych ar y setliad yn ei gyfanrwydd. Mae modd gwneud hynny yn yr ail siambr.

could give particular powers to the second chamber to look at constitutional matters. I am not only talking about considering the relationship between different levels in Britain's countries, but also considering patterns outside Britain on a European level. We should look at the constitutional settlement as a whole. It is possible to do so in the second chamber.

3:08 p.m.

Yn ail, ynglŷn â materion yn ymwneud â hawliau dynol, y mae'r papur trafod yn datgan y bydd yr ail siambr yn gallu mabwysiadu'r materion hyn fel pwerau newydd. Dylem ystyried hyn o ddifrif. Yn drydydd, gall yr ail siambr ganolbwyntio ar rai o'r materion tramor sydd yn bodoli. Yr wyf wedi sôn eisioes am y berthynas rhwng lefelau cyfansoddiadol yng ngwledydd Prydain a'n perthynas ag Ewrop. Yn y tymor byr credaf y byddai hynny'n gymorth mawr.

Secondly, on matters pertaining to human rights, the discussion paper states that the second chamber will be able to adopt these matters as new powers. We should give that serious consideration. Thirdly, the second chamber could also concentrate on some foreign issues. I have already mentioned the relationship between the constitutional levels of the countries in Britain and our relationship with Europe. In the short term, I believe that will be of great assistance.

Dyna'r ychydig sylwadau sydd gennyf. Mae'n bwysig nodi bod yr amser a roddwyd ar gyfer sylwadau yn hynod o brin o ystyried fod rhaid paratoi'r papur erbyn diwedd yr wythnos hon. Gobeithiaf fod y materion ymarferol y soniwyd amdanynt yn y ddatl hon yn gyfraniad pwysig i'r drafodaeth yn ei chyfanrwydd.

Those are my brief comments. It is important to note that the time set aside for comments was extremely short, given that the paper must be prepared by the end of this week. I hope that the practical matters debated here will be an important contribution to the debate as a whole.

**Rod Richards:** Dirprwy Lywyddes, may I add my best wishes to you upon taking the Chair for the first time. I am sure it will demonstrate that there is more than one first among equals.

**Rod Richards:** Dirprwy Lywyddes, a gaf finnu dymuno'n dda i chi wrth ddod i'r Gadair am y tro cyntaf. Yr wyf yn sicr y bydd hyn yn dangos bod mwy nag un yn flaenaf ymysg cyfurddolion.

The motion before us asks that we welcome the establishment of a Royal Commission on the Reform of the House of Lords.

Mae'r cynnig sydd gerbron yn gofyn y dylem groesawu sefydlu Comisiwn Brenhinol ar Ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi.

The Conservative Party welcomes the Royal Commission. Indeed we have been calling for one since the Government first cobbled together its ill-thought-through proposals. It is a Commission that should have been set up two years ago.

Mae'r Blaid Geidwadol yn croesawu'r Comisiwn Brenhinol. Yn wir, buom yn galw am sefydlu un ers i'r Llywodraeth glytio ei chynigion anystyriol wrth ei gilydd am y tro cyntaf. Mae'n Gomisiwn a ddylasai fod wedi ei sefydlu ddwy flynedd yn ôl.

That it was not established then is symptomatic of this Government's piecemeal

Mae'r ffaith na chafodd ei sefydlu bryd hynny yn arwydd o ymagwedd dameidiog a

and dangerous approach to constitutional reform. Indeed, the Government was forced to set up a Commission, which was not mentioned in its manifesto. We do not believe in change for change's sake, but we accept that a Government with an overwhelming majority will bring change about. It is therefore our duty to try to ensure that the outcome of these reforms will strengthen rather than weaken our constitution. In our view, it would have been better if the Commission's terms of reference had been wider, allowing it to consider the reform of Parliament as a whole and not just the Lords.

The Conservative Party commissioned a report from Lord Mackay of Clashfern. It offers a serious analysis of the constitutional crisis now facing the country and puts forward models for a reformed House of Lords. We are considering the report without prejudice and are placing it before the Royal Commission to ensure that the substantive issues are addressed.

The Mackay report is relevant to Wales. The constitutional reforms that this Government is forcing upon the country have astonished the rest of the civilised world. Our constitution has evolved over many centuries. It has given us stability when all other major European countries were in disarray.

The Government's ad hoc constitutional changes have already made governing more complicated and indeed weakened our national parliament. This Government has discredited democracy by imposing pre-legislative referenda conducted by rules invented by the Executive. This slight of hand has been compounded by the Government refusing to introduce independent ground rules for the conduct of objective referenda.

The proportional voting systems have created confusion, the closed list system for the European election contributed to the low

pheryglus y Llywodraeth hon at ddiwygio'r cyfansoddiad. Yn wir, fe orfodwyd y Llywodraeth i sefydlu Comisiwn nad oedd sôn amdano yn ei maniffesto. Nid ydym yn credu mewn newid er mwyn newid, ond yr ydym yn derbyn y bydd Llywodraeth sydd â mwyafrif llethol yn dod â newid. Mae'n ddyletswydd arnom felly i geisio sicrhau mai canlyniad y diwygiadau hyn fydd cryfhau yn hytrach na gwanhau ein cyfansoddiad. Yn ein barn ni, fe fyddai'n wella pe bai cylch gorchwyl y Comisiwn yn ehangach, gan ganiatáu iddo ystyried diwygio'r Senedd gyfan ac nid Tŷ'r Arglwyddi yn unig.

Fe gomisiynodd y Blaid Geidwadol adroddiad gan yr Arglwydd Mackay o Clashfern. Mae'n cynnig dadansoddiad difrifol o'r argyfwng cyfansoddiadol sydd bellach yn wynebu'r wlad ac yn cynnig modelau ar gyfer diwygio Tŷ'r Arglwyddi. Yr ydym yn ystyried yr adroddiad heb ymrwymo iddo a byddwn yn ei roi gerbron y Comisiwn Brenhinol er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i'r materion pwysig.

Mae adroddiad Mackay yn berthnasol i Gymru. Mae'r diwygiadau cyfansoddiadol a orfodwyd gan y Llywodraeth hon ar y wlad wedi peri syndod i weddill y byd gwaredieddig. Mae ein cyfansoddiad wedi datblygu dros ganrifoedd lawer. Mae wedi rhoi inni sefydlogrwydd pryd yr oedd yr holl wledydd mawr eraill yn Ewrop mewn anhrefn.

Mae newidiadau cyfansoddiadol anystyriol y llywodraeth eisoes wedi gwneud llywodraethu yn fwy cymhleth ac yn wir wedi gwanhau ein senedd genedlaethol. Mae'r Llywodraeth hon wedi dwyn anfri ar ddemocratiaeth drwy orfodi refferenda cyn-ddeddfwriaethol a gynhaliwyd yn ôl rheolau a ddyfeiswyd gan yr Adran Weithredol. Ychwanegwyd at yr ystryw hon drwy wrthodiad y Llywodraeth i gyflwyno rheolau sylfaenol annibynnol ar gyfer cynnal refferenda gwrthrychol.

Mae'r systemau pleidleisio cyfrannol wedi creu dryswch, ac mae'r system rhestr gaeëdig ar gyfer yr etholiad Ewropeaidd wedi

turnout because candidates were not clearly identifiable. Devolution has seen several different variations: Wales, Scotland, Northern Ireland. The West Lothian question remains unanswered. It is little wonder that Members of Parliament in England, of all political parties, are now asking for an answer to the West Lothian question and some of the answers presented are not very palatable to many people in Wales.

This Government has done its best to avoid proper scrutiny by Parliament—the Prime Minister himself has sought to sideline Parliament and make it ineffective. The Government has also surrendered powers of the UK Parliament to other bodies and to Europe in particular.

The Government has also incorporated the European Convention on Human Rights into British Law despite the major differences between the UK and continental legal systems, historically. This is an area that I predict will soon come to haunt the Assembly, sometime after 1 July.

The Conservative Party believes that all political parties should become involved in these reforms, so should the British people and every institution and body that has a contribution to make. We want to see Parliament strengthened and its authority over the Executive real and meaningful. It will be difficult to achieve by reforming one House and not the other.

There are six principles to which we shall abide. First of all, we do not want to see any increase in the Prime Minister's powers of patronage, direct or indirect. To ensure the primacy of the Commons we want to see a different composition in the second chamber from that of the Commons. The independent element not owing its place to patronage; an independent element sufficient to put its stamp on the House of Lords or the second chamber or whatever it will ultimately be called.

cyfrannu at y bleidlais isel am nad oedd modd adnabod yr ymgeiswyr yn rhwydd. Cafwyd sawl amrywiad gwahanol ar ddatganoli: Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon. Mae cwestiwn West Lothian heb ei ateb byth. Nid yw'n syndod bod Aelodau Seneddol yn Lloegr, ym mhob un o'r pleidiau gwleidyddol, yn gofyn bellach am ateb i gwestiwn West Lothian ac nid yw rhai o'r atebion a gyflwynwyd yn gymeradwy iawn i lawer o bobl yng Nghymru.

Fe wnaeth y Llywodraeth hon ei gorau i osgoi archwilio priodol gan y Senedd—mae'r Prif Weinidog ei hun wedi ceisio gwthio'r Senedd i'r naill ochr a'i gwneud yn aneffeithiol. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ildio pwerau Senedd y DU i gyrrff eraill ac i Ewrop yn arbennig.

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cynnwys y Cytundeb Ewropeaidd ar Iawnderau Dynol yng Nghyfraith Prydain er gwaethaf y gwahaniaethau mawr rhwng systemau cyfreithiol y DU a'r cyfandir, yn hanesyddol. Yr wyf yn rhagweld y bydd y maes hwn yn un a ddaw i flino'r Cynulliad, rywdro ar ôl 1 Gorffennaf.

Mae'r Blaid Geidwadol yn credu y dylai pob plaid wleidyddol gymryd rhan yn y diwygiadau hyn, fel y dylai pobl Prydain a phob sefydliad a chorff sy'n gallu cyfrannu. Yr ydym am weld cryfhau'r Senedd a'i hawdurdod dros yr Adran Weithredol yn dod yn rhywbeth gwir ac ystyrlon. Bydd yn anodd cyflawni hynny drwy ddiwygio un Tŷ ac nid y llall.

Mae chwe egwyddor y byddwn yn cadw atynt. Yn gyntaf oll, nid ydym am weld unrhyw gynnydd ym mhwerau nawdd y Prif Weinidog, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Er mwyn sicrhau goruchafiaeth Tŷ'r Cyffredin yr ydym am weld cyfansoddiad gwahanol yn yr ail siambr i'r hyn a geir yn Nhŷ'r Cyffredin. Yr elfen annibynnol nad yw'n ddyledus i nawddogaeth am ei lle; elfen annibynnol sy'n ddigon i roi ei stamp ar Dŷ'r Arglwyddi neu'r ail siambr neu beth bynnag fydd yr enw arno yn y pen draw.

In our view, there should be Members from the whole of the United Kingdom in the second chamber, bearing in mind devolution and institutional change. However, we do not believe that Members of one political institution should represent that institution in another. For example, we would oppose European Members of Parliament taking seats in the second chamber as European Members of Parliament. Similarly, we believe that Members of this Assembly should not enter the second chamber as representatives of this devolved body. I think that puts us in diametric opposition to Plaid Cymru.

Fifthly a view should be taken of the effects of reform on both Houses of Parliament. Finally we need clear evidence that the new House would operate better than the present one in scrutinising the Executive independently and improving law.

We want to see a national debate. The Mackay report suggests two possible models for the second chamber. The first comprises a chamber of mixed composition including Members who are appointed, directly elected and indirectly elected. The second model is for a fully directly elected chamber. We see no justification for reducing the powers of the second chamber as suggested in the Government's White Paper. The reformed chamber should have at least the same powers as the existing one. It should maintain the power to prevent the extension of the life of a Parliament, and with a Prime Minister such as the one we have I think everyone should see the importance of that.

It follows that we are totally opposed to the creation of a second chamber entirely nominated; it must have an independent element. It is a matter of great regret that the Government has not promoted a wider debate on this vitally important issue—we will do so now and after the Commission has reported.

In our conclusions to the Royal Commission we declare that:

Yn ein barn ni, fe ddylid cael Aelodau o bob rhan o'r Deyrnas Unedig yn yr ail siambr, gan gofio am ddatganoli a newidiadau sefydliadol. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y dylai Aelodau o un sefydliad gwleidyddol gynrychioli'r sefydliad hwnnw mewn sefydliad arall. Er enghraifft, byddem yn gwrthwynebu gweld Aelodau o Senedd Ewrop yn cymryd seddau yn yr ail siambr fel Aelodau o Senedd Ewrop. Yn yr un modd, nid ydym yn credu y dylai Aelodau o'r Cynulliad hwn fynd i'r ail siambr fel cynrychiolwyr o'r corff datganoledig hwn. Credaf fod hynny'n ein rhoi mewn sefyllfa wrthyferbyniol i Blaid Cymru.

Yn bumed, dylid ystyried effeithiau diwygio ar ddau Dŷ'r Senedd. Yn olaf, mae arnom angen prawf eglur y byddai'r Tŷ newydd yn gweithredu'n well na'r un presennol wrth archwilio'r Adran Weithredol yn annibynnol a gwella deddfwriaeth.

Yr ydym am weld dadl genedlaethol. Mae adroddiad Mackay yn awgrymu dau fodel posibl ar gyfer yr ail siambr. Mae'r cyntaf yn golygu siambr ac iddi gyfansoddiad cymysg gan gynnwys Aelodau a benodir, a rhai a etholir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae'r ail fodel yn un ar gyfer siambr a gaiff ei hethol yn uniongyrchol yn unig. Ni welwn unrhyw gyfiawnhad dros leihau pwerau'r ail siambr fel yr awgrymwyd ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth. Dylai'r siambr ddiwygiedig feddu ar o leiaf yr un pwerau â'r un bresennol. Fe ddylai gadw'r pŵer i atal ymestyn oes Senedd, a chyda Phrif Weinidog fel yr un sydd gennym fe gredaf y dylai pawb weld pwysigrwydd hynny.

Mae'n dilyn o hynny ein bod yn llwyr wrthwynebu creu ail siambr â'i holl aelodau wedi eu henwebu; rhaid iddi gael elfen annibynnol. Mae'n destun gofid mawr nad yw'r Llywodraeth wedi annog trafodaeth ehangach ar y mater holl bwysig hwn—fe wnawn ni hynny yn awr ac wedi i'r Comisiwn gyflwyno ei adroddiad.

Yn ein casgliadau i'r Comisiwn Brenhinol yr ydym yn datgan:

A stronger Parliament would enhance the democratic process. By contrast a 'reform', which further weakened the independence of Parliament in the face of the Executive would seriously undermine our constitutional democracy.

3:18 p.m.

**Val Feld:** I thought the intention was to use gender-neutral terms in Welsh, so can we not call you Llywydd? Welsh has neutral terms as does English and it is our principle in this establishment to seek to create gender neutrality, which leads me to the points that I wish to make.

**The Deputy Presiding Officer:** May I clarify for the Chamber that I am happy to be called Deputy Presiding Officer or Jane Davidson.

**Val Feld:** One of the things I feel proudest about as a long-term member of the Labour Party, is the work that my party is doing to achieve constitutional change. For many of us, this is one of the most exciting changes taking place in our society. I listen to Rod and hear so much worry and fear about the process of change. Perhaps it is in the nature of Conservatism that you like to retain the status quo, but for many of us in other political parties, the process of change is enormously important. It offers us a real opportunity to revitalise our democracy, and bring decision-making closer to people, making it different and accessible.

The establishment of the Welsh Assembly and the Scottish Parliament is an important part of that process, as it brings with it a new notion of democracy, allowing people to participate in decision-making. The House of Lords is the ultimate relic of the old ways of doing things and the ultimate reminder of patronage and privilege. In the modern world we must move away from that.

The question is how. What are the key issues for us in Wales, as part of the United Kingdom, on how that can be achieved? We

Byddai Senedd gryfach yn gwella'r broses ddemocrataidd. Mewn cyferbyniad â hynny byddai 'diwygiad', a fyddai'n gwanhau ymhellach annibyniaeth y Senedd yn wyneb yr Adran Weithredol yn tansilio ein democratiaeth gyfansoddiadol yn ddifrifol.

**Val Feld:** Yr oeddwn yn meddwl mai'r bwriad oedd defnyddio termau diryw yn Gymraeg, felly oni allwn eich galw'n Llywydd? Fe geir termau diryw yn Gymraeg fel yn Saesneg a'n hegwyddor yn y sefydliad hwn yw ceisio creu niwtraled o ran rhyw, sy'n fy arwain at y pwyntiau yr wyf am eu gwneud.

**Y Dirprwy Lywydd:** A gaf ei gwneud yn glir i'r Siambr y byddaf yn falch gael fy ngalw'n Ddirprwy Lywydd neu Jane Davidson.

**Val Feld:** Un o'r pethau y byddaf yn ymfalchïo mwyaf yn ei gylch fel un sy'n aelod o'r Blaid Lafur ers amser maith, yw'r gwaith y mae fy mhlaid yn ei wneud i gyflawni newid cyfansoddiadol. I lawer ohonom, mae hyn yn un o'r newidiadau mwyaf cyffrous sy'n digwydd yn ein cymdeithas. Yr wyf yn gwrando ar Rod ac yn clywed cymaint o ofid ac ofn ynghylch y broses o newid. Efallai ei bod yn rhan o hanfod Ceidwadaeth eich bod yn dymuno cadw'r *status quo*, ond i lawer ohonom yn y pleidiau gwleidyddol eraill, mae'r broses o newid yn hynod bwysig. Mae'n cynnig cyfle gwirioneddol inni adfywio'n democratiaeth, a dod â'r penderfyniadau'n agosach at bobl, gan ei gwneud yn wahanol ac yn hygyrch.

Mae sefydlu Cynulliad Cymru a Senedd yr Alban yn rhan bwysig o'r broses honno, am ei bod yn dod â syniad newydd o ddemocratiaeth yn ei sgil, sy'n caniatáu i bobl gymryd rhan mewn penderfyniadau. Tŷ'r Arglwyddi yw crair mwyaf yr hen drefn o wneud pethau a'r hyn sy'n ein hatgoffa fwyaf am nawdd a braint. Yn y byd modern rhaid inni symud oddi wrth hynny.

Y cwestiwn yw sut. Beth yw'r materion allweddol i ni yng Nghymru, fel rhan o'r Deyrnas Unedig, ynghylch sut i gyflawni

have learnt a lot over the last couple of years in the process of debate about how to establish our Assembly. This puts us in an unique position to advise and inform our colleagues in London about what might work and how to achieve this change.

For me it is critically important that the new second chamber takes advantage of what we have learned and also reflects the new settlement in the United Kingdom that devolution represents. It is an opportunity to establish within the United Kingdom a decision making political institution that reflects a society in which we have four nations: England, Wales, Northern Ireland and Scotland.

It is important that we use this opportunity to combine needs and aspirations and in so doing reflect the political reality of what devolution has meant. It is enormously important that Wales is given a voice within a structure that reflects the United Kingdom.

I would like to see a structure that reflects Wales, Scotland, England and Northern Ireland. It should be a structure that contains a mixture of elected and nominated members and gives people a chance to apply for jobs in this new second chamber. It should also find ways of bringing together politicians and people who are not politicians, but who play roles in our society across the United Kingdom.

There is a big question in the consultation document about the broadening of representation. Clearly, the current House of Lords is an unrepresentative body. We have learnt a lot in Wales and Scotland about how to do things differently, but not enough, as we have failed to bring any black and ethnic minorities into our new Assemblies.

The National Assembly for Wales is in an unique position in the United Kingdom of having achieved a representation of 40 per cent women. I would like the new second

hynny? Yr ydym wedi dysgu llawer dros y ddwy flynedd diwethaf yn y broses o drafodaeth ynghylch sut i sefydlu ein Cynulliad. Mae hynny'n ein rhoi mewn sefyllfa unigryw i allu cynghori a rhoi gwybod i'n cyd-weithwyr yn Llundain am yr hyn a allai weithio a sut i gyflawni'r newid hwn.

I mi, mae'n hanfodol bwysig bod yr ail siambr newydd yn manteisio ar yr hyn a ddysgwyd gennym a hefyd yn cynrychioli'r trefniant newydd yn y Deyrnas Unedig a welir mewn datganoli. Mae'n gyfle i greu sefydliad penderfynu gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig sydd yn adlewyrchu cymdeithas lle y mae gennym bedair cenedl: Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Mae'n bwysig inni ddefnyddio'r cyfle hwn i gyfuno anghenion a dyheadau ac wrth wneud hynny i adlewyrchu realiti gwleidyddol yr hyn y mae datganoli wedi ei olygu. Mae'n hynod o bwysig i Gymru gael llais o fewn strwythur sy'n adlewyrchu'r Deyrnas Unedig.

Hoffwn weld strwythur sy'n adlewyrchu Cymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Dylai fod yn strwythur sy'n cynnwys cymysgedd o aelodau etholedig ac enwebedig ac yn rhoi cyfle i bobl ymgeisio am swyddi yn yr ail siambr newydd hon. Dylai hefyd ganfod ffyrdd i greu cysylltiad rhwng gwleidyddion a rhai nad ydynt yn wleidyddion, ond sydd yn chwarae rolau yn ein cymdeithas ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae yna gwestiwn mawr yn y ddogfen ymgynghorol am ehangu cynrychiolaeth. Mae'n amlwg bod Tŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd yn gorff anghynrychioladol. Yr ydym wedi dysgu llawer yng Nghymru a'r Alban am y modd i wneud pethau'n wahanol, ond dim digon, gan ein bod wedi methu dod ag unrhyw leiafrifoedd du neu ethnig i'n Cynulladau newydd.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn sefyllfa unigryw yn y Deyrnas Unedig am ei fod wedi sicrhau cynrychiolaeth o 40 y cant o fenywod. Hoffwn weld yr ail siambr newydd

chamber for the United Kingdom to learn from our experience and recognise that, with a more equal representation of the sexes, you have better debate, better decision making and a more interesting and exciting variety of views. I am sure that some Conservative Party meetings must be boring without any women participating, but I am sure that there are some among you who can represent women's views.

I would like to see the Government take further steps and actually require that we have equal representation of women and men in a second chamber, as this represents the society that it serves. It should also be ensured that there is a representation of black and ethnic minorities, people with disabilities, young people and people from different backgrounds.

This is an opportunity to make improvements. I would like to see amendments to the Sex Discrimination Act 1975 recognising that a genuine democracy is one in which women and men are equally able to participate. It is also an opportunity to build on the lessons we have achieved for a new kind of chamber and a new kind of debate. It should be a chamber where we do not hide behind names and patronage and pomp, but try to be open with each other; one where we identify problems and together try to solve them. I hope we can move away from all the ceremony and pomp that has been attached to the House of Lords.

Finally the question about the role of the chamber. As the chamber will reflect the whole of the United Kingdom, it is extremely important that it has a responsibility for very principled issues. It needs to have an overview about the sort of society we wish to be. It needs to be aware of the values of social justice and equality, of human rights issues and the overall constitutional questions concerning how we want to operate. This is a unique opportunity and it is very important here in Wales that we offer our experience and ensure that the new settlement takes account of and acknowledges the changes in the United Kingdom that devolution represents.

i'r Deyrnas Unedig yn dysgu o'n profiad ni ac yn cydnabod, pan geir cynrychiolaeth fwy cyfartal rhwng y rhywiau, fod y drafodaeth yn well, y broses penderfynu'n well a'r amrywiaeth o safbwyntiau'n fwy diddorol a chyffrous. Yr wyf yn sicr bod rhai o gyfarfodydd y Blaid Geidwadol yn ddiflas heb unrhyw fenywod yn cyfrannu, ond yr wyf yn sicr bod rhai yn eich plith sy'n gallu cynrychioli barn benywod.

Hoffwn weld y Llywodraeth yn cymryd camau pellach ac yn ei gwneud yn ofynnol inni gael cynrychiolaeth gyfartal o fenywod a dynion mewn ail siambr, gan fod hyn yn adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu. Dylid hefyd sicrhau bod cynrychiolaeth o leiafrifoedd du ac ethnig, pobl ag anableddau, pobl ifanc a phobl o wahanol gefndiroedd.

Mae hyn y gyfle i wneud gwelliannau. Hoffwn weld diwygiadau yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 i gydnabod bod gwir ddemocratiaeth yn un lle y mae benywod a dynion â'r un gallu i gymryd rhan. Mae hefyd yn gyfle i adeiladu ar sail y gwersi a gyflawnwyd gennym ar gyfer math newydd o siambr a math newydd o ddadlau. Fe ddylai fod yn siambr lle na fyddwn yn cuddio y tu ôl i enwau a nawdd a rhwysg, ond yn ceisio bod yn agored â'n gilydd; un lle y byddwn yn dynodi problemau ac yn ceisio eu datrys gyda'n gilydd. Gobeithio y gallwn symud oddi wrth yr holl ddefodaeth a rhwysg a fu ynglŷn â Thŷ'r Arglwyddi.

Yn olaf, y cwestiwn ynghylch rôl y siambr. Gan y bydd y siambr yn adlewyrchu'r cwbl o'r Deyrnas Unedig, mae'n bwysig iawn bod ganddi gyfrifoldeb dros faterion egwyddorol iawn. Rhaid iddi gael uwcholwg ynghylch y math o gymdeithas y dymunwn fod. Rhaid iddi fod yn ymwybodol o werthoedd cyfiawnder cymdeithasol a chydarddoldeb, materion iawnderau dynol a'r cwestiynau cyfansoddiadol cyffredinol sy'n ymwneud â'r modd yr ydym am weithredu. Mae hyn yn gyfle unigryw ac mae'n bwysig iawn yma yng Nghymru ein bod yn cynnig ein profiad ac yn sicrhau bod y trefniant newydd yn rhoi sylw i ac yn cydnabod y newidiadau yn y Deyrnas Unedig a welir mewn datganoli.



**Christine Chapman:** I wish to follow on from what Val has said. The key point of this debate and of the wider consultation on the reform of the House of Lords is made in the consultation document issued by the Royal Commission. It reads:

‘In general, how might a modern second chamber contribute to the better government of the United Kingdom?’

3:28 p.m.

This is the crux of the issue. Has the current structure served us in the best way possible and if not, how can we change it? It is also proposed in that consultation document that the role of the second chamber should complement rather than duplicate the role of the House of Commons. Yet it should continue to challenge the power of the executive, the ruling Government. These three things—better government, complementary work and challenging the executive—are the three core values that any reform of the second chamber should adopt. These aims need to be coupled with the way in which the composition of a new second chamber is established. Again, quoting from the consultation document, I firmly believe that the reform should lead to the second chamber ‘being more representative of society as a whole’. At present, as identified in the White Paper, ‘The ... House of Lords suffers from a lack of legitimacy because of its anachronistic and unrepresentative composition’.

This is particularly true in the case of women, and I will endorse what Val has already said. And at this point, I would like to welcome Jane taking the Chair today.

At present, of the 751 Peers by Succession in the Lords, only 17, or two per cent, are women. Of the 478 Life Peers appointed under the terms of 1958 Life Peerages Act, only 87—18 per cent—are women. Indeed, of the 1,290 members of the House only 104 are women. That is eight per cent overall. These are very stark figures. The House is completely out of step, not only with the

**Christine Chapman:** Hoffwn ddal ymlaen â'r hyn a ddywedodd Val. Fe geir pwynt allweddol y ddadl hon a'r ymgynghoriad ehangach ar ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi yn y ddogfen ymgynghorol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Brenhinol Mae'n darllen:

‘Yn gyffredinol, sut y gallai ail siambr fodern gyfrannu at lywodraethu'r Deyrnas Unedig yn well?’

Dyma graidd y mater. A yw'r strwythur presennol wedi ein gwasanaethu yn y modd gorau posibl ac os nad yw, ym mha fodd y gallwn ei newid? Fe gynigir hefyd yn y ddogfen ymgynghorol hon y dylai rôl yr ail siambr ategu yn hytrach na dyblygu rôl Tŷ'r Cyffredin. Ond fe ddylai barhau i herio pŵer yr adran weithredol, y Llywodraeth sydd mewn grym. Y tri pheth hyn—llywodraeth well, gwaith ategol a herio'r adran weithredol—yw'r tri gwerth craidd y dylid eu mabwysiadu mewn unrhyw ddiwygiad ar yr ail siambr. Mae angen cyplysu'r nodau hyn â'r modd y sefydlir cyfansoddiad yr ail siambr newydd. Unwaith eto, gan ddyfynnu o'r ddogfen ymgynghorol, yr wyf yn credu'n gryf y dylai'r diwygiad beri bod yr ail siambr ‘yn fwy cynrychioladol o'r gymdeithas gyfan’. Ar hyn o bryd, fel y nodwyd yn y Papur Gwyn, ‘Mae Tŷ'r Arglwyddi yn dioddef o ddiffyg cyfreithlondeb oherwydd ei gyfansoddiad anacronistig ac anghynrychioladol’.

Mae hyn yn arbennig o wir yn achos benywod, ac fe ategaf yr hyn a ddywedodd Val eisoes. Ac ar y pwynt hwn, hoffwn groesawu Jane wrth iddi ddod i'r Gadair heddiw.

Ar hyn o bryd, o blith y 751 o Arglwyddi Etifeddol yn Nhŷ'r Arglwyddi, dim ond 17, neu ddau y cant, sydd yn fenywod. O blith y 478 o Arglwyddi am Oes a benodwyd yn ôl telerau Deddf Arglwyddiaethau am Oes 1958, dim ond 87—18 y cant—sydd yn fenywod. Yn wir, o'r 1,290 o aelodau'r Tŷ dim ond 104 sydd yn fenywod. Mae hynny'n wyth y cant at ei gilydd. Mae'r rhain yn

country as a whole, but also with the compositions of other elected bodies in this country.

The House of Commons has come a long way from 1918 when Countess Markievicz was elected, but never took her seat, to the 1997 by-election when Jacqui Lait became the 121st female member of the current Chamber. I would like to add that 101 of those represent the Labour Party. The Scottish Parliament has 48 women in its 129 Members. Here in this Chamber, 24 of the 60 Assembly Members are women, 15 of whom represent Labour. That is a certain amount of success, which I am pleased about. However, we cannot afford to be complacent: we have a long way to go.

We have, therefore, a range of representation, from eight per cent in the Lords to 40 per cent here in Cardiff. If we are to make the Lords more representative, then any question about its composition must seriously address the issue of under-representation by women.

I also accept that the representation of women is much better when compared to the representation of ethnic minorities, disabled persons and, to a lesser extent, young people. All these sections of society must have representation. This must not be tokenistic, but real representation in this new second chamber. To achieve that, we must think seriously about part of the chamber being directly elected and part of it being nominated. The nominations must come not only from the Government and other political parties, but from this Chamber, the Scottish Parliament, the European Parliament, and even the voluntary sector. The business world and the public must have a voice as well, to add an independent element which will bring even more expertise and experience to the chamber.

To summarise, this second chamber must be a multi-faith one, it must draw from all sections of society and it must have representation that mirrors Britain today.

ffigurau diffaith iawn. Mae'r Tŷ yn gwbl anghydnaws, nid yn unig â'r wlad i gyd, ond â chyfansoddiad cyrff etholedig eraill yn y wlad hon.

Mae Tŷ'r Cyffredin wedi newid llawer rhwng 1918 pryd yr etholwyd yr Iarlles Markievicz, er na chymerodd ei sedd erioed, a'r is-etholiad yn 1997 pryd y daeth Jacqui Lait yn 121fed aelod benywaidd o'r Siambr bresennol. Hoffwn ychwanegu bod 101 o'r rheini'n cynrychioli'r Blaid Lafur. Mae gan Senedd yr Alban 48 o fenywod ymhlith ei 129 o Aelodau. Yma yn y Siambr hon, mae 24 o'r 60 o Aelodau'r Cynulliad yn fenywod, 15 ohonynt yn cynrychioli Llafur. Mae hynny'n llwyddiant i ryw raddau, ac yr wyf yn falch am hynny. Fodd bynnag, ni allwn fforddio bod yn ddifater: mae gennym ffordd bell o'n blaen.

Felly, mae gennym amrediad o gynrychiolaeth, o wyth y cant yn Nhŷ'r Arglwyddi i 40 y cant yma yng Nghaerdydd. Os ydym i wneud Tŷ'r Arglwyddi yn fwy cynrychioladol, mae'n rhaid i unrhyw gwestiwn ynghylch ei gyfansoddiad roi sylw i fater tangynrychiolaeth benywod.

Yr wyf hefyd yn derbyn bod cynrychiolaeth benywod yn well o lawer o'i chymharu â chynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl ac, i raddau llai, pobl ifanc. Rhaid i'r holl rannau hyn o gymdeithas gael eu cynrychioli. Ni ddylai hynny fod yn symbolaidd, ond yn gynrychiolaeth wirioneddol yn yr ail siambr newydd hon. Er mwyn cyflawni hynny, rhaid inni feddwl o ddifrif ynghylch ethol rhan o'r siambr yn uniongyrchol ac enwebu rhan arall. Ni ddylai'r enwebiadau ddod o'r Llywodraeth a'r pleidiau gwleidyddol eraill yn unig, ond hefyd o'r Siambr hon, Senedd yr Alban, Senedd Ewrop, a hyd yn oed y sector gwirfoddol. Rhaid i fyd busnes a'r cyhoedd gael llais hefyd, er mwyn ychwanegu elfen annibynnol a ddaw â hyd yn oed fwy o arbenigaeth a phrofiad i'r siambr.

I grynhoi, rhaid i'r ail siambr hon fod yn un amlgrefyddol, rhaid iddi ddenu rhai o bob rhan o gymdeithas a rhaid iddi gael cynrychiolaeth sy'n adlewyrchu Prydain

This is certainly not the case at the moment. It must also have the powers to remain a scrutiniser of the executive and a part of the United Kingdom legislative process. It also has to maintain the cross-bench element so that no one party will have overall majority.

The reform process is long overdue, and if we ensure that the Chamber in this Assembly sends a message to the Royal Commission that the reform should take place around the principles of inclusivity and equality of opportunity, that will be an excellent starting point for the reform. Along with my colleagues in the Labour Party, I certainly look forward to a modern House of Lords in the new millennium.

**Helen Mary Jones:** I would like to add my own welcome to Jane Davidson in the Chair. I think one of the many achievements of this Chamber is that we have a gender-balanced Presiding team. In that context, I would like to add to the points made by the previous two speakers.

It is clear that one of the great achievements of our new democracy in Wales is the way in which we have succeeded, at least to a certain extent, in reversing the traditional exclusion of women from public life. As Christine has illustrated, the House of Lords in its previous form has been a great bastion of male privilege. I would like to see the progress that we have made in that direction extended. There are some practical steps that can be taken towards this end. There are things we have achieved here, such as family-friendly working hours, and others that we have not yet been able to achieve, such as facilities for children.

However, the nettle has to be grasped about measures to support equality of representation and fairer representation. I support much of what Val has said about that. There is an argument, which I do not subscribe to, that in a directly elected chamber the measures used to promote equality of opportunity among candidates should be matters for the individual political parties. Those of us in the two parties

heddiw. Mae'n sicr nad yw hynny'n wir ar hyn o bryd. Rhaid iddi hefyd gael y pwerau i barhau i archwilio'r adran weithredol a bod yn rhan o broses ddeddfwriaethol y Deyrnas Unedig. Rhaid iddi hefyd gadw elfen y fainc groes fel na fydd yr un blaid â mwyafrif dros bawb.

Mae'r broses ddiwygio yn hir-ddisgwyliedig, ac os sicrhawn y bydd y Siambr yn y Cynulliad hwn yn anfon neges i'r Comisiwn Brenhinol i'r perwyl y dylai'r diwygiad ddigwydd o gwmpas egwyddorion cynwysoldeb a chyfle cyfartal, bydd hynny'n fan cychwyn ardderchog i'r diwygiad. Yr wyf finnau fel fy nghyd-weithwyr yn y Blaid Lafur yn sicr yn edrych ymlaen at weld Tŷ'r Arglwyddi modern yn y mileniwm newydd.

**Helen Mary Jones:** Carwn innau estyn croeso i Jane Davidson i'r Gadair. Credaf mai un o gyflawniadau lawer y Siambr hon yw bod gennym dîm Llywyddu sy'n gytbwys rhwng y rhywiau. Yn y cyd-destun hwnnw, hoffwn ychwanegu at y pwyntiau a wnaed gan y ddwy siaradwraig ddiwethaf.

Mae'n amlwg mai un o gyflawniadau mawr ein democratiaeth mwydd yng Nghymru yw'r modd y llwyddasom, i ryw raddau o leiaf, i wrthdroi'r eithrio traddodiadol o fenywod o fywyd cyhoeddus. Fel y dangosodd Christine, mae Tŷ'r Arglwyddi ar ei ffurf flaenorol yn gadarnle mawr i fraint gwrywaidd. Hoffwn weld ymestyn ar y cynnydd a wnaethom yn y cyfeiriad hwnnw. Mae rhai camau ymarferol y gellir eu cymryd i'r diben hwn. Mae yna bethau yr ydym wedi eu cyflawni yma, fel oriau gwaith sy'n gefnogol i deuluoedd, ac eraill nad ydym wedi gallu eu cyflawni eto, fel cyfleusterau ar gyfer plant.

Fodd bynnag, rhaid mynd i'r afael â'r angen am fesurau i gefnogi cynrychiolaeth gyfartal a chynrychiolaeth decach. Yr wyf yn cefnogi llawer o'r hyn a ddywedodd Val am hynny. Mae yna ddadl, nad wyf yn ei chefnogi, y dylai'r mesurau a ddefnyddir mewn siambr a etholir yn uniongrychol i hybu cyfle cyfartal ymysg ymgeiswyr fod yn fater i'r pleidiau gwleidyddol unigol. Bydd y rhai ohonom yn y ddwy blaid a gynrychiolir yma a gymerodd

represented here that did take that route will know that it causes considerable pain and anguish, but that at least it means that the political parties maintain control. However, in an appointed chamber or in a partly appointed chamber, there is no argument for this. I would strongly advocate that the Commission asks the Government to grasp the nettle and to make specific recommendations around gender-balance mechanisms for any appointed members of the new chamber. There should also be specific mechanisms to ensure that other traditionally-excluded groups are included in the new body, particularly people from black and ethnic minority communities. Those mechanisms would, of course, be difficult to achieve and it would be difficult to have a consensus on them. However, unless we do so, we know that the traditional structures of male power will deliver imbalance unless positive action is taken. This will not be easy, but it is important that the Committee explores it.

**Mike German:** I hope, Jane, that you will enjoy the Chair and that it will be the first of many occasions that we have a gender-balanced Chair. I would also like to reiterate the points made earlier about the difficulty of making amendments, because this is a matter on which we are trying to seek a Welsh perspective, rather than merely a party view which we will all present in our own way. There are matters in this motion which we will feel unhappy with and will not be able to support. Had we had the opportunity to make the amendments, we would have been able to reach a widespread view across the whole of this Assembly. Perhaps it would be sensible, as a temporary measure, to use e-mails to send the information to everyone in advance.

This House of Lords reform is just one of the keys to reforming our democracy, a reform which as you know is long overdue and one in which we have played a key part. I hope that this will be followed by other proposals, also linked to the reform of our democracy, particularly voting reform for both the House

y llwybr hwnnw yn gwybod ei fod yn achosi cryn boen a gofid, ond ei fod o leiaf yn golygu bod y pleidiau gwleidyddol yn cadw rheolaeth. Fodd bynnag, mewn siambr lle y penodwyd rhai neu'r cwbl o'r aelodau, nid oes dadl o blaid hynny. Byddwn yn dadlau'n gryf y dylai'r Comisiwn ofyn i'r Llywodraeth fynd i'r afael â'r mater hwn a gwneud argymhellion penodol ynghylch mecanweithiau i gydbwyso'r rhywiau ar gyfer unrhyw aelodau a benodir i'r siambr newydd. Dylid hefyd cael mecanweithiau penodol i sicrhau y bydd grwpiau eraill a eithrir yn draddodiadol yn cael eu cynnwys yn y corff newydd, yn enwedig pobl o gymunedau lleiafrifol du ac ethnig. Wrth gwrs, byddai'r mecanweithiau hynny'n anodd eu cyflawni a byddai'n anodd cael consensws yn eu cylch. Fodd bynnag, os na wnawn hynny, fe wyddom y bydd strwythurau traddodiadol grym gwrywaidd yn dod ag anghydbwysedd os na chymerir camau cadarnhaol. Ni fydd hyn yn rhwydd, ond mae'n bwysig bod y Pwyllgor yn ymchwilio iddo.

**Mike German:** Gobeithio y byddwch yn mwynhau bod yn y Gadair, Jane ac mai hwn fydd yr achlysur cyntaf ymysg llawer pryd y cawn Gadair gytbwys rhwng y rhywiau. Yr wyf hefyd am ailadrodd y pwyntiau a wnaed yn gynharach am anhawster cyflwyno gwelliannau, oherwydd mae hyn yn fater yr ydym yn ceisio canfod safbwynt Cymreig arno, yn hytrach na barn plaid y byddwn yn ei chyflwyno yn ein ffordd ein hunain. Mae yna faterion yn y cynnig hwn y byddwn yn teimlo'n anhapus yn eu cylch ac na fyddwn yn gallu eu cefnogi. Pe baem wedi cael cyfle i gyflwyno'r gwelliannau, byddem wedi gallu cyrraedd safbwynt eang ar draws y cwbl o'r Cynulliad hwn. Efallai y byddai'n synhwyrol, fel mesur dros dro, i ddefnyddio negeseuon e-bost i anfon yr wybodaeth at bawb ymlaen llaw.

Nid yw'r diwygio hwn ar Dŷ'r Arglwyddi ond yn un allwedd i ddiwygio'n democratiaeth, diwygiad sydd fel y gwyddoch yn hir-ddisgwyliedig ac yn un yr ydym wedi chwarae rhan allweddol ynddo. Gobeithio y bydd cynigion eraill yn ei ddilyn, a'r rheini hefyd yn gysylltiedig â

of Commons and local government, which are the missing elements in the debate at present. It is crucial that this second chamber is stable. It must produce better government, and that is why it has to contribute to the debate that is going on in this Chamber and in the rest of the United Kingdom about the different settlements. I must say also that I respect the way in which the Conservative leader, Rod Richards, has given the views of his party this afternoon. The measured way in which he presented his views is part of the new spirit, and I hope that he will feel that that is the way to do things in future. He was able to raise issues in a positive way, which I and our Party have some sympathy with. We see the second chamber as a counterweight to the House of Commons, but it can and should go beyond the powers that it has at present. It should go beyond being a representative voice, and also indicate the role that it can play for the regions and states of the United Kingdom.

3:38 p.m.

A counterweight is more than a reviewing body and it could look at regional issues. It should look at European relationships that are developing between Britain's regions and states and those taking place around Europe. It can look at the devolution process and the changes taking place. It can have a voice in proposing further changes, which will result from the existing and proposed changes to our constitutional settlement. The reforms that we are engaged in represent only a step forward on the road and not the final destination.

This Chamber could sort out the issues as they arrive and take us forward. The corollary with this is Spain, where the autonomous regions have different levels of power according to the demands raised in those communities. Some of them have tax raising powers and some do not. Some of them have the power to make their own laws, some do not, and some wish to retain their power with Madrid and some do not. It is the

diwygio'n democratiaeth, yn enwedig diwygio'r dull pleidleisio ar gyfer Tŷ'r Cyffredin a llywodraeth leol, sydd yn elfennau absennol yn y ddadl ar hyn o bryd. Mae'n holl bwysig bod yr ail siambr hon yn sefydlog. Rhaid iddi greu llywodraeth well, a dyna pam y mae'n rhaid iddi gyfrannu at y ddadl sy'n mynd ymlaen yn y Siambr hon ac yng ngweddill y Deyrnas Unedig ynghylch y trefniadau gwahanol. Rhaid imi ddweud hefyd fy mod yn parchu'r ffordd y cyflwynodd arweinydd y Ceidwadwyr, Rod Richards farn ei blaid brynhawn heddiw. Mae'r modd pwyllog y cyflwynodd ei safbwyntiau yn rhan o'r ysbryd newydd, a gobeithio y bydd yn teimlo mai hyn yw'r ffordd i wneud pethau yn y dyfodol. Yr oedd yn gallu codi materion mewn modd cadarnhaol, rhai y mae gennyf fi a'n Plaid rywfaint o gydymdeimlad â hwy. Fe welwn yr ail siambr fel gwrthbwys i Dŷ'r Cyffredin, ond fe all ac fe ddylai fynd ymhellach na'r pwerau sydd ganddo ar hyn o bryd. Fe ddylai fod yn amgenach na llais cynrychioladol, a dangos hefyd y rôl y gall ei chwarae ar ran rhanbarthau a gwladwriaethau'r Deyrnas Unedig.

Mae gwrthbwys yn amgenach na chorff adolygu ac fe allai ystyried materion rhanbarthol. Dylai edrych ar gysylltiadau Ewropeaidd sy'n datblygu rhwng rhanbarthau a gwladwriaethau Prydain a'r rhai sy'n digwydd o gwmpas Ewrop. Fe all edrych ar y broses datganoli a'r newidiadau sy'n digwydd. Fe all gael llais wrth gynnig newidiadau pellach, a fydd yn ganlyniad i'r newidiadau presennol a'r rhai arfaethedig yn ein trefniant cyfansoddiadol. Nid yw'r diwygiadau yr ydym yn rhan ohonynt ond yn un cam ymlaen ar y ffordd ac nid pen y daith.

Gallai'r Siambr hon ddidol y materion wrth iddynt gyrraedd a mynd â ni yn ein blaen. Gellir cymharu hynny â Sbaen, lle y mae gan y rhanbarthau ymreolus wahanol lefelau o bŵer yn ôl y galw sy'n codi yn y cymunedau hynny. Mae gan rai ohonynt bwerau i godi trethi, ac mae rhai heb y pwerau hynny. Mae gan rai ohonynt bŵer i wneud eu deddfau eu hunain, ac mae rhai heb y pŵer hwnnw, ac mae rhai yn dymuno cadw eu pŵer gyda

people of those regions who make those decisions through their democratic voice in their autonomous regional Assemblies.

I respect how my party, the Liberal Democrats, has played a part in the reform of these democratic institutions over recent years. It takes strength for a party to join a joint Cabinet Committee and, to bring about and contribute to modernising government. That role should be a symbol for the way we are perceived—not just here but throughout the United Kingdom, in trying to indicate ways in which we can work together.

This White Paper asks whether a reformed House of Lords might have some overt role as a representative of the regions or the regional bodies. We are not in favour of second level nominations for such important bodies. This is because, for example, political deals were quite rightly done in the European Committee of the Regions, and the power was placed in the hands of those not directly representing other bodies—unrepresentative bodies.

When you have that sort of representation, the real issue facing my party and me is dual membership. You are in fact, representing two different democratic institutions at the same time. Our party decided that when we built the rules, Members of Parliament could stand for the Assembly if they wished but would have to decide which of the two they wished to continue with by the next general election. I suspect it is probably the same for many people here who have a dual membership. The reason for opposing dual membership in the longer term and in reality is because of the duality of interest. That duality of interest cannot be played out, because you are elected to represent Welsh people, to be here and to take that view. But you can present those positions in many ways. We believe the First Secretary should have the right to make presentations in the new reformed Chamber just as the Secretary of State will have in the red chair in this Chamber. This chair will be for the new

Madrid, ac mae rhai nad ydynt am wneud hynny. Pobl y rhanbarthau hynny sy'n gwneud y penderfyniadau hynny drwy eu llais democrataidd yn eu Cynulliadau rhanbarthol ymreolus.

Yr wyf yn parchu'r modd y mae fy mhlaid, y Democratiaid Rhyddfrydol, wedi chwarae rhan wrth ddiwygio'r sefydliadau democrataidd hynny dros y blynyddoedd diwethaf hyn. Mae angen cadernid ar blaid i ymuno mewn Cyd-bwyllgor o'r Cabinet ac i beri ac i gyfrannu at foderneiddio llywodraeth. Dylai'r rôl honno fod yn symbol o'r modd y'n gwelir—nid yma yn unig ond drwy'r Deyrnas Unedig, wrth geisio dangos ffyrdd y gallwn weithio gyda'n gilydd.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn gofyn a allai Tŷ'r Arglwyddi ar ôl ei ddiwygio fod â rhyw rôl agored fel cynrychiolydd i'r rhanbarthau neu'r cyrff rhanbarthol. Nid ydym o blaid enwebiadau ar yr ail lefel i gyrff pwysig o'r fath. Y rheswm am hynny yw bod bargeinion gwleidyddol yn cael eu taro yn briodol, er enghraifft, ym Mhwyllgor Rhanbarthau Ewrop, a bod y pŵer yn cael ei roi yn nwylo rhai nad oeddent yn cynrychioli cyrff eraill yn uniongyrchol—cyrff anghynrychioladol.

Pan fydd gennych y math hwnnw o gynrychiolaeth, y gwir fater sy'n wynebu fy mhlaid a minnau yw aelodaeth ddeuol. Mewn gwirionedd, byddech yn cynrychioli dau sefydliad democrataidd gwahanol ar yr un pryd. Pan oeddem yn sefydlu ein rheolau, fe benderfynodd ein plaid y gallai Aelodau Seneddol sefyll am y Cynulliad os oeddent yn dymuno ond y byddai'n rhaid iddynt benderfynu pa un o'r ddau yr oeddent am barhau ynddo erbyn yr etholiad cyffredinol nesaf. Yr wyf yn amau bod hynny'n debygol o fod yn wir am lawer o bobl yma sydd ag aelodaeth ddeuol. Y rheswm dros wrthwynebu aelodaeth ddeuol yn y tymor hwy ac yn ymarferol yw deuoliaeth buddiannau. Ni ellir cyflawni'r ddeuoliaeth buddiannau honno, oherwydd yr ydych wedi'ch ethol i gynrychioli pobl yng Nghymru, i fod yma ac i ymgymryd â'r safbwynt hwnnw. Ond fe ellwch gynrychioli'r safbwyntiau hynny mewn llawer o ffyrdd. Credwn y dylai'r Prif

reformed Secretary of State and he or she will have a right to make presentations according to the Government of Wales Act 1998.

The second chamber should be representative of the people of Wales. Therefore, there is no avoiding the fact that it should be a democratically elected body. These people should be called 'senators'. That is just a view, one of the choices in the Bill. A 'senate' is the universal way of describing a second chamber in most western democracies. We should have six senators for each of the five regions of Wales. That would give 30 Welsh representatives, democratically elected by a form of proportional representation. This form of proportional representation has given the Conservatives a real voice in this Chamber and one they justly deserve because it represents the views of Welsh people. Therefore I feel proportional representation is now established as the way in which we vote in Wales—both at European and Assembly elections and will also be adhered to for the two representations to follow.

The long time span should be a part of the new representation. If you have a directly elected body from Wales, it is possible to have that continuity beyond the normal cycle of four years. Perhaps six years would be more appropriate so that it can span two Parliamentary sessions in Westminster and two Assembly sessions. The reformed House of Lords, the new senate or the new Chamber, should be a voice for Wales in the United Kingdom. It should safeguard our relationships with Westminster and the other devolved parts of the United Kingdom. Above all, it must be democratic, a real voice voted for and supported by the people of Wales.

**Alun Pugh:** Now is not the time to revise the House of Lords. It should have been done 50

Ysgrifennydd gael yr hawl i gyflwyno materion yn y Siambr ddiwygiedig newydd yn union fel y bydd hawl gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn y gadair goch yn y Siambr hon. Bydd y gadair hon ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol diwygiedig newydd a bydd ganddo ef neu hi hawl i gyflwyno materion yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Fe ddylai'r ail siambr fod yn gynrychioladol o bobl Cymru. Felly, ni ellir osgoi'r ffaith y dylai fod yn gorff a etholir yn ddemocrataidd. Dylid galw'r bobl hyn yn 'senators'. Un safbwynt yw hynny, un o'r dewisiadau yn y Mesur. 'Senate' yw'r modd cyffredinol o ddisgrifio ail siambr yn y rhan fwyaf o ddemocratiaethau'r gorllewin. Dylem gael chwe seneddwr dros bob un o bum rhanbarth Cymru. Byddai hynny'n rhoi 30 o gynrychiolwyr o Gymru, wedi eu hethol yn ddemocrataidd drwy ffurf ar gynrychiolaeth gyfrannol. Mae'r ffurf hon ar gynrychiolaeth gyfrannol wedi rhoi llais gwirioneddol i'r Ceidwadwyr yn y Siambr hon ac un y maent yn ei haeddu am eu bod yn cynrychioli safbwyntiau pobl yng Nghymru. Teimlaf, felly, fod cynrychiolaeth gyfrannol wedi ei sefydlu bellach fel y modd y byddwn yn pleidleisio yng Nghymru—yn etholiadau Ewrop ac etholiadau'r Cynulliad ac y cedwir ati ar gyfer y ddwy gynrychiolaeth sydd i ddilyn.

Dylai'r rhychwant amser hir fod yn rhan o'r gynrychiolaeth newydd. Os bydd gennyh gorff o Gymru a etholir yn uniongyrchol, mae modd cadw'r parhad hwnnw y tu hwnt i'r cylch arferol o bedair blynedd. Efallai y byddai chwe blynedd yn fwy priodol fel y gallai gwmpasu dau sesiwn Seneddol yn San Steffan a dau sesiwn yn y Cynulliad. Dylai Tŷ'r Arglwyddi diwygiedig, y senedd newydd neu'r Siambr newydd, fod yn llais dros Gymru yn y Deyrnas Unedig. Dylai ddiogelu ein cysylltiadau â San Steffan a'r rhannau datganoledig eraill o'r Deyrnas Unedig. Yn fwy na dim, rhaid iddo fod yn wir lais democrataidd y pleidleisir drosto ac a gefnogir gan bobl Cymru.

**Alun Pugh:** Nid hon yw'r adeg i ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi. Dylasai hynny fod wedi

years ago. To be fair, the great reforming Labour Government that took office in 1945 had other pressing concerns. This included creating the national health service in the teeth of Tory opposition. The honour of excluding hereditary privilege—

**David Davies:** Does Alun Pugh accept that the idea of the national health service originated during the second world war? Does he further accept it was part of a number of reforms proposed by Beveridge and would have taken place whichever Government finally took office in 1945?

**Alun Pugh:** No, I do not accept that. I think it is one of my party's crowning achievements to have brought the national health service into being. The Blair Government excluded hereditary privilege from our law-making process. I ask those who say this Labour Government is less than radical, to look at the real evidence to date, which is a modern constitutional settlement, record spends on schools and hospitals and the introduction of a national minimum wage. Now I wish to deal with the West Lothian question, because in the bars of Colwyn Bay they speak of little else.

Mike rightly points out the asymmetric role and nature of devolution in Spain. However, we have yet to hear of the West Galician question, it is just not a real issue. There is no place for hereditary privilege in Britain today. Nobody should sit in a reformed second chamber unless they are elected there. However, direct elections could be a recipe for constitutional confrontation or deadlock with the Commons, so there are practical difficulties. Despite the enormous public enthusiasm for elections and referenda, I believe a system of indirect elections to the second chamber is the way forward. I propose that three principles should underpin the new system. First, the devolved Assemblies should be able to elect Members of the second chamber. Secondly, I agree with Val and Chris that there is a case for guaranteeing equal representation of male and female Members. One of the most pleasing aspects of this Assembly is that

digwydd 50 mlynedd yn ôl. I fod yn deg, yr oedd materion eraill yn pwysu ar y Llywodraeth Lafur ddiwygiadol fawr a ddaeth i rym yn 1945. Ymhlith y rheini yr oedd creu'r gwasanaeth iechyd gwladol yn nannedd gwrthwynebiad y Toriaid. Mae'r fraint o hepgor braint etifeddol—

**David Davies:** A yw Alun Pugh yn derbyn bod syniad y gwasanaeth iechyd gwladol yn deillio o gyfnod yr ail ryfel byd? A yw'n derbyn ymhellach ei fod yn rhan o nifer o ddiwygiadau a gynigiwyd gan Beveridge ac y byddai wedi digwydd ni waeth pa Lywodraeth a ddeuai i rym yn 1945?

**Alun Pugh:** Nac ydwyf, nid wyf yn derbyn hynny. Credaf mai un o gyflawniadau pennaf fy mhlaid oedd creu'r gwasanaeth iechyd gwladol. Mae Llywodraeth Blair wedi hepgor braint etifeddol o'n proses deddfu. Gofynnaf i'r rhai sy'n dweud nad yw'r Llywodraeth Lafur hon yn un radicalaidd, edrych ar y wir dystiolaeth hyd yn hyn, sef trefniant cyfansoddiadol modern, y gwariant uchaf erioed ar ysgolion ac ysbytai a chyflwyno cyflog cenedlaethol isaf. Yn awr yr wyf am ymdrin â chwestiwn West Lothian, oherwydd yn nhafarndai Bae Colwyn, prin bod sôn am ddim byd arall.

Fe gyfeiriodd Mike yn briodol at rôl a natur anghymesur datganoli yn Sbaen. Fodd bynnag, yr ydym eto i glywed sôn am gwestiwn Gorllewin Galicia, oherwydd nid yw'n fater sy'n codi mewn gwirionedd. Nid oes lle i fraint etifeddol ym Mhrydain heddiw. Ni ddylai neb eistedd mewn ail siambr ddiwygiedig heb gael eu hethol i fod yno. Fodd bynnag, fe allai etholiadau uniongyrchol fod yn ffordd sicr i greu gwrthdaro cyfansoddiadol neu anghytundeb llwyr â Thŷ'r Cyffredin, felly mae yna anawsterau ymarferol. Er gwaethaf y brwdfrydedd enfawr ymysg y cyhoedd am etholiadau a refferenda, credaf mai system o etholiadau anuniongyrchol i'r ail siambr yw'r ffordd ymlaen. Yr wyf yn cynnig y dylai tair egwyddor fod yn sail i'r system newydd. Yn gyntaf, dylai'r Cynullïadau datganoledig allu ethol Aelodau o'r ail siambr. Yn ail, yr wyf yn cytuno â Val a Chris fod dadl o blaid gwarantu cynrychiolaeth gyfartal o Aelodau



most parties have made a significant effort to achieve a gender balance of candidates. Although I accept we all have some way to go in getting a better representation of ethnic minorities. Finally, the dawn of the twenty first century is a fitting time to consider the state's constitutional relationship with one of Britain's many strands of religious belief. I believe the constitutional separation of church and state is a Welsh practice that I would be happy to see adopted throughout Britain. The new chamber should have no places guaranteed and reserved for representatives of religious organisations.

**Janet Davies:** It is important that we give wide consideration to the aims of the second chamber and the most effective way of delivering them. During recent years the House of Lords has played a significant role in safeguarding us at times, against House of Commons excesses. This has been its main value—a value that exists despite its hereditary, nominated composition.

3:48 p.m.

The general public knows little of the costs of this safeguard. I am surprised some of the other speakers have not talked of the costs of a second chamber. There will be more interest taken in costs as a result of the chamber's higher profile. We often hear people complain about too much government so there should be a radical look at the whole issue. Perhaps we should ask whether this level of government is one too many, rather than a much maligned local government, working hard to deliver essential services, or this Assembly, which can finally begin the essential task of planning strategies for Wales.

Perhaps we should ask whether the second chamber's role and control against excesses in the House of Commons should be carried out by us, the Northern Ireland Assembly, the Scottish Parliament and some form of regional government in England. After all,

gwrywaidd a benywaidd. Un o'r agweddau mwyaf dymunol ar y Cynulliad hwn yw bod y rhan fwyaf o'r pleidiau wedi gwneud ymdrech sylweddol i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ymhlith eu hymgeiswyr. Er fy mod yn derbyn bod gennym oll ryw faint o ffordd i fynd tuag at sicrhau gwell cynrychiolaeth o leiafrifoedd ethnig. Yn olaf, mae dechrau'r unfed ganrif ar hugain yn adeg briodol i ystyried perthynas gyfansoddiadol y wladwriaeth ag un o'r nifer fawr o greddau crefyddol ym Mhrydain. Credaf fod yr arfer yng Nghymru o wahanu'r eglwys a'r wladwriaeth yn gyfansoddiadol yn un y byddwn yn falch o weld ei fabwysiadu drwy Brydain. Ni ddylai'r siambr newydd warantu neu gadw unrhyw le i gynrychiolwyr cyrff crefyddol.

**Janet Davies:** Mae'n bwysig inni roi ystyriaeth eang i nodau'r ail siambr a'r modd mwyaf effeithiol i'w cyflawni. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn mae Tŷ'r Arglwyddi wedi chwarae rhan bwysig wrth ein hamddiffyn ar brydiau rhag gormodedd Tŷ'r Cyffredin. Dyma fu ei brif werth—gwerth sy'n bod er gwaethaf ei gyfansoddiad etifeddol, enwebedig.

Ychydig a wŷr y cyhoedd am gostau'r amddiffyniad hwn. Yr wyf yn synnu nad yw rhai o'r siaradwyr eraill wedi sôn am gostau'r ail siambr. Bydd mwy o ymddiddori mewn costau o ganlyniad i broffil uwch y siambr. Fe glywn gwynion yn aml gan bobl fod gormod o lywodraeth felly fe ddylid edrych mewn modd radicalaidd ar yr holl fater. Efallai y dylem ofyn a yw'r lefel llywodraeth hon yn un yn ormod, yn hytrach na llywodraeth leol ddirmygedig, sy'n gweithio'n galed i gyflenwi gwasanaethau hanfodol, neu'r Cynulliad hwn, sydd o'r diwedd yn gallu dechrau ar y dasg hanfodol o gynllunio strategaethau i Gymru.

Efallai y dylem ofyn a ddylai rôl a rheolaeth yr ail siambr rhag gormodedd yn Nhŷ'r Cyffredin gael eu cyflawni gennym ni, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Senedd yr Alban a rhyw ffurf ar lywodraeth ranbarthol yn Lloegr. Wedi'r cwbl, mae cyrff o'r fath yn

such bodies are closer to people than the House of Lords. We must consider the most effective way of controlling excesses. I am moving towards suggesting a unicameral system at Westminster. However, I think the second chamber has to be directly elected. I acknowledge the views for having regional representations there, but people are not at ease with some of the constitutional changes. To push for a partly or wholly nominated body will cause more problems and backlash. Direct elections, despite the disadvantages, should take place.

**John Marek:** The First Secretary said we should check the hereditary peers' unbridled power. I agree with that. However, they do not have that much power. I also want to check the Prime Minister's unbridled power and patronage, and possibly that of any future First Secretary of the National Assembly or Scottish Parliament. By virtue of their office, those people tend to have much more unbridled power than hereditary peers in the House of Lords.

I agree with a lot of what people have said. The comments by Rod Richards and Mike German deserve careful consideration. We have heard requests for better representation. In principle, elections are preferred. On Alun Pugh's contribution about indirect elections, I must tell him that in many countries there are upper and lower houses, which have survived well together. I am sure that could happen in the United Kingdom, even if both houses were directly elected. I feel there should be no increase in patronage and no more powers given to the House of Commons. Comments from Val Feld, Christine Chapman and a number of other Members that the House of Lords should be more representative, concern me. I want to disagree with Helen Mary Jones. Equal representation by nomination is second class. It is right for parties to recognise that equal representation is accepted in a community and suggest a fair representation of people of different ethnicities and genders for election.

agosach at bobl nag ydyw Tŷ'r Arglwyddi. Rhaid inni ystyried y dull mwyaf effeithiol i reoli gormodedd. Yr wyf yn symud tuag at awgrymu system un-siambr yn San Steffan. Fodd bynnag, credaf fod rhaid i'r ail siambr gael ei hethol yn uniongyrchol. Yr wyf yn cydnabod y dadleuon dros gael cynrychiolaethau rhanbarthol yn y fan honno, ond nid yw pobl yn dawel eu meddwl ynghylch rhai o'r newidiadau cyfansoddiadol. Bydd pwysu am gorff wedi ei enwebu, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, yn achosi mwy o broblemau ac yn arwain at adwaith. Er gwaethaf yr anfanteision, fe ddylid cynnal etholiadau uniongyrchol.

**John Marek:** Fe ddywedodd y Prif Ysgrifennydd y dylem ffrwyno gallu penrhydd yr arglwyddi etifeddol. Yr wyf yn cytuno â hynny. Fodd bynnag, nid oes ganddynt gymaint o hynny o bŵer. Yr wyf hefyd am ffrwyno gallu penrhydd a nawdd y Prif Weinidog, ac efallai rhyw Brif Ysgrifennydd yn y Cynulliad Cenedlaethol neu Senedd yr Alban yn y dyfodol. Yn rhinwedd eu swydd, mae'r bobl hynny yn dueddol o gael llawer mwy o allu penrhydd nag arglwyddi etifeddol yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Yr wyf yn cytuno â llawer o'r hyn a ddywedwyd. Mae sylwadau Rod Richards a Mike German yn haeddu ystyriaeth fanwl. Fe glywsom ofyn am well cynrychiolaeth. Mewn egwyddor, mae etholiadau'n well. Ynglŷn â chyfraniad Alun Pugh ar etholiadau anuniongyrchol, rhaid imi ddweud wrtho bod siambrau uchaf ac isaf mewn llawer o wledydd, sydd wedi cydfodoli'r dda gyda'i gilydd. Yr wyf yn sicr y gallai hynny ddigwydd yn y Deyrnas Unedig, hyd yn oed pe bai'r ddwy siambr yn cael eu hethol yn uniongyrchol. Teimlaf na ddylid cael unrhyw gynnydd mewn nawdd ac na ddylid rhoi mwy o bwerau i Dŷ'r Cyffredin. Mae sylwadau gan Val Feld, Christine Chapman a nifer o Aelodau eraill i'r perwyl y dylai Tŷ'r Arglwyddi fod yn fwy cynrychioladol, yn peri gofid i mi. Yr wyf am anghytuno â Helen Mary Jones. Mae cynrychiolaeth gyfartal drwy enwebu yn ail orau. Mae'n iawn i bleidiau gydnabod bod cynrychiolaeth gyfartal wedi ei derbyn mewn cymuned ac awgrymu cynrychiolaeth deg o bobl o

wahanol genhedloedd a rhywiau i'w hethol.

I do not think we should allow dual mandates at any time. This would mean some of us could toddle off to Westminster and the House of Lords when we got fed up with Assembly debates or felt there was nothing going on. We should not even allow it when we get long in the tooth and put out to grass. It is wrong to allow the First Secretary of the time to say: Joe you have done a good job; it is time we gave you something else to do because you are retiring so why do you not toddle off to the House of Lords? That is not the way it should be done but it has been done on occasions. I am speaking hypothetically now, but the First Secretary has been able to say: Joe, you are a bit of a nuisance here; I will give you a place in the House of Lords providing you give up your seat to ensure a suitable candidate is elected next time. I do not have anybody in particular in mind when making these examples. However, these are examples of patronage that we should do our best to ensure cannot happen in this Assembly.

I do not want to go on, though I could as this is an important subject. To sum up, I am prepared to listen to arguments for a section of an upper house to be reserved for experts and nominated people. It is interesting that the Conservative Party is arguing for radical solutions and election and Plaid Cymru is being more conservative, for example, Ieuan Wyn Jones' comments about having nominated people in the House of Lords. It shows this is a topic where the straightforward party view is not obvious. I will listen to an argument for experts but I would prefer a completely elected upper house. Finally, Labour Party members have not been consulted about this, but for good reason with election campaigns and so on. I speak for my own area where there has been no consultation, so I am pleased the First Secretary has said there will be a consultation in Cardiff. The more publicity we give to the Royal Commission so individuals can express their views—and it is now taking evidence—the better.

Nid wyf yn credu y dylem ganiatáu mandadau dwbl ar unrhyw adeg. Byddai hynny'n golygu a gallai rhai ohonom hel ein traed am San Steffan a Thŷ'r Arglwyddi pan fyddem yn blino ar ddadleuon y Cynulliad neu'n teimlo nad oedd dim yn mynd ymlaen. Ni ddylem ganiatáu hynny hyd yn oed pan fyddwn yn mynd ar ein hen sodlau ac yn cael ein troi allan i bori. Nid yw'n iawn caniatáu i'r Prif Ysgrifennydd ar y pryd ddweud: Jo, yr wyt wedi gwneud job iawn; mae'n bryd inni roi rhywbeth arall iti ei wneud am dy fod yn ymdeol felly pan na wnei di hel dy draed am Dŷ'r Arglwyddi? Nid dyna'r ffordd y dylai gael ei wneud, ond fe wnaed hynny ar adegau. Yr wyf yn siarad yn ddamcaniaethol yn awr, ond fe fu modd i'r Prif Ysgrifennydd ddweud: Jo, yr wyt yn dipyn o niwsans yn y fan hyn; fe rof sedd i ti yn Nhŷ'r Arglwyddi ar yr amod y byddi'n ildio dy sedd fel y bydd ymgeisydd addas yn cael ei ethol y tro nesaf. Nid wyf yn meddwl am neb yn benodol wrth roi'r enghreifftiau hyn. Fodd bynnag, mae'r rhain yn enghreifftiau o nawdd y dylem wneud ein gorau i sicrhau na allant ddigwydd yn y Cynulliad hwn.

Nid wyf am fynd ymlaen, er y gallwn gan fod hwn yn bwnc pwysig. I grynhoi, yr wyf yn barod i wrando ar ddadleuon dros gadw rhan o siambr uchaf ar gyfer arbenigwyr a rhai a enwebir. Mae'n ddiddorol bod y Plaid Geidwadol yn dadlau o blaid atebion radicalaidd ac etholiadau a bod Plaid Cymru yn fwy ceidwadol, er enghraifft, sylwadau Ieuan Wyn Jones am gael pobl a enwebwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae hyn yn dangos bod hwn yn bwnc lle nad yw safbwynt syml y blaid yn amlwg. Fe wrandawaf ar ddadl o blaid arbenigwyr ond byddai'n well gennyf siambr uchaf wedi ei hethol yn gyfan gwbl. Yn olaf, nid ymgynghorwyd ag aelodau'r Plaid Lafur ar y mater hwn, ond mae rheswm da am hynny oherwydd yr ymgyrchoedd etholiadol ac yn y blaen. Yr wyf yn siarad ar ran fy ardal fy hun lle na fu ymgynghori, felly yr wyf yn falch bod y Prif Ysgrifennydd wedi dweud y bydd ymgynghoriad yng Nghaerdydd. Gorau po fwyaf o gyhoeddusrwydd a roddwn i'r Comisiwn Brenhinol fel y gall unigolion fynegi eu

barn—ac mae'n derbyn tystiolaeth ar hyn o bryd.

**The Deputy Presiding Officer:** Before I call the next speaker, I want to give you a more complete response to the external point of order you raised earlier about Members having insufficient access to motions in time to put down an amendment. I am happy to announce that the Business Committee agreed today that in future, the Table Office will e-mail motions to Business Managers on Thursdays after the close of Table Office business. We hope that will resolve this problem.

**John Marek:** That is satisfactory for the Business Manager but what about the ordinary backbench Member?

**The Deputy Presiding Officer:** As I said earlier, we discussed the issue at the Business Committee and are able to discuss it again. I hope to be helpful to Members by announcing that now in direct response to your question.

**Carwyn Jones:** Some think universal suffrage, for all those over 18-years-old, is here. However, the present Labour Government deserves credit for enfranchising the peers, as hereditary peers cannot vote. It is wonderful that the Government in London has decided they should at last be free to vote and play a full part in democracy.

There can be no justification in sitting in any Parliament in the world purely because of who your parents are. Similarly, there can be no justification for having Church of England bishops in the House of Lords. The United Kingdom does not have an established religion. Although England does, Wales, Scotland and Northern Ireland do not. Either you have representatives of the many faiths or representative of none.

This afternoon's debate has been interesting, as people have not been trying to score party political points. A number of questions need

**Y Dirprwy Lywydd:** Cyn imi alw ar y siaradwr nesaf, yr wyf am roi ateb llawnach i chi ar y mater o drefn allanol a godwyd gennych yn gynharach ynghylch diffyg mynediad digonol gan Aelodau at gynigion mewn pryd i gyflwyno gwelliant. Yr wyf yn falch o gyhoeddi bod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno heddiw y bydd y Swyddfa Gyflwyno o hyn ymlaen yn anfon cynigion drwy e-bost at y Rheolwyr Busnes ar ddydd Iau ar ôl cwblhau busnes y Swyddfa Gyflwyno. Yr ydym yn gobeithio y bydd hyn yn ateb y broblem hon.

**John Marek:** Mae hynny'n dderbyniol i'r Rheolwr Busnes ond beth am yr Aelod cyffredin ar y fainc gefn?

**Y Dirprwy Lywydd:** Fel y dywedais yn gynharach, bu inni drafod y mater yn y Pwyllgor Busnes a gallwn ei drafod eto. Gobeithio y gallaf fod o gymorth i'r Aelodau drwy gyhoeddi hynny yn awr mewn ymateb uniongyrchol i'ch cwestiwn.

**Carwyn Jones:** Mae rhai yn credu bod gennym bleidlais i bawb dros 18 oed. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth Lafur bresennol yn haeddu clod am etholfreinio'r arglwyddi, gan nad oes pleidlais gan arglwyddi etifeddol. Mae'n beth ardderchog bod y Llywodraeth yn Llundain wedi penderfynu y dylent fod yn rhydd o'r diwedd i bleidleisio a chwarae rhan gyflawn mewn democratiaeth.

Nid oes cyfiawnhad posibl dros eistedd mewn unrhyw Senedd yn y byd ond oherwydd pwy yr oedd eich rhieni. Yn yr un modd, nid oes cyfiawnhad posibl dros gael esgobion o Eglwys Loegr yn Nhŷ'r Arglwyddi. Nid oes crefydd sefydledig gan y Deyrnas Unedig. Er bod un gan Loegr, nid oes un gan Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dylech un ai cael cynrychiolwyr o'r nifer fawr o grefyddau neu ni ddylech gael cynrychiolwyr o'r un.

Bu'r ddadl brynhawn heddiw yn un ddiddorol, gan nad yw pobl wedi ceisio sgorio pwyntiau dros bleidiau gwleidyddol.

to be asked. Unfortunately, we do not have a written constitution in this country. No Government has the legislative time to put the written constitution through Parliament. We all know the House of Commons can do whatever it wants to as a result of this. This means there have to be brakes on the powers of the House of Commons. To an extent, the House of Lords or whichever second chamber replaces it, can act as that brake. Unless you have a written constitution, the difficulty with having an elected upper house is this: unless you have a written constitution that lays down the power of the upper and lower house, both are going to be competing for parity. Therefore, if you do not have a written constitution, one house has to be subordinate to the other. That is what has been happening over the past 70 years. The second chamber has to be wholly nominated. I will explain why.

3:58 p.m.

If you have a mixed chamber that is partially nominated and partially elected, it means that the elected members will feel that they are superior to those who are nominated, because they have the weight of people's votes behind them. That is why the House of Commons is superior in power to the House of Lords. People are elected to the House of Commons and are not elected to the House of Lords.

If we are going to have a nominated second chamber, there are ways around the arguments of patronage. If an independent commission is set up to investigate the recommendation for peerages, it takes away the patronage powers of the Government of the day. A way around that is to appoint an independent commission in order to nominate.

There is also the issue of the potential lack of independence of people within the second chamber. If you are nominated to the second chamber and you are there for life, the pressure on you to conform is not going to be the same as if you are elected. This means that people are going to be able to take an

Mae angen gofyn nifer o gwestiynau. Gwaetha'r modd, nid oes gennym gyfansoddiad ysgrifenedig yn y wlad hon. Nid oes gan yr un Llywodraeth ddigon o amser deddfu i fynd â chyfansoddiad ysgrifenedig drwy'r Senedd. Fe wyddom oll fod Tŷ'r Cyffredin yn gallu gwneud beth bynnag a fynno oherwydd hyn. Mae hyn yn golygu bod rhaid rhoi ffrwyn ar bwerau Tŷ'r Cyffredin. I ryw raddau, fe all Tŷ'r Arglwyddi neu pa bynnag ail siambr a ddaw yn ei le, fod yn ffrwyn o'r fath. Oni bai fod gennych gyfansoddiad ysgrifenedig, yr anhawster o gael siambr uchaf etholedig yw hyn: oni bai fod gennych gyfansoddiad ysgrifenedig sy'n pennu pŵer y siambr uchaf a'r siambr isaf, bydd y ddwy yn cystadlu am baredd. Felly, os nad oes gennych gyfansoddiad ysgrifenedig, rhaid i un siambr fod yn israddol i'r llall. Dyna a ddigwyddodd dros y 70 mlynedd diwethaf. Rhaid i'r ail siambr gael ei henwebu yn gyfan gwbl. Fe egluraf pam.

Os bydd gennych siambr gymysg sydd wedi ei henwebu'n rhannol a'i hethol yn rhannol, mae'n golygu y bydd yr aelodau etholedig yn teimlo eu bod o radd uwch na'r rhai a enwebwyd, am fod pwysau pleidleisiau'r bobl yn gefn iddynt. Dyna pam y mae Tŷ'r Cyffredin yn uwch o ran pŵer na Thŷ'r Arglwyddi. Fe etholir pobl i Dŷ'r Cyffredin ond nid i Dŷ'r Arglwyddi.

Os ydym i gael ail siambr a enwebwyd, y mae ffyrdd i ymdrin â dadleuon am nawdd. Os sefydlir comisiwn annibynnol i ymchwilio i'r argymhelliad ar arglwyddiaethau, bydd yn cymryd y pwerau nawdd oddi ar Lywodraeth y dydd. Ffordd o ymdrin â hynny yw penodi comisiwn annibynnol er mwyn enwebu.

Yn ogystal â hynny, mae mater diffyg annibyniaeth posibl y rhai sydd yn yr ail siambr. Os cewch eich enwebu i'r ail siambr byddwch yno ar hyd eich oes, ac ni fydd y pwysau sydd arnoch i gydymffurfio yr un fath â phe baech yn cael eich ethol. Mae hyn yn golygu y bydd modd i bobl ymgymryd â

independent view within the second chamber. safbwynt annibynnol o fewn yr ail siambr.

I do not pretend to have the answer to these questions, but the issues must be considered. At the end of each four-year term, I see no reason why this Assembly cannot make recommendations to an independent commission to propose people for places in the second chamber. If there are people who are no longer going to stand they can be nominated, if the Assembly sees fit, to go to the second chamber. We must be careful not to allow people to be both Assembly Members and members of the second chamber. It is not possible with the sheer volume of work that we have here, to stroll off to London and take part in legislative procedures there. Either you do one job or the other because you cannot do both.

These are the questions we have to ask ourselves. There should be an independent commission appointed to scrutinise nominations. I take on board Val and Christine's opinions that the independent commission casts its nets far wider to bring people into the second chamber. If the independent commission is determined to do that, it can be done. You can achieve a second chamber that is balanced both in terms of the sexes and ethnically.

That is the way forward for the Assembly in relation to the second chamber and is the second chamber's way forward in relation to the UK.

**David Melding:** The motion has got off to a splendid start and I wish to reflect on the debate.

As a Conservative, I believe in a strong constitutional system. In this modern age, having the likes of the Duke of Plaza-Toro in the Upper Chamber is unacceptable. I concede that the Labour Party has advanced the democratic argument by its intention to reform the House of Lords.

If I can make a somewhat partisan point, it would have been useful for the Royal Commission to have been convened

Nid wyf yn honni bod yr atebion gennyf i'r cwestiynau hyn, ond rhaid ystyried y materion. Ymhen pob tymor o bedair blynedd, ni welaf pam na allai'r Cynulliad hwn gyflwyno argymhellion i gomisiwn annibynnol er mwyn cynnig pobl i seddau yn yr ail siambr. Os oes pobl nad ydynt yn bwriadu sefyll mwyach fe ellir eu henwebu, os yw'r Cynulliad yn dymuno, i'r ail siambr. Rhaid inni fod yn ofalus i beidio â chaniatáu i bobl fod yn Aelodau o'r Cynulliad ac yn aelodau o'r ail siambr. Nid yw'n bosibl o ystyried maint y gwaith sydd gennym yma, i fynd am dro bach tua Llundain a chymryd rhan mewn gweithdrefnau deddfu yn y fan honno. Dylech gyflawni un swydd neu'r llall oherwydd ni allech wneud y ddwy.

Mae'r rhain yn gwestiynau y bydd raid inni eu gofyn i ni'n hunain. Dylid penodi comisiwn annibynnol i archwilio enwebiadau. Yr wyf yn derbyn barn Val a Christine y dylai'r comisiwn annibynnol daflu ei rwyd yn ehangach er mwyn denu pobl i'r ail siambr. Os yw'r comisiwn annibynnol yn benderfynol o wneud hynny, fe ellir ei gyflawni. Gellwch sicrhau ail siambr sydd yn gytbwys o ran y rhywiau ac o ran cyfansoddiad ethnig.

Dyna'r ffordd ymlaen i'r Cynulliad mewn perthynas â'r ail siambr a'r ffordd ymlaen i'r ail siambr mewn perthynas â'r DU.

**David Melding:** Mae'r cynnig wedi dechrau ar ei daith yn ardderchog a hoffwn roi ystyriaeth i'r ddadl.

Fel Ceidwadwr, yr wyf yn credu mewn system gyfansoddiadol gryf. Yn yr oes fodern hon, nid yw cael rhywun o fath Dug Plaza-Toro yn y Siambr Uchaf yn dderbyniol. Yr wyf yn derbyn bod y Blaid Lafur wedi hyrwyddo'r ddadl ddemocrataidd drwy ei bwriad i ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi.

Os caf wneud pwynt sydd braidd yn bleidiol, fe fyddai'n fuddiol pe bai'r Comisiwn Brenhinol wedi ei gynnull yn union ar ôl yr

immediately after the general election. I still cannot understand why that was delayed. A Royal Commission does take at least a year, 18 months or often longer. However, it has now been convened and one has to accept that the Labour Party was gracious enough to ask a Conservative Party member to take the Chair, and we wish the Commission well.

The principle of nomination is difficult, as it is more or less a medieval principle. It is the Crown—we now call it the Executive—making the decision and not the people or an electorate. It is rather sad that we have not advanced at all.

If we are going to fall back on complete nomination, and the principle of nomination stymies the democratic accountability and influence of any chamber of Parliament, one could probably argue that the main reason for reforming the House of Lords is this lack of democratic accountability.

If one looked at the criteria of 'does it work?', many people, myself included, believe that it does work rather well. It has been a reforming chamber and it conceded, at the turn of this century, any primacy on financial matters. If there are two elected chambers, the locus of principal power remains with the chamber that has the financial control and I do not think anyone here argues that the upper chamber should have that responsibility primarily.

The argument about democratic accountability is not very satisfactorily addressed by retaining the principle of nomination. Perhaps we should be aiming for a hybrid mixture. Unlike some speakers this afternoon, I think the principle of having Church of England members in the upper house has been a good one. At the beginning, it was the Catholic and Apostolic Church, not the Church of England but it was not meant to be partial. That was the exclusive world view at that time. We have obviously moved on from that and I welcome an ecumenical dimension as far as the Christian denominations are concerned, and a multi-faith dimension reflected in a chamber by retaining some form of nomination. I am not

etholiad cyffredinol. Nid wyf yn deall byth pam ei fod wedi ei ohirio. Bydd Comisiwn Brenhinol yn cymryd o leiaf flwyddyn, 18 mis neu fwy na hynny'n aml. Fodd bynnag, mae wedi ei gynnull bellach a rhaid derbyn bod y Blaid Lafur yn ddigon haelionus i ofyn i aelod o'r Blaid Geidwadol fynd i'r Gadair, a dymunwn yn dda i'r Comisiwn.

Mae egwyddor enwebu yn un anodd, gan ei bod fwy neu lai yn egwyddor ganoloesol. Y Goron—fe'i galwn yn Adran Weithredol bellach—sydd yn penderfynu ac nid y bobl neu'r etholwyr. Mae'n drist braidd nad ydym wedi symud ymlaen o gwbl.

Os ydym i droi'n ôl at enwebu'n gyfan gwbl, ac os bydd egwyddor enwebu yn ffrwyno atebolrwydd democrataidd a dylanwad unrhyw siambr o'r Senedd, fe ellid dadlau'n fwy na thebyg mai'r prif reswm dros ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi yw'r diffyg atebolrwydd democrataidd hwn.

Pe bai rhywun yn ystyried y meini prawf sy'n gofyn 'a yw'n gweithio?', mae llawer o bobl, a minnau'n un ohonynt, yn credu ei fod yn gweithio'n eithaf da. Bu'n siambr ddiwygiol ac, ar droad y ganrif hon, fe ildiodd unrhyw oruchafiaeth ar faterion ariannol. Os bydd dwy siambr etholedig, bydd locws y prif bŵer yn aros yn y siambr sydd â rheolaeth ariannol ac ni chredaf fod neb yma yn dadlau y dylai'r siambr uchaf gael y cyfrifoldeb hwnnw yn bennaf.

Then there is the power of the milk processors and supermarkets in the market place, which led to the Competition Commission's inquiry. That report is still on Stephen Byers' desk. There is the failure of Milk Marque to maintain prices, which is a result of the barriers to success imposed on it. Milk Marque is only allowed to purchase and sell milk. It cannot engage in processing, so it is at the mercy of the purchasers, basing the price it pays to farmers on the price it can get from processors.

I am sure that you will agree when I say that it is vital for the Assembly to give a clear lead on the strategic policy direction for the milk industry in Wales. Both short and long term solutions must be provided. Action is needed on the pound because, as with the steel industry discussed last week, farming would benefit from a radical overhaul of the UK's monetary policy. I know that Gordon Brown is not here but he may be listening.

Welsh farmers need to co-operate and

ddisgyn ac yn disgyn yn gynt nag yn Lloegr. Erbyn 2005 nid yw'n debygol y bydd mwy na 3,000 o gynhyrchwyr llaeth yng Nghymru. Mae goblygiadau mawr yn y cwmp hwnnw i'r dyfodol, i deuluoedd ffermwyr, i gymunedau gwledig y mae eu ffyniant yn gysylltiedig â ffyniant y ffermwyr, i economi Cymru yn gyffredinol, i swyddi ar ffermydd ac oddi arnynt ac i gyfleoedd datblygu prosesu â gwerth ychwanegol uwch yng Nghymru.

Beth y gall y ffermwyr llaeth ei wneud? Oherwydd ei daearyddiaeth, ei hinsawdd a strwythur ei ffermydd, ardal cynhyrchu da byw yw Cymru'n bennaf ac nid oes llawer o gyfle i ffermwyr llaeth arallgyfeirio i fentrau ffermio eraill hyfyw. Y tu mewn i'r diwydiant llaeth, mae'r ffermwyr yn wynebu rhwystrau penodol rhag llwyddo yn eu busnesau. Nid ydynt yn cael chwarae teg pan ddaw'n fater o gystadlu â chynhyrchwyr tramor. Er enghraifft, fe enillodd Gweriniaeth Iwerddon gwota ychwanegol yn y trafodaethau diweddar ar Agenda 2000.

Wedyn dyna rym y proseswyr llaeth a'r archfarchnadoedd yn y farchnad, a arweiniodd at ymchwiliad y Comisiwn Cystadleuaeth. Mae'r adroddiad hwnnw ar ddesg Stephen Byers o hyd. Dyna fethiant Milk Marque i gynnal prisiau, sydd yn ganlyniad i'r rhwystrau rhag llwyddo a orfodwyd arno. Nid yw Milk Marque ond yn cael prynu a gwerthu llaeth. Ni chaiff gymryd rhan mewn prosesu, felly mae ar drugaredd y prynwyr, ac yn seilio'r pris y mae'n ei dalu i ffermwyr ar y pris y mae'n gallu ei gael gan y proseswyr.

Yr wyf yn sicr y cytunwch â mi pan ddywedaf ei bod yn holl bwysig i'r Cynulliad roi arweiniad clir ar gyfeiriad polisi strategol y diwydiant llaeth yng Nghymru. Rhaid darparu atebion tymor-byr a thymor-hir. Mae angen gweithredu ar y bunt oherwydd, fel yn achos y diwydiant dur a drafodwyd yr wythnos diwethaf, byddai ffermio yn elwa o ailwampio sylfaenol ar bolisi ariannol y DU. Fe wn nad yw Gordon Brown yma ond efallai ei fod yn gwranddo.

Rhaid i ffermwyr Cymru gydweithredu a

capture more of the added value monopolised by the processors and retailers. The Welsh Development Agency must assist the creation of processing facilities as part of its food strategy. This must be a priority under Objective 1—if I can mention Objective 1—and Objective 2 if and where that is applicable. The Assembly's Economic Development, Agriculture and Rural Affairs Committees must ensure that that happens.

I have had an opportunity to explain the crisis in Welsh farming, in particular the dairy industry, and to point out some of the steps that could be taken to solve that crisis. However, the Assembly can do something to help the Welsh milk industry immediately. We must demand that Stephen Byers acts to protect the interests of milk producers in Wales, and therefore Wales' and the UK's capacity to supply the market and maintain the basis for the rural economy. This is of great importance to Wales and fundamental to the aspirations of the Assembly.

The fact that the Competition Commission's report on milk and the dairy industry in Wales has not been published damages the industry and the Welsh economy. The delay creates uncertainty. It has led the farming industry to believe that the UK Government held the report back because it wanted to avoid embarrassment during the recent elections. Welsh farmers believe that for the milk sector to survive they need to deal with an organisation such as Milk Marque, which is large enough to have real muscle in the market place. They believe that only a large company will go out and buy milk from farms which are, like so many in Wales, far removed from the main market.

4:49 p.m.

Farmers believe that the delay is due to the likelihood that the report's conclusions might be damaging to the dairy industry. They are expecting more bad news, if that is possible. It may propose the breaking up of Milk Marque. It may say the Government should refuse to grant Milk Marque the right to process as well as sell milk. I remind you that

chipio mwy o'r gwerth ychwanegol a fonopoleiddiwyd gan y proseswyr a'r adwerthwyr. Rhaid i Awdurdod Datblygu Cymru helpu i greu cyfleusterau prosesu fel rhan o'i strategaeth bwyd. Rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth o dan Amcan 1—os caf grybwyll Amcan 1—ac Amcan 2 os ac ym mhle y bydd yn berthnasol. Rhaid i Bwyllgor Datblygu Economaidd a Phwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad sicrhau bod hynny'n digwydd.

Yr wyf wedi cael cyfle i egluro'r argyfwng yn amaethyddiaeth Cymru, yn enwedig y diwydiant llaeth, ac i nodi rhai o'r camau y gellid eu cymryd i ddatrys yr argyfwng hwnnw. Fodd bynnag, fe all y Cynulliad wneud rhywbeth i helpu diwydiant llaeth Cymru ar unwaith. Rhaid inni fynnu bod Stephen Byers yn gweithredu i amddiffyn buddiannau cynhyrchwyr llaeth yng Nghymru, a drwy hynny gallu Cymru a'r DU i gyflenwi'r farchnad a chadw sylfaen i'r economi gwledig. Mae hyn o bwysigrwydd mawr i Gymru ac yn hanfodol i ddyheadau'r Cynulliad.

Mae'r ffaith nad yw adroddiad y Comisiwn Cystadleuaeth ar laeth a'r diwydiant llaeth yng Nghymru wedi ei gyhoeddi yn niweidiol i'r diwydiant ac i economi Cymru. Mae'r oedi yn creu ansicrwydd. Mae wedi arwain y diwydiant amaeth i gredu bod Llywodraeth y DU wedi dal yr adroddiad yn ôl am ei bod am osgoi annifyrrwch yn ystod yr etholiadau diweddar. Er mwyn sicrhau parhad y sector llaeth, mae ffermwyr Cymru yn credu bod angen iddynt ddelio â chorff fel Milk Marque, sydd yn ddigon mawr i fod â grym gwirioneddol yn y farchnad. Maent yn credu mai dim ond cwmni mawr a fydd yn fodlon mynd allan a phrynu llaeth oddi wrth ffermydd sydd, fel cynifer yng Nghymru, yn bell oddi wrth y brif farchnad.

Mae'r ffermwyr yn credu bod yr oedi wedi digwydd oherwydd y tebygolrwydd y gallai casgliadau'r adroddiad fod yn niweidiol i'r diwydiant llaeth. Maent yn disgwyl rhagor o newyddion drwg, os yw hynny'n bosibl. Fe allai gynnig chwalu Milk Marque. Fe allai ddweud y dylai'r Llywodraeth wrthod rhoi hawl i Milk Marque brosesu yn ogystal â

Milk Marque is precluded by law from processing milk, to the detriment of Welsh farmers and our rural economy. Milk Marque must be allowed to expand into processing and to continue to operate as a farmer's co-operative.

Can the Secretary give me an assurance today that she will press Stephen Byers to publish the report before the end of the week? I also ask her to support my view that Milk Marque should be retained as a single entity to protect small and medium size producers in Wales. Milk Marque should be given the opportunity to move into processing so it can compete more effectively and thus pay better prices to Welsh dairy farmers. Farmers, as well as myself, await her answers.

By backing my call, the Assembly can show its support for our farmers at this crucial time. The delay in publishing the report on milk and the dairy industry is a major source of embarrassment to the Government. Assembly Members and in particular you, Christine, have an opportunity today to show your concern and support for our dairy farmers by backing my demand that this report be published this week.

**Glyn Davies:** I would like to congratulate you on using your success in this ballot to focus attention on the difficulties faced by the dairy industry. I also thank you for giving me the opportunity, without jumping up and down, to intervene and make a contribution. I want to emphasise how important this issue is and I share your criticism of Stephen Byers for not bringing forward this report and for leaving the industry in limbo for such a long time.

It is important to appreciate that the dairy industry is about much more than just itself. It underpins the rural economy in some parts of Wales, and like you, I would single out west Wales in particular. Without the dairy industry we would see devastation in west Wales, where alternative jobs are very difficult to create.

gwerthu llaeth. Yr wyf yn eich atgoffa bod Milk Marque wedi ei wahardd drwy gyfraith rhag prosesu llaeth, er anfantais i ffermwyr Cymru a'n heconomi gwledig. Rhaid caniatáu i Milk Marque ehangu i faes prosesu a pharhau i weithredu fel cwmni cydweithredol i ffermwyr.

A oes modd i'r Ysgrifennydd roi sicrwydd i mi heddiw y bydd yn pwysu ar Stephen Byers i gyhoeddi'r adroddiad cyn pen yr wythnos? Yr wyf hefyd yn gofyn iddi ategu fy marn y dylid cadw Milk Marque yn un uned er mwyn amddiffyn cynhyrchwyr bach a chanolig eu maint yng Nghymru. Dylid rhoi cyfle i Milk Marque symud i faes prosesu fel y gall gystadlu'n fwy effeithiol a drwy hynny dalu gwell prisiau i ffermwyr llaeth Cymru. Mae'r ffermwyr, a minnau, yn disgwyl ei hatebion.

Drwy gefnogi fy ngalwad, gall y Cynulliad ddangos ei gefnogaeth i'n ffermwyr ar yr adeg dyngedfennol hon. Mae'r oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad ar laeth a'r diwydiant llaeth yn destun annifyrrwch mawr i'r Llywodraeth. Mae cyfle heddiw i Aelodau'r Cynulliad, ac i chithau'n arbennig, Christine, ddangos eich pryder a'ch cefnogaeth i'n ffermwyr llaeth drwy gefnogi fy ngalwad am gyhoeddi'r adroddiad hwn yr wythnos hon.

**Glyn Davies:** Hoffwn eich llongyfarch ar ddefnyddio'ch llwyddiant yn y bleidlais hon i dynnu sylw at yr anawsterau a wynebier gan y diwydiant llaeth. Diolch i chi hefyd am roi cyfle imi ymyrryd a chyfrannu, heb orfod neidio o'm sedd. Yr wyf am bwysleisio mor bwysig yw'r mater hwn ac yr wyf yn rhannu'ch beirniadaeth ar Stephen Byers am beidio â chyflwyno'r adroddiad hwn ac am adael y diwydiant yn angof ers cyhyd.

Mae'n bwysig deall bod y diwydiant llaeth yn golygu llawer mwy na'r diwydiant ei hun. Hwn yw sylfaen yr economi gwledig mewn rhai rhannau o Gymru, ac fel chithau, fe ddywedwn fod hynny'n wir am orllewin Cymru yn enwedig. Heb y diwydiant llaeth fe welem ddistryw yng ngorllewin Cymru, lle y mae swyddi eraill yn anodd iawn eu creu.

I agree with a great deal of what you said. In fact you have not said anything I disagree with. It is difficult to make real comments about the report until we have seen it. What would not be acceptable to me would be a report that undermines the position of Milk Marque. We want to see Milk Marque being strengthened. A report that prevents Milk Marque moving into the added value or processing sector would not be acceptable to me. Like you, I hope that Christine will assure us that she shares our dissatisfaction about the tardiness of this report. I hope that as soon as the report is published, she will join me in wanting the Agriculture and Rural Development Committee to deal with it as quickly as possible and comment on it. Its impact will be such that the rural economy, in west Wales in particular, depends on what we decide to do with it.

**Jocelyn Davies:** That is the longest minute that I have come across.

**Mick Bates:** Yes, it is a European minute. I endorse your concern about the delay in the publication of this report. I find it a stunning hypocrisy that this Government, which says to farmers to co-operate and get collective strength, has delayed this report to the detriment of the one great co-operation between farmers that still exists. The previous Government started that decline through their introduction of deregulation.

What I also find stunning is that this Assembly has not yet picked up a Liberal Democrat statement of opinion that offers some assistance to the dairy industry. Of course we share in the concern. I can take you to four young farmers in the dairy industry today who are going out of business not only because of this delay but also from the lack of action by bodies like this Assembly. We have the potential to launch an investigation into the benefits of free school milk for five, six and seven-year-olds in Welsh schools and yet few people have signed this statement of opinion. Let us see

Cytunaf â llawer iawn o'r hyn a ddywedsoch. Mewn gwirionedd, ni fyddwn yn anghytuno â dim a ddywedsoch. Mae'n anodd rhoi sylwadau'n iawn am yr adroddiad nes byddwn wedi ei weld. Yr hyn na fyddai'n dderbyniol gennyf yw adroddiad sy'n tansailio seyllfa Milk Marque. Yr ydym am weld cryfhau Milk Marque. Ni fyddwn yn derbyn adroddiad sy'n rhwystro Milk Marque rhag symud i faes gwerth ychwanegol neu'r sector prosesu. Fel chithau, yr wyf yn gobeithio y bydd Christine yn rhoi sicrwydd inni ei bod yn rhannu ein hanfodlonrwydd ynghylch yr arafwch wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn. Cyn gynted ag y cyhoeddir yr adroddiad, gobeithio y bydd fel minnau yn dymuno i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ddelio ag ef mor fuan ag y bo modd a rhoi sylwadau arno. Gymaint fydd ei effaith fel y bydd yr economi gwledig, yng ngorllewin Cymru yn enwedig, yn dibynnu ar yr hyn a benderfynwn ei wneud ag ef.

**Jocelyn Davies:** Dyna'r munud hwyaf imi erioed ei weld.

**Mick Bates:** Ie, munud Ewropeaidd ydyw. Yr wyf yn ategu'ch pryder ynghylch yr oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn. Fe'i gwelaf yn rhagrith syfrdanol bod y Llywodraeth hon, sy'n dweud wrth ffermwyr y dylent gydweithredu a magu cryfder ar y cyd, wedi gohirio'r adroddiad hwn er anfantais i'r un dull cydweithredu mawr sy'n dal i fodoli ymysg ffermwyr. Y Llywodraeth flaenorol a ddechreuodd y dirywiad hwnnw drwy gyflwyno dadreoleiddio.

Rhywbeth arall sy'n fy syfrdanu yw nad yw'r Cynulliad hwn hyd yn hyn wedi dilyn y datganiad barn gan y Democratiaid Rhyddfrydol sy'n cynnig rhywfaint o gymorth i'r diwydiant llaeth. Wrth gwrs ein bod yn rhannu'r pryder. Gallwn fynd â chi i weld pedwar ffermwr ifanc yn y diwydiant llaeth heddiw sy'n mynd allan o fusnes nid oherwydd yr oedi hwn ond oherwydd diffyg gweithredu gan gyrff fel y Cynulliad hwn. Mae gennym y gallu i ddechrau ymchwiliad i fanteision llaeth am ddim mewn ysgolion i rai pump, chwech a saith oed mewn ysgolion Cymru ond ychydig sydd wedi arwyddo'r



some real action. It is all very well to sit back and criticise the Government. It is time we did something for the Welsh dairy industry. We have an opportunity to do that. I urge everyone to sign this statement of opinion so that we can get free milk into our schools with its inherent benefits for our children's health and for our dairy industry's economy. We must look to the future and retain those people whose skills we are losing. Please sign the statement of opinion for free school milk in Wales.

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolch am y ddadl hon ar bwnc sydd mor bwysig i economi Cymru. Mae cyhoeddi'r adroddiad hwn yn holl bwysig i'r diwydiant llaeth yng Nghymru. Ategaf yr hyn y mae Jocelyn wedi'i ddweud. Dylid cyhoeddi'r adroddiad ar fyrder. Mae ffermwyr llaeth Cymru wedi dioddef yn llawer rhy hir oherwydd na chafodd ei gyhoeddi.

Gwahoddaf yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i edrych y tu hwnt i'r adroddiad a gobeithiaf y bydd yn caniatáu i Milk Marque brosesu ac ychwanegu gwerth at y cynnyrch. Sut bydd yr Ysgrifennydd yn sicrhau y bydd y broses honno yn mynd yn ei blaen? Pa fesurau y bydd hi'n eu rhoi gerbron i hybu hynny? Sut bydd hi'n helpu ffermydd i farchnata eu llaeth? Sut bydd hi'n datblygu'r broses o greu canolfannau prosesu, yn enwedig yng ngorllewin Cymru?

Nid oes rhaid imi atgoffa Christine fod hufenfa yn ei hetholaeth, sef Hufenfa Hendy-gwyn. A fydd yn dechrau trafod gyda Dairy Crest er mwyn rhyddhau'r hufenfa honno a'i datblygu fel canolfan prosesu ar gyfer y diwydiant llaeth?

Credaf fod ffermwyr llaeth Cymru yn haeddu ateb i'r cwestiynau hyn oherwydd y mae'n bwysig eu bod yn gallu gweld y tu hwnt i'r adroddiad, bod dyfodol iddynt ac i'r diwydiant llaeth. Mae'n bwysig fod y Cynulliad, fel y dywedodd Mick, yn cymryd y mater hwn o ddifrif ac yn cynnig

datganiad barn hwn. Gadewch inni weld gweithredu gwirioneddol. Mae'n ddigon hawdd eistedd yn ôl a beirniadu'r Llywodraeth. Mae'n bryd inni wneud rhywbeth dros ddiwydiant llaeth Cymru. Mae gennym gyfle i wneud hynny. Yr wyf yn pwysu ar bawb i arwyddo'r datganiad barn hwn fel y gallwn gael llaeth am ddim i'n hysgolion gyda'i fanteision cynhenid i iechyd ein plant ac i economi ein diwydiant llaeth. Rhaid inni edrych tua'r dyfodol a chadw'r bobl hynny a'u medrau sy'n cael eu colli ar hyn o bryd. Arwyddwch y datganiad barn dros laeth am ddim mewn ysgolion yng Nghymru, os gwelwch yn dda.

**Rhodri Glyn Thomas:** Thank you for this debate on such an important topic for Welsh economy. The publication of this report is of paramount importance to the dairy industry in Wales. I support what Jocelyn has stated. This report should be published urgently. The dairy farmers of Wales have suffered far too long because it has not been published.

I invite the Secretary for Agriculture and Rural Development to look beyond this report and I hope that it will permit Milk Marque to process and add value to the product. How will the Secretary ensure that that process will go forward? What measures will she put in place to promote that? How will she help farms to market their milk? How will she develop the process of creating processing centres, especially in west Wales?

I do not have to remind Christine that there is a creamery in her constituency, the Whitland Creamery. Will she open discussions with Dairy Crest to allow the release of that creamery and its development as a processing centre for the dairy industry?

I believe that the dairy farmers of Wales deserve an answer to these questions because it is important that they can see beyond this report, that there is a future for them and for the dairy industry. It is important that the Assembly, as Mick said, takes this matter seriously and makes recommendations that

argymhellion a fydd yn helpu'r diwydiant llaeth i edrych ymlaen yn hyderus at y dyfodol.

**Jocelyn Davies:** Before I sit down I would like to say that the other day we were grappling with the distinction between an untruth and a lie. Maybe now we have come to terms with a difference between an intervention and an interruption.

**Christine Gwyther:** Thank you Jocelyn for the spirit that you have engendered within this Chamber. It is wonderful.

I strongly support dairy farmers and the dairy food processing industry. They are both vital to the economies of west and north Wales. The dairy industry is a significant part of Welsh agriculture, especially in west Wales and in my constituency, Carmarthen West and South Pembrokeshire, in particular. For that reason alone I would like to congratulate Jocelyn but I congratulate her on behalf of the rest of rural Wales.

In January 1998, the Office of Fair Trading asked the Monopolies and Mergers Commission, now known as the Competition Commission, to investigate the supply of raw drinking milk in Great Britain. The Commission also considered the issue of vertical integration in the milk industry, that is the ownership of processing capacity by milk producers.

The inquiry followed representations from the Dairy Industry Federation. The Commission has presented its report to the Secretary of State for Trade and Industry, Stephen Byers, who is considering its findings. I must underline that the OFT and the Competition Commission are independent of Government. Competition is not a political matter but is an issue to be considered on the basis of public interest. That is why it is a reserved matter for the Secretary of State for Trade and Industry who acts in what is akin to a judicial capacity in considering any report.

will help the dairy industry to look forward into the future with confidence.

**Jocelyn Davies:** Cyn imi eistedd, hoffwn ddweud ein bod y diwrnod o'r blaen yn ceisio ymgodemu â'r gwahaniaeth rhwng anwiredd a chelwydd. Efallai ein bod yn awr yn gyfarwydd â'r gwahaniaeth rhwng ymyrryd a thorri ar draws.

**Christine Gwyther:** Diolch i chi, Jocelyn, am yr ysbryd yr ydych wedi ei ennyn yn y Siambr hon. Mae'n ardderchog.

Yr wyf yn gryf yn fy nghefnogaeth i ffermwyr llaeth ac i'r diwydiant prosesu bwydydd llaeth. Mae'r ddau'n holl bwysig i economi gorllewin a gogledd Cymru. Mae'r diwydiant llaeth yn rhan bwysig o amaethyddiaeth Cymru, yn enwedig yng ngorllewin Cymru ac yn fy etholaeth, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, yn enwedig. Fe hoffwn longyfarch Jocelyn am y rheswm hwnnw'n unig ond yr wyf yn ei llongyfarch ar ran gweddill y Gymru wledig.

Yn Ionawr 1998, fe ofynnodd y Swyddfa Masnachu Teg i'r Comisiwn Monopolïau a Chydsoddiadau, a elwir bellach yn Gomisiwn Cystadleuaeth, ymchwilio i'r cyflenwi ar laeth yfed amrwd ym Mhrydain Fawr. Rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth hefyd i fater integreiddio fertigol yn y diwydiant llaeth, sef perchenogaeth ar y gallu prosesu gan gynhyrchwyr llaeth.

Yr oedd yr ymchwiliad yn dilyn sylwadau a gyflwynwyd gan Ffederasiwn y Diwydiant Llaeth. Mae'r Comisiwn wedi cyflwyno ei adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwydiant a Masnach, Stephen Byers, sydd yn ystyried ei ganfyddiadau. Rhaid imi dynnu sylw at y ffaith bod y Swyddfa Masnachu Teg a'r Comisiwn Cystadleuaeth yn annibynnol ar Lywodraeth. Nid yw cystadleuaeth yn fater gwleidyddol ond yn fater i'w ystyried ar sail buddiannau'r cyhoedd. Dyna pam y mae'n fater neilltuedig i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwydiant a Masnach sy'n gweithredu mewn modd sy'n debyg i swyddogaeth farnwrol wrth ystyried unrhyw adroddiad.

Stephen Byers is considering the Commission's report and, as he has said in his evidence to the House of Commons Select Committee on Trade and Industry, he needs to take account of the many representations he has received, including those from bodies in Wales. The farming unions have certainly been writing consistently to him. He has a legal duty to consider that information properly if he is to discharge his legal responsibilities. He has given an assurance in the House of Commons in answer to a recent parliamentary question, that he will publish the report as soon as he can practically do so before the summer parliamentary recess. As soon as the report is public, I intend to make it available to Members in hard copy and electronically because your constituents would want this. Good or bad news, it will need to be discussed as soon as possible.

4:59 p.m.

**Kirsty Williams:** Do you agree that the move of dairy farmers from the dairy sector into the beef and sheep industry is one of the most worrying impacts of the uncertainty in the dairy sector? It causes an imbalance in the structure of farming within Wales and added pressure on both beef and sheep producers who are having a tough time at the moment.

I also bring the Assembly's attention to the report by the Monopolies and Mergers Commission on the trading practices of supermarkets and their pricing structure. We have a situation where potatoes in Pembrokeshire are being sold in shops for approximately £506 per tonne, while producers receive between £40 and £50 per tonne. Will you therefore urge your colleagues in London for an urgent publication of this report?

**Christine Gwyther:** Those representations have been made on an individual basis, but it is good to have them aired in this Chamber.

Mae Stephen Byers yn ystyried adroddiad y Comisiwn ac, fel y dywedodd yn ei dystiolaeth i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ddiwydiant a Masnach, rhaid iddo gymryd i ystyriaeth y nifer fawr o sylwadau a dderbyniodd, gan gynnwys rhai oddi wrth gyrff yng Nghymru. Mae undebau'r amaethwyr yn sicr wedi bod yn ysgrifennu ato'n gyson. Mae arno ddyletswydd gyfreithiol i ystyried yr wybodaeth honno mewn modd priodol os yw i gyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol. Rhoddodd sicrwydd yn Nhŷ'r Cyffredin mewn ateb i gwestiwn seneddol yn ddiweddar, y bydd yn cyhoeddi'r adroddiad cyn gynted ag y bydd yn ymarferol iddo wneud hynny cyn dechrau gwyliau haf y Senedd. Cyn gynted ag y cyhoeddir yr adroddiad, yr wyf am sicrhau y bydd ar gael i'r Aelodau ar ffurf copi caled ac yn electronig oherwydd dyna fyddai dymuniad eich etholwyr. Boed y newyddion yn dda neu'n ddrwg, bydd raid ei drafod cyn gynted ag y bo modd.

**Kirsty Williams:** A ydych yn cytuno mai symudiad ffermwyr llaeth o'r sector llaeth i'r diwydiant cig eidion a defaid dan ddylanwad yr ansicrwydd yn y sector llaeth yw un o'r effeithiau sy'n peri'r gofid mwyaf? Mae'n achosi anghydbwysedd yn strwythur amaethyddiaeth yng Nghymru ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar gynhyrchwyr cig eidion a defaid sy'n profi amser caled ar hyn o bryd.

Yr wyf hefyd yn tynnu sylw'r Cynulliad at yr adroddiad gan y Comisiwn Monopolïau a Chydsoddiadau ar arferion masnachu archfarchnadoedd a'u strwythur prisiau. Mae gennym sefyllfa lle y mae tatws yn Sir Benfro yn cael eu gwerthu mewn siopau am tua £506 y dunnell fetrig, tra bydd cynhyrchwyr yn derbyn rhwng £40 a £50 y dunnell fetrig. A fydddech cystal felly â phwyso ar eich cyd-weithwyr yn Llundain i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar frys?

**Christine Gwyther:** Mae'r sylwadau hynny wedi eu cyflwyno yn unigol, ond mae'n beth da eu bod yn cael eu lleisio yn y Siambr hon.

I know that Alun Michael has made sure the importance of this issue is fully understood by colleagues in the UK Cabinet. Because it is so vital to our industry, given that some 70 to 75 per cent of Welsh dairy farmers are in the membership of Milk Marque, I have written to Stephen Byers underlining the concerns of the industry in Wales. I am conscious of the uncertainty while we wait for the publication of this report. Nevertheless, all reports by the Competition Commission necessarily contain information that could affect a large number of companies, many of which may be quoted on the stock exchange. They are therefore commercially highly sensitive, and premature release of information could lead to damaging and illegal speculation in shares. That is why the report has to remain confidential until publication. It would not be appropriate for me to comment on the issues raised until then.

Having said that, the future of the dairy industry in Wales is a matter to which Alun Michael and I give the highest importance. In recent years we have seen the closure of the Whitland Creamery. Rhodri Glyn mentioned whether people would start talking to Dairy Crest about opening or selling it. Those talks have never actually stopped. They are ongoing.

There has also been the loss of the Elm Group and the industry has continued to suffer a fall in prices. Any further downturn in the sector would have serious consequences for the local economy and rural communities. In recognition of this the dairy industry is a priority sector in the development work for the agri-food strategy, which was launched by the Welsh Office at the Royal Welsh Show last year.

As a result of this work, in March 1999 Alun Michael, together with the chairs of the three industry led sectoral working groups, launched the action plans for the dairy sector along with those for lamb and beef and the organic sector. The Dairy Action Plan, which will be available shortly on the Assembly Intranet, sets out clearly the challenges and

Fe wn fod Alun Michael wedi sicrhau bod ei gyd-weithwyr yng Nghabinet y DU wedi llwyr ddeall pwysigrwydd y mater hwn. Am ei fod mor hanfodol i'n diwydiant, gan fod rhwng 70 a 75 y cant o ffermwyr llaeth Cymru yn aelodau o Milk Marque, yr wyf wedi ysgrifennu at Stephen Byers i danlinellu pryderon y diwydiant yng Nghymru. Yr wyf yn gwybod am yr ansicrwydd tra ydym yn disgwyl cyhoeddi'r adroddiad hwn. Er hynny, mae holl adroddiadau'r Comisiwn Cystadleuaeth o reidrwydd yn cynnwys gwybodaeth a allai effeithio ar nifer fawr o gwmnïau, lawer ohonynt wedi eu rhestru yn y gyfnewidfa stociau. Maent felly yn sensitif iawn yn fasnachol, a gallai rhyddhau gwybodaeth cyn pryd arwain at hapfasnachu niweidiol ac anghyfreithlon ar gyfranddaliadau. Dyna pam y mae'n rhaid i'r adroddiad aros yn gyfrinachol tan ei gyhoeddi. Ni fyddai'n briodol imi roi sylw ar y materion a godir hyd hynny.

Wedi dweud hynny, mae dyfodol y diwydiant llaeth yng Nghymru yn fater y mae Alun Michael a minnau yn rhoi'r pwys mwyaf arno. Yn y blynyddoedd diwethaf hyn gwelsom gau Hufenfa Hendy-gwyn. Holodd Rhodri Glyn a fyddai pobl yn dechrau siarad â Dairy Crest ynglŷn â'i hagor neu ei gwerthu. Nid yw'r trafodaethau hynny erioed wedi dod i ben. Maent yn mynd ymlaen o hyd.

Fe gollwyd yr Elm Group hefyd ac mae'r diwydiant yn parhau i ddioddef oherwydd cwmp mewn prisiau. Byddai unrhyw ddirywiad pellach yn y sector yn effeithio'n ddifrifol ar yr economi lleol a chymunedau gwledig. Er mwyn cydnabod hynny, mae'r diwydiant llaeth yn sector blaenoriaeth yn y gwaith datblygu ar y strategaeth bwyd-amaeth, a lanswyd gan y Swyddfa Gymreig yn Sioe Amaethyddol Cymru llynedd.

O ganlyniad i'r gwaith hwn, ym Mawrth 1999, bu i Alun Michael, ynghyd â chadeiryddion y tri gweithgor sector sydd dan arweiniad y diwydiant, lansio'r cynlluniau gweithredu ar gyfer y sector amaeth ochr yn ochr â rhai ar gyfer cig oen a chig eidion a'r sector organig. Mae'r Cynllun Gweithredu ar Laeth, a fydd ar gael cyn hir

the opportunities facing the sector in the years ahead. As Gareth Evans of South Caernarfon Creameries, the chairman of the Dairy Working Group, has said:

‘The industry has seen tough times but in recent months there has been a glimmer of light ahead and a growing belief that the worst is over.’

I hope he is right. World markets for dairy produce are showing an upward trend and the direction of the common agricultural policy reform is pushing Europe towards a gradual but steady liberalisation of milk production.

The action plan is set in the context of anticipated structural changes in the industry over the period to 2005. Although the number of milk producers in Wales is expected to fall in that time by 28 per cent to just over 3,000, as Jocelyn mentioned, there are also positive changes predicted. In that same period average output per farm is expected to rise by 40 per cent to 463,000 litres a year, and total commercial milk production is expected to increase slightly supported by a slow net movement of quota into Wales from the rest of the UK.

**Mick Bates:** I am very concerned about your relaxed attitude. This is an urgent issue. However you describe the decline of our rural communities to such an extent that you are almost quoting figures happily. I would like to hear on behalf of the dairy industry what action you are going to take to reverse that decline or at least offer some stability to the dairy industry. The points you make are beyond the control of this Assembly. Can you not say to the dairy farmers that you will do something positive through extra promotion and through providing free school milk to five, six and seven year-olds? I would like to hear your reply.

**Christine Gwyther:** If you would let me finish, perhaps we can deal with this

ar Fewnrwyd y Cynulliad, yn nodi'n eglur y sialensau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r sector yn y blynyddoedd sydd i ddod. Fel y dywedodd Gareth Evans o Hufenfa De Arfon, cadeirydd y Gweithgor ar Laeth:

‘Mae'r diwydiant wedi gweld cyfnod anodd ond yn y misoedd diwethaf hyn fe welwyd llygedyn o oleuni o'n blaen a chred gynyddol bod y gwaethaf drosodd.’

Gobeithio ei fod yn iawn. Mae marchnadoedd y byd i gynnyrch llaeth yn dangos cynnydd ac mae cyfeiriad y diwygiadau ar y polisi amaeth cyffredin yn gwthio Ewrop tuag at ystwytho graddol ond sefydlog ar gynhyrchu llaeth.

Mae'r cynllun gweithredu wedi ei osod yng nghyd-destun y newidiadau strwythurol a ragwelir yn y diwydiant dros y cyfnod hyd at 2005. Er bod disgwyl y bydd nifer y cynhyrchwyr llaeth yng Nghymru yn disgyn 28 y cant yn y cyfnod hwnnw at nifer o ychydig dros 3,000, fel y dywedodd Jocelyn, fe ragwelir newidiadau cadarnhaol hefyd. Yn yr un cyfnod disgwylir i gynnyrch cyfartalog y ffermydd godi 40 y cant at 463,000 litr y flwyddyn, a disgwylir i gyfanswm y cynnyrch llaeth masnachol godi ychydig gyda chymorth symudiad clir araf o gwota i Gymru o weddill y DU.

**Mick Bates:** Yr wyf yn bryderus iawn ynghylch eich ymagwedd ddiraro. Mae hwn yn fater brys. Fodd bynnag, yr ydych yn disgrifio dirywiad ein cymunedau gwledig i'r fath raddau fel eich bod bron â dyfynnu ffigurau o'ch bodd. Hoffwn glywed ar ran y diwydiant llaeth pe gamau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i wrthdroi'r dirywiad hwnnw ac o leiaf gynnig rhywfaint o sefydlogrwydd i'r diwydiant llaeth. Mae'r pwyntiau a wnewch y tu hwnt i reolaeth y Cynulliad hwn. Oni ellwch ddweud wrth y ffermwyr llaeth y byddwch yn gwneud rhywbeth cadarnhaol drwy hyrwyddo ychwanegol a drwy ddarparu llaeth am ddim mewn ysgolion i rai pump, chwech a saith oed? Hoffwn glywed eich ateb.

**Christine Gwyther:** Os byddwch gystal â gadael imi orffen, efallai y gallwn ddelio â

afterwards. You have had two opportunities now.

**The Presiding Officer:** Order. That was not an intervention, but a second speech. That is not acceptable in this short debate.

**Christine Gwyther:** As a result of the slow net movement of quota into Wales from the rest of the UK, the Welsh share of total UK milk production is expected to increase a small extent. I hope that is good news for even Mick Bates. It is therefore a central plank of the Dairy Action Plan to underpin and if possible accelerate this trend to increase production as a foundation for greater investment by the dairy-processing sector in Wales.

Our dairy industry has tremendous strengths, not least the quality of our grassland; the density of the milk fields allowing efficient milk assembly for processing; the quality of our milk and our reputation for quality associated with the image of a clean rural environment; and the concept of heritage and naturalness. The industry must build on these to develop premium products and secure additional investment in added value processing to bring prosperity back to the industry.

The Dairy Action Plan sets out an agenda worked out in partnership with the industry itself. This includes four key goals. They are: improving the marketing of the sector; maximising the performance of processors; maximising the performance of milk producers; and improving the information base of the industry. As well as the proposals set out in the Dairy Action Plan, there is great scope to develop organic dairy production in Wales. We estimate that organic production of milk in the UK will increase by 60 per cent between 1999 and 2001. The action plan sets out detailed proposals for the organic food sector to help farmers take advantage of the growing demand for organic milk and milk products.

hyn wedyn. Yr ydych wedi cael dau gyfle bellach.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid ymyriad oedd hwnnw, ond ail araith. Nid yw hynny'n dderbyniol yn y ddadl fer hon.

**Christine Gwyther:** O ganlyniad i'r symudiad clir araf o gwota i Gymru o weddill y DU, disgwylir y bydd cyfran Cymru o gyfanswm cynnyrch llaeth y DU yn cynyddu ryw ychydig. Gobeithio bod hynny'n newyddion da, hyd yn oed i Mick Bates. Mae felly yn elfen ganolog yn y Cynllun Gweithredu ar Laeth i ategu ac, oes oes modd, cyflymu'r tuedd hwn at gynnyrch uwch fel sylfaen ar gyfer buddsoddi helaethach gan y sector prosesu llaeth yng Nghymru.

Mae cryfderau aruthrol gan ein diwydiant llaeth, ac nid y lleiaf o'r rhain yw ansawdd ein porfeydd; trwch y caeau llaeth sy'n caniatáu casglu llaeth yn effeithlon i'w brosesu; ansawdd ein llaeth a'r enw da sydd gennym am ansawdd sy'n gysylltiedig â'r ddelwedd o amgylchedd gwledig glân; a'r syniad o dreftadaeth a naturioldeb. Rhaid i'r diwydiant adeiladu ar y rhain a datblygu cynhyrchion o'r safon uchaf a sicrhau buddsoddi ychwanegol mewn prosesu â gwerth ychwanegol er mwyn adfer ffyniant y diwydiant.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar Laeth yn gosod agenda a luniwyd mewn partneriaeth â'r diwydiant ei hun. Mae hyn yn cynnwys pedair prif nod. Y rhain yw: gwella marchnata'r sector; amlhau perfformiad y proseswyr; amlhau perfformiad y cynhyrchwyr llaeth; a gwella sylfaen wybodaeth y diwydiant. Yn ogystal â'r cynigion a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar Laeth, mae yna gyfle mawr i ddatblygu cynhyrchu llaeth organig yng Nghymru. Yr ydym yn amcangyfrif y bydd cynnyrch llaeth organig yn y DU yn cynyddu 60 y cant rhwng 1999 a 2001. Mae'r cynllun gweithredu'n rhestru cynigion manwl ar gyfer y sector bwyd organig er mwyn helpu ffermwyr i fanteisio ar y galw cynyddol am llaeth a chynhyrchion llaeth organig.

The Welsh Office supports the action plan and I have no doubt that the National Assembly will want to continue to support it as well. The Department has already invested substantial sums of processing and marketing grant in dairy processing, for example at Aeron Valley Cheese Ltd. We awarded £600,000 and the MMC approved this investment by Milk Marque, even though it is for processing. That is good news.

We are currently in discussion with processors and producers about support for other projects in west Wales and north Wales. We are working hard to secure future Objective 1 and other European funding to continue to support essential developments in the agri-food sector to the benefit of our farming industry and rural communities.

Jocelyn mentioned milk quotas for Eire. They have also risen for Northern Ireland. I have not checked this out yet, but it is interesting for Wales because we will have the capacity in future to purchase milk quotas from Northern Ireland. Officials are looking at that.

We have also given a new role to promote food to the Welsh Development Agency and to lead on economic development in the agri-food sector. The WDA is providing support to the Agri-Food Partnership to implement the recommendations of the action plans both nationally and locally with the industry and local partners through the regional agri-food groups, which I helped to launch recently. The Agency will also have specific responsibility for supporting the food-processing sector in Wales.

5:09 p.m.

In addition, I shall be looking to develop support to help farmers adapt to changing market conditions. We will do this by ensuring that effective training, research and development, technology transfer, and

Mae'r Swyddfa Gymreig yn cefnogi'r cynllun gweithredu ac nid oes unrhyw amheuaeth gennyf y bydd y Cynulliad Cenedlaethol am barhau i'w gefnogi hefyd. Mae'r Adran eisoes wedi buddsoddi symiau sylweddol o grantiau prosesu a marchnata mewn prosesu llaeth, er enghraifft yn Aeron Valley Cheese Ltd. Yr ydym wedi rhoi £600,000 a chafwyd cymeradwyaeth gan y Comisiwn Monopolïau a Chydsoddiadau i'r buddsoddiad hwn gan Milk Marque, er ei fod ar gyfer prosesu. Mae hynny'n newyddion da.

Ar hyn o bryd yr ydym yn cynnal trafodaethau â phroseswyr a chynhyrchwyr ynghylch cymorth i brosiectau eraill yng ngorllewin Cymru ac yng ngogledd Cymru. Yr ydym yn gweithio'n galed i sicrhau cyllid Amcan 1 a chyllid Ewropeaidd arall yn y dyfodol i barhau i gefnogi datblygiadau hanfodol yn y sector bwyd-amaeth er budd i'n diwydiant amaethyddol a'n cymunedau gwledig.

Fe grybwyllodd Jocelyn gwtâu llaeth ar gyfer Gweriniaeth Iwerddon. Maent wedi cynyddu ar gyfer Gogledd Iwerddon. Nid wyf wedi gwirio hynny eto, ond mae hynny o ddiddordeb i Gymru oherwydd yn y dyfodol byddwn yn gallu prynu cwtâu llaeth oddi wrth Ogledd Iwerddon. Mae swyddogion yn ystyried hynny.

Yr ydym hefyd wedi rhoi rôl newydd i hybu bwyd i Awdurdod Datblygu Cymru ac i arwain ar ddatblygu economaidd yn y sector bwyd-amaeth. Mae'r WDA yn darparu cefnogaeth i'r Bartneriaeth Bwyd-Amaeth i weithredu argymhellion y cynlluniau gweithredu yn genedlaethol ac yn lleol gyda'r diwydiant a phartneriaid lleol drwy'r grwpiau bwyd-amaeth rhanbarthol y rhoddais gymorth i'w lansio'n ddiweddar. Bydd cyfrifoldeb penodol ar yr Awdurdod i gefnogi'r sector prosesu bwyd yng Nghymru.

Yn ogystal â hynny, byddaf yn ceisio datblygu cefnogaeth i helpu ffermwyr i addasu i amodau newidiol y farchnad. Fe wnawn hynny drwy sicrhau bod hyfforddiant effeithiol, ymchwil a datblygu, trosglwyddo

information and advisory services are available to help farmers adopt best agricultural practice, manage their business more effectively and take sensible commercial decisions on how to develop or to diversify.

Much of this work will be taken forward by the farm development strategy group which is being set up. We have already provided a Rural Development Grant of over £0.110 million to support a European Objective 5b project by National Milk Records Limited. This will help dairy farmers improve quality and efficiency in their businesses and provide them with advice on best practice. By ensuring that more information, advisory and counselling services are available to farming families, we will be helping them to take informed decisions about their future.

A key element of the development of the agri-food sector is financial assistance from Government. A substantial increase in Welsh Office funding to £2.116 million has been made available for agri-food development in the current year. Of this, £1.816 million will go to the WDA for food promotion, more than doubling this budget over previous years and supporting a total projected programme spend of £6.5 million by the Agency on the food sector. In addition, £0.150 million will be used to support the implementation of the action plan on the organic sector and £0.150 million to support action to help farmers adapt. We have also allocated £0.350 million for the marketing development scheme, and £1.371 million to the processing and marketing grant, both of which support marketing and investment in food processing. This list of numbers demonstrates that there is a lot of money available to take the industry forward.

The extensive, practical and financial support coupled with our initiative in working with the industry to set an agenda for action to help it adapt and respond to change shows our commitment to help develop a viable and sustainable industry in Wales. In the words of the chair of the Dairy Working Group:

technologau, a gwasanaethau gwybodaeth ac ymgynghori ar gael i helpu ffermwyr i fabwysiadu'r ymarfer amaethyddol gorau, rheoli eu busnes yn fwy effeithiol ac i wneud penderfyniadau masnachol doeth ynghylch y modd i ddatblygu neu arallgyfeirio.

Bydd llawer o'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu gan y grŵp strategaeth datblygu ffermydd sy'n cael ei sefydlu. Yr ydym eisoes wedi darparu Grant Datblygu Gwledig o dros £0.110 miliwn i gynorthwyo prosiect Ewropeaidd Amcan 5b gan National Milk Records Limited. Bydd hyn yn helpu ffermwyr i wella ansawdd ac effeithlonrwydd yn eu busnesau ac yn darparu cyngor iddynt ar yr ymarfer gorau. Drwy sicrhau bod mwy o wasanaethau gwybodaeth, cynghori ac ymgynghori ar gael i deuluoedd ffermio, byddwn yn eu helpu i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch eu dyfodol.

Un elfen allweddol yn natblygiad y sector bwyd-amaeth yw cymorth ariannol gan y Llywodraeth. Mae cynnydd sylweddol yng nghyllid y Swyddfa Gymreig hyd at £2.116 miliwn wedi ei ddarparu ar gyfer datblygu bwyd-amaeth yn y flwyddyn gyfredol. O hynny, bydd £1.816 miliwn yn mynd i'r WDA ar gyfer hybu bwyd, gan fwy na dyblu'r gyllideb hon o'i chymharu â blynyddoedd blaenorol, a chefnogi cyfanswm gwariant amcanestynedig ar y rhaglen o £6.5 miliwn gan yr Awdurdod ar y sector bwyd. Yn ogystal â hynny, defnyddir £0.150 miliwn i gefnogi gweithredu'r cynllun gweithredu yn y sector organig a £0.150 i gefnogi camau i helpu ffermwyr i addasu. Yr ydym hefyd wedi dyrannu £0.350 miliwn ar gyfer cynllun datblygu marchnata, a £1.371 miliwn i'r grant prosesu a marchnata, y ddau hyn yn cefnogi marchnata a buddsoddi mewn prosesu bwyd. Mae'r rhestr ffigurau hon yn dangos bod llawer o arian ar gael i fynd â'r diwydiant ymlaen.

Mae'r cymorth helaeth, ymarferol ac ariannol ynghyd â'n menter wrth weithio gyda'r diwydiant i bennu agenda ar gyfer gweithredu i'w helpu i addasu ac ymateb i newid yn dangos ein hymrwymiad i helpu i ddatblygu diwydiant hyfyw a chynaliadwy yng Nghymru. Yng ngeiriau cadeirydd y



Gweithgor ar Laeth:

‘Changes in the world market for dairy produce together with the growing demand for organic dairy products means that if the industry can grasp the opportunities presented, Wales will have a real chance of securing a good share of an expanding market.’

I will do everything I can to help that happen, and I hope all Members here today share and support that objective.

**Y Llywydd:** Dyna ddiwedd sesiwn heddiw. Diolch yn fawr i chi.

‘Mae newidiadau ym marchnad y byd ar gyfer cynnyrch laeth ynghyd â'r galw cynyddol am gynhyrchion laeth organig yn golygu, os gall y diwydiant afael yn y cyfleoedd a gynigir iddo, y bydd cyfle gwirioneddol i Gymru sicrhau cyfran dda o farchnad gynyddol.’

Fe wnaif bopeth yn fy ngallu i wireddu hynny, a gobeithio bod yr holl Aelodau sydd yma heddiw yn rhannu ac yn cefnogi'r amcan hwnnw.

**The Presiding Officer:** That is the end of today's proceedings. Thank you all.

*Daeth y sesiwn i ben am 5.12 p.m.  
The session ended at 5.12 p.m*